# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 16EG MAWRTH, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 08.03.17)

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

**AELODAETHP (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Aled Ll. Evans |
| E. Selwyn Griffiths | Christopher Hughes |
| Sian Wyn Hughes | Elin Walker Jones |
| Ann Williams | R. Hefin Williams |
| R. H. Wyn Williams | Gareth A. Roberts |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| Dewi Owen | Eirwyn Williams |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alwyn Gruffydd | Peter Read |

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

## Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Rhian Roberts | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor |
| Rita Price | Yr Eglwys Gatholig |
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys yng Nghymru |

Heb Bleidlais:

| | |
|---|---|
| Dilwyn Elis Hughes | UCAC |
| David Healey | Undebau Athrawon (ATL) |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 6 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2017, fel rhai cywir.

(Copi'n amgaeedig)

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG — 15 - 80

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Addysg gan yr Aelod Cabinet Addysg.

(Copi'n amgaeedig)

## 6. ADOLYGIAD GWE — 81 - 91

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 7. YMCHWILIAD CRAFFU I DDARPARIAETH GOFALWYR — 92 - 128

***Aelodau Cabinet: Y Cyng. W. Gareth Roberts***
***Y Cyng. Mair Rowlands***

I dderbyn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu i ddarpariaeth gofalwyr.

(Copi'n amgaeedig)

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 26.01.17

**Yn bresennol**:

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**
**Y Cynghorydd Eirwyn Williams (is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Alan Jones Evans, Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Ann Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams.

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitemau 3 a 4 isod:**
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts
Morwenna Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Rhion Glyn, Uwch Reolwr Busnes

**Ar gyfer Eitemau 5 a 6 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Keith Parry, Swyddog Ardal
Bethan Eleri Roberts, Swyddog Rheoli Perfformiad

**Eraill a wahoddwyd:**
Alun Charles, Ymynghorydd Allanol, ar gyfer eitem 6 isod.
Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar gyfer eitem 4 isod.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dewi Owen, Peter Read a Gareth A. Roberts, a Rita Price (Yr Eglwys Gatholig).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol yn Eitem 5 – Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ac y byddai'n gadael y Siambr pe byddai trafodaeth benodol ynghylch taliadau gofal cartref.

(ii) Yn yr un modd datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones fuddiant personol yn Eitem 5 - Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ac y byddai'n gadael y Siambr pe byddai trafodaeth benodol ynghylch materion anableddau dysgu.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2016 yn ddarostyngedig i'r canlynol:

**(a) Eitem 2 - Datganiad gan y Cadeirydd**

Adroddodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd nad oedd cyfeiriad yn y cofnodion diwethaf at ei anfodlonrwydd ynglŷn â'r ffaith nad oedd yr aelodau yn ymwybodol o'r bwriad i'r Pennaeth Addysg arwain dros dro ar ddarn o waith mewn perthynas â newidiadau diweddar / cryfderau a gwendidau trefniadau presennol GwE. Yn y cyfarfod diwethaf, nododd yr Aelod Cabinet Portffolio ei fod yn ymwybodol o'r bwriad uchod ond mai cyfrifoldeb y Prif Weithredwr ydoedd ymdrin â'r mater.

Mewn ymateb, atgoffodd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yr aelodau bod y mater wedi ei drafod yn llawn gyda'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar 13 Rhagfyr 2016, a phenderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw bod bwriad i gyflwyno adroddiad o ganlyniadau gwaith y Pennaeth Addysg ar GwE i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, mae'n debyg ym Mawrth 2017.

Tra'n derbyn bod esboniad wedi ei dderbyn yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar 13 Rhagfyr 2016, roedd yr Aelod yn daer o'r farn y dylai'r mater fod wedi ei drafod mewn cyfarfod cyhoeddus fel bo Aelodau ac etholwyr yn llwyr ymwybodol o'r sefyllfa.

**(b) Eitem 4 (c) – Adroddiad GwE**

Cywiro'r ail frawddeg ym mhwynt (c) i ddarllen:

"Fodd bynnag, teimlai un aelod y dylai hyn fod wedi digwydd eisoes a chyfeiriwyd yn benodol at bedwar Pennaeth medrus wedi eu colli i GwE dros y misoedd diwethaf o fewn **dalgylch un ysgol".** - (ac nid o fewn ei Ward fel y nodir yn y cofnodion diwethaf).

## 3. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad drafft o Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a gynhyrchwyd yn unol â gofyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gosodwyd y cefndir gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant.Rroedd o'r farn bod angen annog pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u dyfodol ddigon cynnar er mwyn gwneud bywyd yn haws ac yn fwy cyfforddus pe byddai eu hiechyd yn dirywio. Egluroedd y gallai hyn olygu symud i dai llai, symud yn nes at deulu, a.y.b. er mwyn derbyn cefnogaeth ond eto byw yn annibynnol. Pwysleisiodd bod y camau angen bod yn benodol i anghenion unigolion ond y dylai pobl feddwl am y dyfodol tra yn dal yn iach ac annibynnol.

Mewn ymateb i'r uchod, anghytunodd Aelod gyda'r sylw uchod. Ychwanegodd Aelod arall mai'r brif broblem ydoedd ei fod yn anodd i unigolion dderbyn bod eu hiechyd yn dirywio a rhai yn dioddef o gyflwr dementia gyda phawb yn dymuno cadw eu hannibyniaeth.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau gynnig sylwadau ar gynnwys yr adroddiad ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol o ran ystyriaeth bellach:

(a) Croesawyd y math yma o asesiad ond pryderwyd am y mewnlifiad o unigolion sydd wedi ymddeol i wledydd Ewrop a allai ddod i Wynedd, o ganlyniad refferendwm Ewrop. Gofynnwyd a oedd ystyriaeth i unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyn pe byddai'n digwydd?

(b) Anableddau Dysgu – croesawyd bod y ddarpariaeth yn cael ei gefnogi ond nad oedd cyfeiriad yn y ddogfen at gydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd meddwl.
(c) Y dylid rhoi pwyslais a sicrwydd ynglŷn ag anghenion iaith defnyddwyr gwasanaeth
(ch) Y dylid cydnabod gwerth cyfraniadau di-dâl gwirfoddolwyr
(d) Croesawyd cynlluniau i ddatblygu gwasanaethau a chymorth i fynd i'r afael ag unigrwydd ond pryderwyd am barhad i gynlluniau o'r fath yng nghyswllt eu cyllido i'r dyfodol. Cyfeiriwyd yn benodol at y Cynllun Ffrindia' a oedd yn ymddangos yn llwyddiannus a'i fod yn dirwyn i ben ac o'r herwydd yn cael effaith ar y bobl hynny sydd wedi manteisio o'r cynllun.
(dd) O safbwynt cynyddu'r ddarpariaeth tai gofal ychwanegol, apeliwyd ar i'r Gwasanaeth rannu gwybodaeth gydag aelodau etholedig am gynlluniau i'r dyfodol.
(e) Yng nghyswllt anghenion i'r dyfodol, bod angen grymuso cymunedau ac yn sgil hyn bod rôl bwysig i adnabod unigolion sydd yn heneiddio. Ychwanegwyd yr angen i fod yn hyderus i gysylltu ag unigolion yn eu cymunedau oherwydd yn aml nad oedd ardaloedd gwledig yn derbyn gwasanaeth gan y trydydd sector.
(f) Ymgysylltu - gofynnwyd am fanylion ynglŷn â phwy gyfrannodd i'r holiadur anfonwyd i'r defnyddwyr.
(ff) Y dylid cydnabod bod darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion dwys a chymhleth yn gostus. Croesawyd cyfeiriad at anghenion anhwylder y sbectrwm awtistiaeth a thynnwyd sylw at yr angen i gydweithio gyda'r gwasanaethau perthnasol yn y cyswllt hwn o ran darpariaeth. Tynnwyd sylw at gynnydd lle gwelwyd clwstwr o oddeutu 10 plentyn mewn un ardal.
(g) Gofynnwyd a oedd swyddogion yn hapus bod yr asesiad yn drawsadrannol?
(ng) A fyddir yn cydweithio gyda darparwyr tai gofal ychwanegol megis Cynefin ac yn benodol ar ddarpariaeth yn Ne'r Sir?
(h) Pwysigrwydd i gydnabod ac i fynd i'r afael a'r materion a godwyd parthed iechyd meddwl a phryderwyd am yr angen i ddefnyddio gwelyau aciwt tu allan i Ogledd Cymru.

Derbyniwyd ymateb i'r sylwadau uchod gan y swyddogion perthnasol fel a ganlyn:

- Mai asesiad o'r anghenion sydd gerbron ac fe fyddir yn darparu cynlluniau gweithredu i'r dyfodol. Nodwyd ymhellach gan mai hwn yw'r asesiad cyntaf a'i fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na gwybodaeth anecdotal. Pan fyddir yn ei adolygu, hyderir y bydd y Gwasanaeth yn medru llenwi'r bylchau a chomisiynu yn ddoethach drwy ddefnyddio'r wybodaeth a ddaw i law.

- Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles ei bod yn amser o gynnil ariannol ymhob man gyda chapasiti gwasanaethau yn lleihau. Byddai'n rhaid ystyried beth yw'r ystod o'r gwasanaethau a chapasiti y gwirfoddolwyr.

- Yng nghyswllt ymgysylltu, byddir yn canfod y wybodaeth o'r niferoedd o Wynedd a gyfrannwyd i'r holiadur a'i rannu gyda'r Aelodau.

- Roedd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn fodlon ar y wybodaeth ond yn cydnabod bod bylchau a phwysleisiodd mai sail tystiolaeth ranbarthol a dderbyniwyd, ac y byddir yn parhau gyda'r ymgysylltu yn y dyfodol. Esboniwyd mai dyma'r wybodaeth orau a fodolir ar hyn o bryd.

- Bod yr asesiad llesiant yn cyd-redeg i edrych beth sydd ar gael mewn cymunedau a bod pwyslais ar yr elfen gofal wedi ei gynnwys yn yr asesiad sydd gerbron. Ychwanegwyd pan fyddir yn ail-ymweld a'r asesiad uchod fe fyddir yn ei blethu fewn i'r asesiad poblogaeth. Cyfeiriwyd yn ychwanegol at adroddiad Heneiddio'n Dda a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ddiweddar sydd yn cyfeirio yn

benodol at elfennau llesiant megis cynlluniau gofal ac yn adnabod beth sydd angen ei wneud ar gyfer y dyfodol.

- Bod buddsoddi mewn darpariaeth gofal ychwanegol yn gwbl greiddiol ac yn rhan o'r darlun ehangach ond ei fod yn ddibynnol ar gyfraniadau gan y Llywodraeth ac fe gadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn gwneud popeth y gallent i sicrhau cyfran o'r arian hwn. Nodwyd ymhellach bod sawl ardal wedi ei adnabod ar draws y Sir o ran yr angen ac yn bendant ardaloedd yn Ne a Gorllewin y Sir.

- Bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y gwaith a wnaed yn gynhwysfawr. Rhaid cofio ei fod yn adlewyrchu asesiad mewn cyfnod o amser ac yn dyddio o ddydd i ddydd ond sicrhawyd y byddir yn cynnal mwy o ymchwiliad yn lleol gyda'r bwriad o blethu'r wybodaeth a dderbynnir i'r asesiad nesaf i gyfarch yr anghenion mwy lleol.

- Trais yn y cartref - esboniwyd bod Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn gwasanaethu ar Bartneriaeth amlasiantaethol gydag Ynys Môn a'i fod yn brif flaenoriaeth i'r bartneriaeth. Awgrymwyd ymhellach efallai y byddai modd craffu ar waith y Bartneriaeth uchod. Nodwyd hefyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Heddlu a chydnabyddir ei fod yn faes sydd angen cadw golwg arno.

- Parthed datblygiad y ddarpariaeth gofal ysbaid yn Ysgol newydd Hafod Lon, eglurwyd bod yr Adran Plant yn gweithio'n ddiwyd ar y datblygiad hwn.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo'r adroddiad yn ddarostyngedig i roi ystyriaeth fanwl i'r elfennau canlynol wrth baratoi asesiadau lleol a chynlluniau gweithredu ar sail yr asesiad poblogaeth:**

**(i) Tafluniad poblogaeth a thueddiadau mewnfudo i Wynedd o safbwynt pobl hŷn**
**(ii) Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl ac Awtistiaeth - angen amlygu cydweithio gyda gwasanaethau eraill**
**(iii) Asesiad Iaith – pwyslais ar anghenion iaith defnyddwyr y gwasanaeth**
**(iv) Cydnabod gwerth cyfraniadau gwirfoddolwyr**
**(v) Ymgysylltu - angen mwy o waith parthed niferoedd, cynllun comisiynu, cynrychiolaeth gymesur o Wynedd, a grymuso cymunedau gwledig**
**(vi) Mwy o wybodaeth ynglŷn â Thrais yn erbyn menywod**

## 4. YMCHWILIAD CRAFFU O'R YSBYTY I'R CARTREF

Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad Craffu 'O'r Ysbyty i'r Cartref.

Ymfalchïodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Llesiant ac Iechyd yn y gwaith a wnaed hyd yma parthed yr argymhellion a bod rhai ohonynt eisoes wedi eu cyflawni.

Ymatebwyd i sylwadau Aelodau unigol fel a ganlyn:

(i) ei fod yn gynamserol gwerthuso prosiect Llys Cadfan gan fod y gwaith yn mynd rhagddo mewn dwy ran gyda'r rhan gyntaf bron wedi ei gwblhau. Fe fyddir yn trafod ymhellach ar 6 Chwefror 2017 i ystyried lle gellir buddsoddi a chadarnhawyd bod bwriad i ddatblygu'r ddarpariaeth o'r fath mewn lleoliadau

eraill a heb fod yn benodol, bod tystiolaeth ar gael o ran y galw, ac yn arbennig yn Ne'r Sir.

(iii) Esboniwyd nad oedd gan Wynedd ddarpariaeth cofrestriad deublyg (dual registration) drwy Wynedd, ond bod trafodaethau gyda AGGCC am gynlluniau i gyfarch yr angen a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r ddarpariaeth.

(iv) Cytunwyd bod anghenion iaith y claf yn hynod bwysig gyda'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn ar y wardiau drwy roi taflenni yn gofyn pa iaith y dymunai'r claf siarad.

(v) Bod gwaith a thrafodaethau yn mynd rhagddo ynglŷn â chydweithio gyda meddygfeydd yn ogystal ag ymestyn oriau agor Ysbytai Cymunedol a'u datblygu yn hybiau.

(vi) Yn dilyn profiad Aelod yn ddiweddar o'r Adran Pryderon eglurwyd ar y drefn drwy sicrhau bod cwynion ffurfiol yn derbyn sylw

(vii) Sicrhawyd y byddir yn cyflwyno dadansoddiad o'r arian £1.3m ar gyfer Gofal Canolradd i'w rannu er gwybodaeth i'r Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn

(viii) O safbwynt rhannu gwybodaeth gyda nyrsys / meddygon o'r hyn sydd ar gael gan y trydydd sector, eglurwyd fel rhan o waith Ysbyty Alltwen bod staff yn casglu gwybodaeth ond bod mwy o waith i'w gyflawni yn y cyswllt hwn.

(ix) Yng nghyd-destun darparu pecynnau i gleifion pan fyddent yn gadael yr Ysbyty i'r cartref, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y byddai'n trafod mewn cyfarfod gyda'r Metronau yn fuan i wirio'r sefyllfa a'r hyn sy'n digwydd pe nad oes nyrs ardal ar gael.

Mewn ymateb i'r sylw wnaed ynglŷn ag anghenion iaith, nododd sawl Aelod ymhellach bod ffurfio cwestiwn yn gywir yn holl bwysig ac y dylid cynnig gwasanaeth dwyieithog fel rhan gwbl naturiol o'r gwasanaeth.

Nodwyd bod Meddygfeydd Dwyfor yn gweithio'n dda a chroesawyd y sylw y byddai'r gwasanaeth allan o oriau yn cael ei ymestyn.

Cymerwyd y cyfle i longyfarch y Gwasanaeth ar weithrediad yr argymhellion

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

## 5. MODELAU AMGEN ARWAIN YSGOLION

Derbyniwyd cyflwyniad ar ffurf sleidiau gan Swyddog Addysg Ardal, ac fe amlinellodd modelau amrywiol ar gyfer gwahanol fath o ysgol i'r dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| Model 1 | - | lle ceir Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, 1 gyllideb ac 1 Corff Llywodraethol |
| Model 2 | - | lle ceir Pennaeth Strategol, Pennaeth Cynorthwyol, cyllidebau a Chyrff Llywodraethol ar wahân |
| Model 3 | - | lle ceir Pennaeth Strategol, Pennaeth Cynorthwyol, cyllidebau ar wahân ac 1 Corff Llywodraethol |
| Model 4 | - | lle ceir Pennaeth Strategol, Pennaeth Cynorthwyol, 1 gyllideb ac 1 corff llywodraethol mewn ysgol ddilynol aml safle |
| Model 5 | - | lle ceir Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, 1 gyllideb ac 1 corff llywodraethol mewn ysgol ddilynol un safle |
| Model 6 | - | lle ceir Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, 1 gyllideb, 1 corff llywodraethol mewn ysgol Gydol Oes – aml safle neu un safle (3 – 18 oed) |

Yn dilyn ystyried yr egwyddorion, nodwyd nad oedd un model yn ymateb i ofynion pob dalgylch ac y byddai'n ofynnol ystyried anghenion yn yr ardaloedd. Roedd y modelau

uchod yn ymgais i wneud rôl arwain ysgol yn un deniadol o gofio'r pwysau sydd ar arweinwyr ysgol a'r ffaith bod recriwtio arweinwyr i ysgolion wedi bod yn anodd yn ddiweddar.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Addysg at enghraifft o'r model 2 sydd yn gweithio'n llwyddiannus yn nalgylch Ardudwy. O ran amserlen, cynhaliwyd trafodaethau gyda staff ysgolion / llywodraethwyr / rhieni yn ddiweddar i amlygu'r broblem recriwtio a cheisio am ddatrysiad ar lawr gwlad. Derbyniwyd ceisiadau gan Benaethiaid i drafod posibiliadau mewn rhai dalgylchoedd a nodwyd pwysigrwydd i gynnal trafodaethau gyda'r Swyddogion Ardal a Phenaethiaid er mwyn canfod anghenion yn lleol fesul dalgylch.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad gan edrych ymlaen i weld canlyniadau'r trafodaethau lleol.**

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG – ADRODDIAD CYNNYDD

Croesawyd Mr Alun Charles, Ymgynghorydd allanol, i'r cyfarfod a derbyniwyd cyflwyniad ganddo ar ffurf sleidiau ar ei astudiaeth i weithrediad Polisi Iaith y Cyngor yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd ac fe esboniodd yn drylwyr yr hyn sydd wedi arwain at yr argymhellion o fewn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

(i) **Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Addysg ar argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg**:

Nododd Aelod ei fod wedi cyflwyno cwestiynau penodol ynglŷn â'r ymatebion o ran tracio cynnydd o argymhellion yn deillio o waith yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg, ac nad oedd hyd yma wedi derbyn ymateb cadarnhaol i:

- A oedd gan y Gwasanaeth Addysg bwerau i ymyrryd i sicrhau cryfhau a chysoni gweithrediad y Polisi Iaith a faint o rain sydd wedi cael eu defnyddio?
- A oedd pob llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant ar y polisi iaith er bod y Gwasanaeth Addysg yn datgan bod hyfforddiant wedi ei raglennu ar gyfer Haf 2017
- Nad oedd yn glir a oedd camau wedi eu cymryd mewn perthynas ag addysg drochi yn Ysgol Ardudwy
- Nodir bod y Cyngor ar y cyd gyda llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu Canolfan Iaith benodol ar gyfer dalgylch Bangor; gyda dyfodiad posib yr Wylfa Newydd yng nghyswllt addysg a'r Gymraeg yn benodol mae disgwyl i nifer o'r gweithlu newydd sefydlu yn ardal Arfon. Gofynnwyd faint o ganolfannau trochi, athrawon ychwanegol, canolfannau iaith ac ati fyddai angen i liniaru effaith yr Wylfa Newydd ar y Gymraeg a faint fyddai cost hynny a phwy fyddai'n talu?

**(ii) Astudiaeth Allanol:**

(a) Cyfeiriwyd at y ffaith bod y canrannau o ddefnydd y Gymraeg yn uwch yn CA2 na CA3. Awgrymwyd bod angen cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o CA2 i CA3 yn enwedig o ystyried y gwaith da a wneir o ddefnydd y Gymraeg yn CA2 a'r Unedau Iaith ac wedyn yn cael ei lesteirio yn CA3 pan mae'r disgyblion yn dewis gwneud pynciau / arholiadau drwy gyfrwng y Saesneg.

(b) Pryderu bod colegau 6ed dosbarth yn colli disgyblion ac yn fodlon teithio pellter er mwyn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Saesneg ac felly yn llesteirio niferoedd disgyblion y colegau. Teimlwyd bod angen mynd i'r afael â'r mater hwn.
(c) Bod cysondeb yn anodd yn enwedig i'r ysgolion sydd wedi eu lleoli ar yr arfordir a bod tueddiad i rieni hanfon eu plant i'r sector preifat.
(d) Bod angen codi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision cymdeithas ddwyieithog a phlant yn colli allan os nad yw'r Gymraeg yn rhan o'r cwricwlwm.
(e) Bechod ydoedd bod ysgol wledig mewn ardal benodol yn y categori dwyieithog ac ysgol drefol gerllaw yn gyfrwng Gymraeg
(f) Mynegwyd siom yn yr astudiaeth gan mai cyfiawnhad ydoedd o'r sefyllfa fel y mae a bod cyfle wedi ei golli gan ei fod yn ymateb i'r demograffi yn hytrach na manteisio ar y cyfle i fynd i'r afael â'r broblem. Bwriad yr Ymchwiliad Craffu ydoedd clirio'r amwysedd o ddiffinio ysgolion yn ieithyddol. Nodwyd pwysigrwydd dysgu cyfrwng Cymraeg os am weld yr iaith yn parhau. Cyfeiriwyd at y canran o 69% o blant yn astudio 5 pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn 16 oed ac oni ddylai pob plentyn fod yn gwneud pynciau drwy'r Gymraeg. O ran y profiad cyfrwng dysgu, teimlwyd na fydd Saesneg plant yn well pe baent yn dilyn pwnc Hanes drwy gyfrwng y Saesneg - yr hyn fyddai yn cynnal safon Saesneg ydoedd Adran Saesneg da mewn ysgol. Roedd peidio dysgu pwnc hanes drwy gyfrwng y Gymraeg yn farwol i'r iaith Gymraeg ac yn amddifadu plant o brofiad. Rhaid bod yn atebol i Gyfrifiad 2021 a phryderwyd oni wneir camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa ac i gadw'r iaith, fe welir gostyngiad yn y canrannau eto yn bendant ac y byddai hyn yn ganlyniad trychinebus.
(g) Gofynnodd yr Ymchwiliad Craffu am ddiffiniad o bob un ysgol uwchradd yn y gobaith bod rhai yn medru cael eu dynodi yn ysgolion penodedig Cymraeg. Wrth gwrs, derbynnir na fyddai hyn yn golygu na fyddai plant yn dysgu Saesneg ond eu bod yn cael statws dynodedig er mwyn profiad ag ethos yr ysgol.
(h) Ei bod yn bwysig i roi pwysau ar ddysgu pynciau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod tueddiad i blant beidio astudio drwy'r Gymraeg yn yr ysgol oherwydd eu bod yn ymwybodol y gallent ddilyn cyrsiau NVQ, BTEC, a.y.b. drwy gyfrwng y Saesneg.
(i) Bod yr astudiaeth yn cadarnhau'r amheuon ynglyn â sefyllfa dinas Bangor.
Teimlwyd nad oedd Popdy - Canolfan Iaith Bangor ynddo'i hun yn mynd i ymateb i broblemau iaith Bangor a rhaid ydoedd rhoi ystyriaeth i ganolfan drochi ac edrych yn fanwl ar sut i gefnogi'r plant i gyrraedd y safon.
(j) Y dylid sicrhau bod y targed ieithyddol yn berthnasol i ysgolion arbennig hefyd

Yn deillio o'r uchod, yn gyffredinol roedd y Pwyllgor Craffu yn cefnogi symud ymlaen gyda'r argymhellion amlinellir yn yr astudiaeth allanol ond yn pryderu:

- Ynglyn ag arafwch gweithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg
- bod yr amserlen yn allweddol a bod angen trafodaethau pellach buan ynglyn â goblygiadau argymhelliad 9.1 ynglyn â chategoreiddio ysgolion

**(iii) Ymatebodd y Pennaeth Addysg i rai o'r sylwadau uchod fel a ganlyn:**

Pwysleisiwyd pa mor bwysig ydoedd y gwaith wnaed gan yr Ymchwiliad Craffu ynghyd a'r astudiaeth gan yr Ymgynghorydd Allanol a oedd, yn ei farn, yn garreg filltir dda iawn i fynd a'r maen i'r wal. Nodwyd bod y polisi'n ddigon clir ond bod rhai ysgolion yn diffinio'r polisi yn wahanol a'r categoreiddio cenedlaethol wedi bod yn anghyson a Gwynedd heb fabwysiadau'r drefn yma. Roedd y prif gamau i'w gweithredu yn hollol glir a'r angen i ymgymryd â thrafodaeth agored mewn perthynas ag argymhelliad 9.1 yn yr astudiaeth. Croesawyd yr astudiaeth allanol gan Benaethiaid oherwydd fe gafwyd trafodaeth agored o'r gwir sefyllfa yn yr ysgolion. Nodwyd ymhellach bod llawer o arfer dda yn y Sir gyda mwyafrif o Siroedd eraill yn eiddigeddus o sefyllfa'r awdurdod hwn. O

ran symud ymlaen ac ymateb, roedd yn bwysig i gynnig arweiniad yn genedlaethol o'r hyn a olygir gyda "dwyieithrwydd". Cydnabuwyd bod heriau o ran staffio mewn ambell ysgol uwchradd unigol ac amserlen i weithredu ac roedd trafodaethau wedi cychwyn gyda Phrifysgol Bangor i adnabod athrawon ar gyfer y dyfodol. Rhaid sylweddoli bod prinder athrawon cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd.

Croesawyd yr argymhelliad ynglyn â sefyllfa Bangor a rhaid gweld beth yw goblygiadau yn enwedig yn sgil effaith y diwydiant a ddaw i Ynys Môn. Roedd y Pennaeth Addysg o'r farn bod yr her o'r Ymchwiliad Craffu wedi ei blethu yn yr astudiaeth allanol ac y byddir yn cynnal trafodaeth ar gysondeb lleol drwy gyswllt hefo'r sector preifat, coleg addysg bellach, a chynllunio cwricwlwm dwyieithog ond rhaid dewis y partneriaid yn ofalus iawn. Y nod ydoedd codi a chynyddu canrannau yn CA3 sydd yn golygu buddsoddi mewn pobl, arlwy gwricwlwm, a bod yn hollol glir beth yw dwyieithrwydd, a bod y profiad o fynychu ysgolion yn brofiad Cymreig sydd yn mynd i gyfrannu tuag at bobl ifanc i fyw yn lleol yn naturiol a meithrin mynediad i'r Gymraeg a'u galluogi i gyfrannu'n llawn i'r gymdeithas.

O safbwynt darpariaeth dinas Bangor, cydnabuwyd bod ystyriaeth i'r ddarpariaeth a'r ffactor ieithyddol yn rhan allweddol i ddod a datrysiad tymor hir i'r ddinas. Nodwyd pwysigrwydd i agor trafodaethau ehangach ar ba fath o ddarpariaeth sydd angen i'w gynllunio i warantu parhad o'r iaith.

Parthed y Siarter Iaith, y nod ydoedd y byddai pob ysgol yn cyrraedd y Wobr Aur erbyn blwyddyn nesaf a'r her fyddai cadw'r wobr a phrofi eu bod yn adeiladu ar eu llwyddiannau. Ychwanegwyd bod GwE yn gefnogol i'r Siarter Iaith gyda Gwynedd yn arwain ar draws y Gogledd ac wedi ymestyn i ranbarthau eraill gyda'r bwriad o'i ddatblygu ar draws Cymru.

Nodwyd ymhellach bod yr adroddiad yn nodi bod anghysondeb a chyfeiriwyd yn benodol at argymhelliad 9.1 sy'n nodi bod yn rhaid "ystyried 70% fel isafswm yr amser cyswllt â'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer disgyblion carfannau A a B". Roedd y Pennaeth Addysg o'r farn bod rhaid i ysgolion wthio'r trothwy ac os gellir cyrraedd hwn fe fyddai'r data yn cynyddu. Ond bod angen cydweithrediad yr aelodau lleol ar y cyrff llywodraethol i fod yn atebol ar lefel lleol i sicrhau cyrhaeddiad o 70%. Nodwyd bod y Gymraeg yn rhan greiddiol ganolog bwysig gyda llawer o linynnau angen eu plethu fewn. Roedd Gwynedd mewn lle cymharol dda ac yn lwcus o'r demograffi ond rhaid herio'r cynlluniau ar gyfer gwella deilliannau a datblygu ar gyfer y dyfodol i sicrhau gwelliant yn y Cyfrifiad. I'r perwyl hwn, 'roedd yr argymhellion gerbron yn golygu llawer o drafodaethau anodd gyda rhieni, penaethiaid, athrawon, a llywodraethwyr ar draws y sir.

Tra'n deall barn y Pwyllgor ynglyn â chysondeb a dim opsiwn ieithyddol i rieni o'r arlwy, peryg ydoedd i ysgolion lithro gyda charfan o rieni yn mynd am opsiwn gwahanol ac efallai yn arwain at blant yn gadael y Sir am addysg.

Awgrymodd y Pennaeth Addysg y byddai'n croesawu cynnal sesiwn ar ffurf gweithdy gyda'r Pwyllgor Craffu gyda gwahoddiad i 2 neu 3 o athrawon uwchradd, a phartneriaid addysg bellach i drafod sut i gryfhau a gwarchod y Gymraeg yn ogystal â bod yn llwyr ymwybodol o'r goblygiadau.

**Penderfynwyd: (a) Diolch am yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion i gyd ond mynegi pryder am oblygiadau gweithredu argymhelliad 9.1 ar gategoreiddio ysgolion, sef**
**"9.1 Diffinio ysgolion uwchradd Gwynedd yn ôl iaith y cyfrwng addysgu a dysgu dan un categori, sef ysgolion dwyieithog. Meddwl yn nhermau profiadau yn**

**hytrach na phynciau wrth bennu cydbwysedd rhwng y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau addysgu a dysgu yn CA3 a 4. Ystyried 70% fel isafswm yr amser cyswllt â'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer disgyblion carfannau A a B."**

**(b) gofyn felly am drafodaeth fuan ac agored ar argymhelliad 9.1**

**(c) bod yn rhaid gweithredu'n fuan er mwyn mynd i'r afael â'r heriau yn y maes a gofyn felly i'r Gwasanaeth Addysg weithredu yn fuan ar holl argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg ac adrodd yn ôl ar y cynnydd i'r Pwyllgor Craffu.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 1.50 p.m.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 Mawrth 2017 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg |
| **PENNAETH GWASANAETH** | Arwyn Thomas |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**CODI SAFONAU**

**Cryfderau mewn perfformiad:**

- Cynnydd 2015>2016 ym mherfformiad y prif ddangosydd ym mhob un cyfnod allweddol [CS DCS +0.1%; CA2 DPC +0.3%; CA3 DPC +0.7%; CA4 TL2+ +2.6%].
- Ym mhrif ddangosydd CA4 [TL2+] 11 ysgol wedi gwella ar ffigwr cyfatebol 2015, perfformiad 8 ysgol yn torri 70%+ a 7 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- Safle Gwynedd yn erbyn pob awdurdod arall yng Nghymru yn gadarnhaol yn CA3 a CA4 ac yn gyffredinol agos at y safle disgwyliedidg yn CA2.
- Dosraniad ysgolion rhwng chwarteli PYD yn amlygu gwelliannau ar draws nifer o ddangosyddion yn CA4.
- Perfformiad dysgwyr PYD CA4 yn amlygu gwelliannau canrannol ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Fel canlyniad, mae'r bwlch wedi lleihau rhwng dysgwyr PYD/Dim PYD ymhob achos ac yn is na'r ffigwr cenedlaethol cyfatebol ymhob achos. Yn achos y Gymraeg, mae perfformiad 2016 yn amlygu gwelliant o bron i 7.0% ar ffigwr llynedd. Gwelir sefyllfa gadarnhaol ar draws y pynciau craidd eraill hefyd.
- Mae perfformiad dysgwyr PYD yn y prif ddangosydd [TL2+] wedi gwella ers 2015 mewn 11 ysgol ac mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD a dysgwyr Dim PYD wedi lleihau ers 2015 mewn 10 ysgol.
- Perfformiad disgyblion ac ysgolion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn enwedig yn y dangosydd pwnc craidd.
- Presenoldeb uwchradd a cynradd.
- Y cyfraddau gwaharddiadau parhaol neu waharddiadau cyfnod penodol o 6 diwrnod neu fwy yn yr ysgolion uwchradd.

**Mae meysydd lle mae angen i berfformiad ddatblygu yn cynnwys:**

- Gwella deilliannau ar draws dangosyddion yn y Cyfnod Sylfaen trwy gyfoethgoi y ddarpariaeth a'r profiadau i ddysgwyr a thrwy feithrin gwell hyder mewn arweinwyr i herio disgwyliadau ac asesiadau.

- Gwella perfformiad yn y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol trwy herio asesiadau a thrwy sicrhau trefn gymedroli rymusach.

- Gwella perfformiad dysgwyr PYD yn CS a CA2 trwy rymuso'r ddarpariaeth, y tracio a'r ymyrraeth ar eu cyfer.

- Parhau i weithio hefo ysgolion uwchradd i sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth yn caniatau perfformiad cadarn yn erbyn y dangosyddion diwygiedig a'r manylebau newydd.

- Gwella perfformiad dysgwyr ôl-16 mewn cyrsiau penodol trwy sicrhau mynediad i'r ddarpariaeth orau.

- Perfformiad ysgolion ar draws y cyfnodau allweddol er mwyn cymharu'n fwy ffafriol ag ysgolion tebyg.

- Gwella lefel 2 cynwysedig trwy wella deilliannau mathemateg a/ neu Saesneg yng nghyfnod allweddol 4.

- Gwella canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau uwch mewn pynciau a'r dangosydd pwnc craidd (DPC) ar ddiwedd pob cyfnod allweddol.

**Y DDARPARIAETH ADDYSG**

**Cryfderau**

- Mae lles a diogelwch disgyblion yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi trwy ddarparu ystod o wasanaethau ategol.

- Mae cefnogaeth a hyfforddiant i Arweinwyr a Rheolwyr yn datblygu'n dda.

- Mae'r modelau arweinyddiaeth gwahanol mewn ysgolion a ffederasiynau o ysgolion a grëwyd gan yr awdurdod yn cynnig amodau sy'n gwella ar gyfer athrawon i wella safonau a chyflawni gwerth gwell am arian.

- Mae gweithio mewn partneriaeth gyda GwE ac ysgolion yn helpu gwella amryw o ganlyniadau.

- Mae'r proffil categoreiddio ar gyfer ysgolion y 2 sector yn amlygu gwelliannau cadarn iawn.

- Mae proffil arolygiadau 2015-16 a 2016-17 yn gadarnhaol iawn. Bellach, nid oes yr un ysgol mewn categori statudol.

- Mae'r awdurdod yn cyflwyno ei raglen Moderneiddio Addysg ar gyflymder da.

- Mae diwylliant o atebolrwydd ac adolygu parhaus, gyda ffocws cyson ar gyflawni cynnydd yn erbyn blaenoriaethau, yn ymwreiddio ar draws gwasanaethau'r awdurdod.

- Mae blaenoriaethau ar gyfer addysg a thargedau i ymgyrraedd atynt yn cael eu cysylltu'n glir trwy gynlluniau strategol a gweithredol.

- Mae cynnydd da yn unol â'r argymhellion o arolygiadau blaenorol.

- Parhau i gynnal gwasanaethau cefnogol ac adnoddau i ysgolion.

- Polisi Iaith y Sir yn gryfder gyda Gwynedd yn arwain ar waith arloesol ar draws y Gogledd ac yn genedlaethol.

**Mae meysydd lle mae angen datblygu yn cynnwys:**

- Gwella ansawdd uwch arweinyddiaeth mewn lleiafrif o ysgolion [cynradd ac uwchradd].

- Gwella ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws mwyafrif helaeth ysgolion uwchradd.

- Parhau i ailstrwythuro'r ddarpariaeth addysg er mwyn adlewyrchu'r newid mewn demograffeg, trwy leihau lleoedd dros ben ac ad-drefnu.

- Gwella'r seilwaith a rhwydweithiau TGCh ymhellach a defnyddio TGCh i gefnogi gweinyddu a datblygiadau yn y cwricwlwm.

- Cynyddu cyfleoedd i gael achrediad drwy'r cwricwlwm amgen er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn datblygu medrau perthnasol ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu.

- Defnyddio data perfformiad manwl a chynhwysfawr yn drwyadl ar lefel disgybl i arfarnu ansawdd ac effaith gwasanaethau, i nodi tanberfformio a chynllunio ar gyfer datblygu.

- Sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd priodol yn galluogi gwaith integredig rhwng swyddogion gwella ysgolion, ADY, cynhwysiant, adnoddau dynol a chyllid er mwyn darparu cymorth rhagorol i arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion i wneud penderfyniadau o ansawdd da er mwyn gwella deilliannau.

- Datblygu Rôl Cyrff Llywodraethol i ddal ysgolion i gyfrif.

**<u>ARGYMHELLION</u>**

**CYFFREDINOL:**
Dim un ysgol yn cael ei rhoi mewn categori statudol Estyn.

**SAFONAU:**

1. Sicrhau y safonau uchaf posibl ym mhob cyfnod allweddol gan gynyddu:

- Canran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg
- Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a gwyddoniaeth
- Sgôr pwyntiau wedi capio
- Perfformiad meincnodol ysgolion trwy sicrhau nad oes un ysgol yn perfformio o dan y canolrif meincnodau PYD dros gyfnod treigl tair blynedd.
- Perfformiad ar y lefelau uwch ym mhob cyfnod allweddol gan gynnwys cynyddu canran A*-A ar gyfer disgyblion TGAU, gan gynnwys perfformiad dysgwyr PYD.
- Safonau Saesneg a Mathemateg yn CA4.
- Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 (7-11oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14oed).

**DARPARIAETH:**
Yr hyn rydyn am i GwE ei wneud ar ein rhan:

1. Cefnogi ysgolion er mwyn:
    a. Bod ysgolion sydd mewn peryg o lithro yn cael eu hadnabod yn gynnar fel y gellir rhoi ymyriad priodol ar waith.
    b. Cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol a datblygu partneriaethau newydd.
    c. Adnabod rhagoriaeth ac arfer effeithiol ym meysydd arweinyddiaeth a phedagogiaeth a'u rhannu;
    d. Gwella deilliannau diwedd cyfnod allweddol;
    e. Cefnogi ysgolion i berfformio yn y chwarteli uchaf
    f. Sicrhau nad oes ysgol yn mynd i gategorïau statudol Estyn

2. Sicrhau bod cynlluniau datblygu, prosesau hunan arfarnu a systemau tracio o leiaf yn dda yn ein hysgolion.

3. Darparu arweiniad er mwyn codi safonau Saesneg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion uwchradd.

4. Darparu arweiniad er mwyn codi safonau mathemateg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion uwchradd.

5. Cwricwlwm ac Asesu: sicrhau bod pob ysgol yn darparu cwricwlwm addas a phriodol, bod gweithdrefnau asesu a thracio grymus ar waith ym mhob ysgol a bod cynhaliaeth gadarn ar gael i ddysgwyr i gyflawni potensial.

6. Dysgu: sicrhau bod pob athro â dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n cyfrannu tuag at ddysgu effeithiol a'u bod wedi'u harfogi i ddefnyddio ystod o strategaethau er mwyn ymateb i anghenion a chyd-destun dysgu.

7. Sicrhau bod ein hysgolion uwchradd yn deall ac yn barod i weithredu manylebau newydd.

8. Adnabod a thargedu adrannau sydd yn tan berfformio yn gyffredinol neu yn perfformio yn gyfforddus.

9. Targedu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer Arweinwyr Canol er mwyn datblygu eu gallu i arwain ar addysgu a dysgu da o fewn eu hadrannau.

10. Adnabod darpar brifathrawon a'u paratoi ar gyfer ennill y cymhwyster CPCP.

11. Sicrhau rhaglen ar gyfer datblygu penaethiaid presennol ymhellach.

12. Parhau i gryfhau system asesu athrawon trwy gymedroli asesiadau fel eu bod yn gyson ar draws y Rhanbarth a Chymru.

**GWEITHREDU'R STRATEGAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD TRWY:**

13. Gyd weithio gydag Ynys Môn i greu un tîm ADY a Chynhwysiant;
14. greu darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
15. cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
16. trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
17. cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
18. plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
19. amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
20. sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

21. Cynyddu arbenigedd yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;

22. Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer y Ddarpariaeth Cynhwysiad/ Cynnal Ymddygiad.

**ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH:**

23. Gweithio ar wella amodau arwain a rheoli ysgolion y sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig.

24. Monitro a herio pob ysgol er mwyn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio.

25. Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol.

26. Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn rhannu arfer gorau i osgoi dyblygu.

27. Sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn arwain at wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth.

28. Datblygu rôl y Swyddfeydd Addysg Ardal er mwyn cydlynu gwaith ysgolion a'r holl wasanaethau cefnogol, gan gynnwys GWE, er mwyn sicrhau cydweithrediad partneriaethol, atebolrwydd a chyflymder newid priodol.

29. Datblygu rheolaeth a gweinyddiaeth gydweithredol ym mhob dalgylch ac ar lefel sirol gan yr Uned Gefnogi Addysg drwy'r Swyddfa Ardal.

30. Cyflwyno a gweithredu cynllun pellach o dan gyllid Ysgolion G21ain.

**CYNNWYS**


1. **CYD-DESTUN**

2. **CODI SAFONAU / ANSAWDD ADDYSG**
    - DEILLIANNAU DIWEDD CYFNODAU ALLWEDDOL
    - DEILLIANNAU AROLYGIADAU YSGOLION
    - SEFYLLFA CATEGOREIDDIO YSGOLION GWYNEDD
    - RHAGLENNI GWELLA ANSAWDD ARWEINYDDIAETH

3. **Y GYMRAEG**
    - RHWYDWAITH CYFRWNG CYMRAEG AC ADEILADU CYNHWYSEDD
    - Y SIARTER IAITH
    - YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG
    - CYNLLUN STRATEGOL Y GYMAEG MEWN ADDYSG
    - CANOLFANNAU IAITH GWYNEDD

4. **CYNHWYSIAD A LLES**
    - PRESENOLDEB
    - GWASANAETH LLES
    - GWAHARDDIADAU
    - CYNNAL YMDDYGIAD
    - PECYN 25
    - TRAC
    - ADDYSG GARTREF
    - EMAS
    - DIOGELU

5. **ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**
    - GWASANAETH SEICOLEG ADDYSGOL
    - GWASANAETH ATHRAWON ARBENIGOL
    - NAM CLYW
    - NAM GOLWG
    - TÎM CYFATHREBU A RHYNGWEITHIO
    - ANGHENION MEDDYGOL A CHORFFOROL
    - GWYBYDDIAETH A DYSGU

6. **Y STRATEGAETH AR GYFER TRAWSNEWID Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CYNHWYSIAD**

7. **Y BLYNYDDOEDD CYNNAR**

**8. TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**

**9. ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**

**10. CEFNOGI LLYWODRAETHWYR**

**11. IS-ADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL**

**12. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH - PARTNERIAETHAU STRATEGOL**

**13. CYNLLUNIO, DARPARU ADNODDAU A SICRHAU ANSAWDD AR Y CYD**

**14. RHEOLI ADNODDAU**

## 1. CYD-DESTUN

**GWELEDIGAETH YR ADRAN ADDYSG**: Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

**PWRPAS**: Sicrhau bod yr ysgolion a'r ddarpariaeth yn arfogi'r plant a'r bobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.

**GWASANAETHAU RYDYM YN EI DDARPARU:** Codi safonau, Gwasanaethau Cefnogol, Cyflogau a Chontractau Staff Ysgol, Pensiynau Athrawon, Arlwyo Ysgolion, Glanhau Ysgolion, Cludiant Ysgolion, Iechyd a Diogelwch, Mynediad Ysgolion, Cefnogaeth i Lywodraethwyr, Cefnogaeth Gyllidol i Ysgolion, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Uned Ddata, Cefnogaeth Adnoddau Dynol i Ysgolion a'r Adran Addysg, Presenoldeb ac Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Amddiffyn Plant, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Hyfforddiant.

**BETH MAE'R ADRAN YN EI WNEUD?**

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau bod disgyblion o fewn ysgolion Gwynedd yn saff .
- Darparu gwasanaethau cefnogol pwrpasol ar gyfer Gwasanaeth Addysg Gwynedd .
- Datblygu arweinwyr a chefnogi'r gweithlu yn yr ysgolion.
- Cefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion er mwyn iddynt weithredu fel llywodraethwyr effeithiol.

Mae 93 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

| Ysgolion | Cynradd | Uwchradd | Arbennig |
|---|---|---|---|
| Nifer o Ysgolion | 93 | 14 | 2 |
| Nifer y Disgyblion | 10,159 | 6,776 | 190 |
| Nifer yr Athrawon | 579 | 487 | 25 |
| Nifer Staff Cefnogol | 987 | 342 | 64 |

**Ein prif mesuriadau perfformiad**

| Mesur - diffiniad | Perfformiad Haf 2014 | Perfformiad Haf 2015 | Perfformiad Haf 2016 |
|---|---|---|---|
| Canran y disgyblion 15 oed (ar y 31ain Awst blaenorol) sydd yn ennill pump gradd TGAU A* i C, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg (TL2+) | 61.10% | 63.3% | 65.9% |
| Canran y disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU graddau A*i C (TL2) | 87.7% | 88.9% | 85.9% |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU D i G (TL1) | 97.2% | 97.9% | 97.3% |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Gradd C neu uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) | 60.5% | 62.4% | 64.4% |
| Cyfartaledd y sgôr bwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 615.8 | 617.2 | 591.0 |
| Cyfartaledd y sgôr bwyntiau wedi gapio ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 362.2 | 362.0 | 355.7 |
| Canran y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | 1.7% | 1.8% | 1% |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 9 (CA3), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) | 89.11% | 91.3% | 92.0% |
| Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd CA3 | 81.20% | 83.2% | 83.7% |
| Canran disgyblion enilloedd lefel 3, da neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athron yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3 | 87.4% | 89.5% | 88.7% |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 6 (CA2), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) | 86.0% | 89.5% | 89.8% |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (CS), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (DCS) | 85.2% | 86.8% | 86.8% |
| Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y | 0 | 3 | 0 |

| Mesur - diffiniad | Perfformiad Haf 2014 | Perfformiad Haf 2015 | Perfformiad Haf 2016 |
|---|---|---|---|
| flwyddyn academaidd | | | |
| Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 4 | 3 | 2 |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 95.10% | 95.0% | 95.45% |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 94.20% | 94.6% | 95.16% |

## 2. CODI SAFONAU / ANSAWDD ADDYSG

### DEILLIANNAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL [CYFNOD SYLAEN I CYFNOD ALLWEDDOL 4]

Nodir isod y prif benawdau o ran perfformiad diwedd cyfnodau allweddol y flwyddyn addysgol 2015/2016 gan amlygu sefyllfa Gwynedd mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yng Ngwynedd dros y pum mlynedd diwethaf mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau unigol.

**% disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim [PYD]**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 12.6% | 13.2% | 14.2% | 13.7% | 13.7% | 12.9% | 13.3% | 13.0% |
| **Cymru** | 17.8% | 18.9% | 19.7% | 19.3% | 19.5% | 19.1% | 18.8% | 18.8% |
| **Safle *(1=isaf)****** | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 4 | 4 | 4 |

Yn unol â safle cinio am ddim Gwynedd, fe ddylem fod yn gweithio tuag at y pedwerydd safle ar draws ein hystod o ddangosyddion.

Mae perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y Cyfnodau Allweddol. Mae perfformiad yn dda iawn yn CA3 ac yn dda erbyn diwedd CA4. Yn y sector cynradd, mae lle i wella perfformiad y ddau gyfnod allweddol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Ar wahân i Gyfnod Allweddol 3, mae lle i gryfhau perfformiad ar draws yr ystod dangosyddion yn enwedig er mwyn sicrhau bod disgyblion uwch eu gallu yn perfformio yn well.

### Y CYFNOD SYLFAEN:

Dengys y tabl isod y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS] rhwng 2012 a 2016. Amlygir hefyd safle perfformiad Gwynedd mewn cymhariaeth â gweddill awdurdodau Cymru.

| | DCS : Cyfnod Sylfaen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
| **Gwynedd** | 83.0% | 82.8% | 85.2% | 86.7% | 86.8% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 80.5% | 83.0% | 85.2% | 86.8% | 87.0% |
| **Safle (1=gorau)** | 8 (-3) | 13 (-8) | 10 [-6] | 10 [-6] | 14 [-10] |

**Cyfnod Sylfaen**

- Yn y DCS, cynnydd bychan [+0.1%] ers 2015 ac yn gosod Gwynedd yn safle 14 o'r 22 Awdurdod. Mae hyn yn sylweddol is na'r safle PYD disgwyliedig. Perfformiad ychydig [-0.6%] yn is na tharged. Gwelwyd cynnydd +0.3% yn y dangosydd ar lefel ranbarthol [86.2%] a +0.2% yn genedlaethol.
- Ar y lefel disgwyliedig, cynnydd 2015>2016 yn y dangosydd Iaith-Cymraeg [+0.3%], Datblygiad Mathemategol ychydig yn is na llynedd [-0.1%] a Datblygiad Personol wedi aros yn ei unfan. Perfformiad yn y tri dangosydd uwchben targed. Safle Gwynedd o blith holl awdurdodau Cymru eto yn is na'r disgwyl mewn dau o'r dangosyddion [Iaith-Cymraeg = 17; Datblygiad Mathemategol = 11; Datblygiad Personol = 5]
- Ar y lefel uwch, cynnydd +4.1% mewn Datblygiad Personol a +4.5% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +2.9%], cynnydd +0.5% mewn Datblygiad Mathemategol ond serch hynny -4.8% yn is na tharged [cynnydd cenedlaethol +2.1%]. Perfformiad mwyaf siomedig mewn Iaith-Cymraeg oedd -3.4% yn is na 2015 a -2.8% yn is na tharged [llithriad cenedlaethol -0.7%]. Perfformiad yn gosod Gwynedd yn safle 14 ar gyfer Iaith-Cymraeg; safle 11 ar gyfer Datblygiad Mathemategol a safle 4 ar gyfer Datblygiad Personol. Mae hyn yn siomedig.
- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd roedd safle Gwynedd fel â ganlyn : DCS = 3ydd; Iaith-Cymraeg D5+ = 2il, Iaith-Cymraeg D6+ = 3ydd, Datblygiad Mathemategol D5+ = 1af, Datblygiad Mathemategol D6+ = 3ydd, Datblygiad Personol D5+ = 1af, Datblygiad Personol D6+ = 1af.
- Perfformiad dysgwyr PYD yn amrywiol. Mewn cymhariaeth gyda 2015, cynnydd yn y DCS i 76.5% a ffigwr oedd yn agos at y darged o 77.0% bennwyd [+1.1% mewn cymhariaeth â chynnydd +1.3% rhanbarthol]; Iaith-Cymraeg +0.6% a +1.6% [lefel disgwylieidg a lefel uwch]; Datblygiad Mathemategol wedi aros yn ei unfan ar y lefel disgwyliedig ond -1.6% yn is ar y lefel uwch; Datblygiad Personol -1.1% lefel disgwylieidg a +11.5% lefel uwch.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2 (CA2):**

Dengys y tabl isod y ganran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 [CA2]. Amlygir hefyd safle perfformiad Gwynedd mewn cymhariaeth â gweddill awdurdodau Cymru.

| | **DPC : CA2** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
| **Gwynedd** | 86.2% | 86.6% | 86.0% | 89.5% | 89.8% |
| **Cymru** | 82.6% | 84.3% | 86.1% | 87.7% | 88.6% |
| **Safle (1=gorau)** | 3 (+2) | 6 (-1) | 14 [-10] | 6 [-2] | 7 [-3] |

**Cyfnod Allweddol 2**

- Yn y DPC cynnydd +0.3% ar ffigwr 2015 a +1.1% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +0.9%]. Perfformiad 2016 yn gosod yr ALl yn safle 7 sydd yn is na'r safle PYD disgwyliedig. Gwelwyd cynnydd 0.6% yn y dangosydd ar lefel ranbarthol [88.8%].
- Ar y lefel disgwyliedig, Cymraeg -1.2% yn is na ffigwr 2015 ond +0.2% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +0.3%]. Fodd bynnag, perfformiad yn y Gymraeg islaw ffigwr cyfatebol ar gyfer

Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae gwahaniaeth rhwng asesiadau athrawon ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, roedd perfformiad ychydig yn uwch na 2015 [Saesneg +0.9%/Mathemateg +0.2%/Gwyddoniaeth +0.1%] ac yn uwch na thargedau ymhob achos [+3.5%/+2.7%/+3.1%]. Cynnydd yn y Saesneg yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol cyfatebol o +0.7%. Mathemateg a Gwyddoniaeth ychydig yn is. Perfformiad yn gosod Gwynedd yn safle 16 ar gyfer Cymraeg; safle 11 ar gyfer Saesneg; safle 8 ar gyfer Mathemateg a safle 3 ar gyfer Gwyddoniaeth. Mae hyn hefyd yn siomedig.

- Ar y lefelau uwch, Cymraeg -1.4% yn is na 2015 ond +1.8% yn uwch na tharged [lleihad cenedlaethol -0.2%] . Y ganran eto yn is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Perfformiad Saesneg -1.5% yn is na 2015 ond +3.4% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +1.2%]; Mathemateg yn uwch na 2015 ac yn uwch na'r targed [+3.2% a + 3.7%] a'r cynnydd cenedlaethol cyfatebol; Gwyddoniaeth -1.0% yn is na llynedd ond +1.9% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +1.4%]. Perfformiad yn gosod Gwynedd yn safle 6 ar gyfer Cymraeg [gan gofio maint y cohort gaiff ei asesu]; safle 7 ar gyfer Saesneg; safle 5 ar gyfer Mathemateg a safle 5 ar gyfer Gwyddoniaeth.
- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd roedd safle Gwynedd fel â ganlyn : DPC = 2il; Cymraeg L4+ = 3ydd; Cymraeg L5+ = 1af; Saesneg L4+ = 2il; Saesneg L5+ = 1af; Mathemateg L4+ = 2il; Mathemateg L5+ = 1af; Gwyddoniaeth L4+ 1af; Gwyddoniaeth L5+ = 1af.
- Perfformiad dysgwyr PYD yn gyffredinol gadarn ar y lefel disgwyliedig ond yn siomedig ar y lefel uwch. Mewn cymhariaeth â pherfformiad 2015, gwelir cynnydd o +6.4% i 82.1% yn y DPC - ac eto ffigwr sydd yn agos iawn at y darged o 80.7% bennwyd [cynnydd +1.4% rhanbarthol]. Ar y lefel disgwyliedig a'r lefel uwch, perfformiad yn y dangosyddion unigol fel â ganlyn : Cymraeg +2.5% a +5.6%; Saesneg +6.4% a -2.0%; Mathemateg +5.7% a -5.3%; Gwyddoniaeth +3.0% a -4.0%.

**CYFNOD ALLWEDDOL 3 (CA3):**

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn CA3:

| | **Cyfnod Allweddol 3** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
| **Gwynedd** | 83.0% | 85.4% | 89.1% | 91.3% | 92.0% |
| **Cymru** | 72.5% | 77.0% | 81.0% | 83.9% | 85.9% |
| **Safle *(1=gorau)*** | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 |

**Cyfnod Allweddol 3**

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae perfformiad yn y DPC wedi bod yn uwch na meincnod disgwyliedig Cymru ers 2012 ac yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf. Mae Gwynedd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru am bedair blynedd o'r bron a gwelir cynnydd eto ar ffigwr 2015 [+0.7%] Mae'r perfformiad yn parhau i osod Gwynedd ymhlith awdurdodau gorau Cymru – safle 2 yn 2016.

- Yn y DPC cynnydd +0.7% ar ffigwr 2015 a -0.1% yn is na tharged. Perfformiad 2016 yn gosod yr ALl yn uwch na'r safle PYD disgwyliedig ac yn ail o blith holl awdurdodau Cymru. Gwelwyd cynnydd +1.7% yn y dangosydd ar lefel ranbarthol [87.8%] a chynnydd o +2.0% yn genedlaethol.
- Ar y lefel disgwyliedig, ac eithrio yn achos y Gymraeg, mae'r perfformiad yn uwch na ffigyrau

cyfatebol 2015 ac yn uwch na’r targedau bennwyd. Saesneg +1.2% a +1.4%; Mathemateg +0.6% a +1.3%; Gwyddoniaeth +0.1% a +1.6%. Yn y Gymraeg roedd perfformiad -0.7% yn is na llynedd a -0.3% yn is an tharged. Fodd bynnag, mae’r cynnydd cenedlaethol yn fwy ar gyfer pob dangosydd. Perfformiad yn gosod Gwynedd yn safle 10 ar gyfer Cymraeg [gan gofio maint y cohort gaiff ei asesu]; safle 5 ar gyfer Saesneg; safle 2 ar gyfer Mathemateg a safle 1 ar gyfer Gwyddoniaeth. Mae hyn yn dda.

- Ar y lefelau uwch hefyd mae Cymraeg yn is na ffigwr 2015 a tharged [-1.9% a -0.6%]. Mae’r ffigyrau cyfatebol ar gyfer y pynciau craidd eraill fel â ganlyn : Saesneg [+3.4% a -2.3%]; Mathemateg [+3.3% a +0.8%]; Gwyddoniaeth [+1.9% a +1.0%]. Ac eithrio yn achos y Gymraeg, mae’r cynnydd yng Ngwynedd yn uwch na’r cynnydd welir yn genedlaethol. Mae’r safle o blith holl awdurdodau yn cyfateb i safle PYD yn y mwyafrif helaeth : Cymraeg = 8 [gan gofio maint y cohort gaiff ei asesu]; Saesneg = 4; Mathemateg = 4; Gwyddoniaeth = 4.
- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd, Gwynedd sydd wedi perfformio orau mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar y lefel disgwyliedig a’r lefelau uwch. Yn y Gymraeg, mae Gwynedd yn safle 4 a 5 [lefel disgwyliedig a lefelau uwch] ond dylid cofio maint y garfan gaiff ei hasesu mewn cymhariaeth â rhai o’r awdurdodau hyn.
- Perfformiad dysgwyr PYD yn gyffredinol gadarn ar y lefel disgwyliedig ond yn fwy amrywiol ar y lefelau uwch gyda sefyllfa’r ieithoedd yn rhagori yn sylweddol ar Mathemateg/Gwyddoniaeth. Mewn cymhariaeth gyda pherfformiad 2015, gwelir cynnydd o +3.8% i 82.1% yn y DPC - ffigwr sydd hefyd yn uwch na’r targed o 80.7% bennwyd [cynnydd +5.6% rhanbarthol i 73.3%]. Ar y lefel disgwyliedig a’r lefel uwch, perfformiad yn y dangosyddion unigol fel â ganlyn : Cymraeg +2.5% a +7.8%; Saesneg +1.6% a +7.5%; Mathemateg +3.8% a -2.5%; Gwyddoniaeth -0.3% a +2.0%.

**CYFNOD ALLWEDDOL 4:**

Perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill:

| | |
|---|---|
| TL1 | Trothwy Lefel 1 : dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| TL2 | Trothwy Lefel 2 : dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| TL2+ | Trothwy Lefel 2+ : dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd : % dysgwyr sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda’i gilydd |
| SPC | Sgôr Pwyntiau Wedi’i Gapio : cyfartaledd pwyntia'r wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio |

| CA4 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 2013 | | 2014 | | 2015 | | 2016 | |
| | % | Safle | % | Safle | % | Safle | % Gwynedd [Cymru] | Safle |
| TL1 | 97.1% | 2 | 97.2% | 1 | 97.9% | 1 | 97.3% [95.3%] | 1 |
| TL2 | 81.5% | 8 | 87.7% | 4 | 88.8% | 5 | 85.9% [84.0%] | 10 |
| TL2+ | 58.0% | 4 | 61.1% | 5 | 63.1% | 5 | 65.9% [60.3%] | 4 |
| DPC | 57.3% | 3 | 60.5% | 2 | 62.0% | 3 | 64.4% [57.6%] | 4 |
| SPC | 353.4 | 2 | 362.2 | 1 | 361.5 | 1 | 355.7 [344.6] | 4 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5A*-A | | | | | 20.0% | | 18.1% [15.9%] | 8 |
| Cymraeg | 72.8% | | 73.3% | | 78.8% | | 74.4% [75.1%] | |
| Saesneg | 66.6% | | 69.2% | | 72.1% | | 71.4% [69.3%] | |
| Mathemateg | 62.2% | | 65.2% | | 66.6% | | 70.3% [66.9%] | |
| Gwyddoniaeth | 84.7% | | 93.8% | | 94.0% | | 90.8% [82.4%] | |

| CA4 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Perfformiad 2016** | **+/- 2015>2016** | **Targed 2016** | **+/- Perfformiad v Targed** |
| TL1 | 97.3% | -0.6% | 98.8% | -1.5% |
| TL2 | 85.9% | -3.0% | 93.0% | -7.1% |
| TL2+ | 65.9% | +2.6% | 69.8% | -3.9% |
| DPC | 64.4% | +2.2% | 69.0% | -4.6% |
| 5A*-A | 18.1% | -2.2% | | |
| Cymraeg | 74.4% | -4.4% | 79.8% | -5.4% |
| Saesneg | 71.4% | -0.9% | 76.6% | -5.2% |
| Mathemateg | 70.3% | +0.4% | 72.6% | -2.3% |
| Gwyddoniaeth | 94.0% | -3.4% | 94.4% | -3.6% |

| | **Cynnydd 2012> 2013** | | **Cynnydd 2013> 2014** | | **Cynnydd 2014>2015** | | **Cynnydd 2015>2016** | | **Cynnydd 2013>2016** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** |
| TL2+ | +3.0% | +1.6% | +3.1% | +2.7% | +2.0% | +2.2% | +2.6% | +2.4% | +7.9% | +7.6% |
| TL2 | +6.4% | +5.2% | +6.2 % | +4.5% | +1.1% | +1.1% | -3.0% | -0.1% | +4.4% | +1.7% |
| TL1 | +4.0% | +1.4% | +0.1% | +0.8% | +0.7% | +0.3% | -0.6% | +0.9% | +0.2% | +2.1% |
| DPC | +4.1% | +0.3% | +3.2% | +3.4% | +1.6% | +1.7% | +2.2% | +2.8% | +7.1% | +8.6% |
| SPC | +18.4 | +9.6 | +8.8 | +7.6 | -0.7 | +1.5 | -5.3 | +1.1 | +2.3 | +11.5 |
| Cymraeg | -4.0% | -0.3% | +0.5% | +0.2% | +5.5% | +1.4% | -4.4% | -0.1% | +1.6% | +1.6% |
| Saesneg | +2.5% | +0.7% | +2.6% | +3.3% | +2.9% | +2.1% | -0.9% | +0.7% | +4.8% | +6.4% |
| Mathemateg | +3.5% | +1.9% | +3.0% | +1.4 | +1.4% | +2.5% | +0.4% | +2.5% | +8.1% | +6.6% |
| Gwydd | +13.2% | +4.2% | +9.1% | +7.5% | +0.3% | +1.0% | -3.4% | -1.6% | +6.1% | +7.6% |

**Cyfnod Allweddol 4**

Mae perfformiad Gwynedd ar gyfer y prif ddangosydd [TL2+] wedi bod ychydig yn is na meincnod Llywodraeth Cymru yn 2014 a 2015. Fodd bynnag, yn 2016, mae'r ffigwr o 69.7% [*ffigwr Bwletin Ystadegol LlC*] yn gosod y perfformiad +1.6% uwchben y meincnod. Mae'r perfformiad yn y Sgor Pwyntiau Wedi'i Gapio wedi bod yn gyson uwchlaw y meincnod dros gyfnod o bum mlynedd. Yn gyffredinol, dros gyfnod treigl, mae'r perfformiad cymharol wedi bod yn gyson dda yn y mwyafrif helaeth o'r prif ddangosyddion ac er na welwyd cynnydd canrannol rhwng 2015-2016 mewn rhai o'r dangosyddion, mae'r sefyllfa gymharol gyda safle disgwyliedig PYD yr Awdurdod yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn. Yr unig eithriad i hyn ydy'r TL2 [safle 10] a'r 5A*/A [safle 8].

Yn 2016, mae'r awdurdod wedi gwella ymhellach ar ei berfformiad TL2+ gyda chynnydd o +2.6% [*seilieidig ar ffigwr Set Data Craidd*]. Mae'r perfformiad yn gosod Gwynedd yn bedwerydd o blith holl awdurdodau Cymru [sef y safle disgwyliedig]. Dros yr un cyfnod gwelwyd cynnydd cenedlaethol o +2.4%. Ar gyfer y DPC, mae perfformiad Gwynedd wedi gwella +2.2% [+2.8% cenedlaethol] a +0.4% ym maes blaenoriaeth Mathemateg [+2.5% cenedlaethol]. Yn y dangosyddion eraill gwelir peth llithriad ar

berfformiad 2015 gyda'r llithriad mwyaf yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd perfformiad yn weddol agos at darged [er ychydig yn is] gyda'r bwlch mwyaf yn y TL2 a'r Gymraeg a Saesneg. Dros y cyfnod treigl 2013>2016, yn ddieithriad ar draws pob dangosydd, gwelir gwelliannau ym mherfformiad Gwynedd ac mae'r cynnydd yn rhagori ar y cynnydd cenedlaethol cyfatebol yn y TL2+, TL2 a Mathemateg. Noder hefyd bod perfformiad dysgwyr PYD wedi gwella ar ffigwr cyfatebol 2015 ym mhob dangosydd.

**Perfformiad dysgwyr PYD yn y prif ddangosydd TL2+ mewn ysgolion unigol**

Mae perfformiad dysgwyr PYD yn y prif ddangosydd [TL2+] wedi gwella ers 2015 mewn 11 ysgol ac mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD a dysgwyr Dim PYD wedi lleihau ers 2015 mewn 10 ysgol. Fodd bynnag, yn 2016 mae perfformiad treigl dysgwyr PYD wedi disgyn o dan darged treigl Llywodraeth Cymru [32.0%] mewn 4 ysgol [Berwyn/Eifionydd/Moelwyn/SHO] ac fel canlyniad mae safle'r ysgolion yng Ngham 1 o'r drefn gategoreiddio genedlaethol wedi'u gostwng i grwp data 3.

**Cymharu perfformiad dysgwyr PYD/Dim PYD**

Dros y cyfnod treigl, yn ddieithriad bron ar draws mwyafrif helaeth y dangosyddion, mae perfformiad dysgwyr PYD Gwynedd wedi bod yn well na'r ffigwr cenedlaethol cyfatebol. Mae hyn wedi'i gynnal yn 2016 gyda gwelliannau canrannol i'w gweld ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Fel canlyniad, mae'r bwlch wedi lleihau rhwng dysgwyr PYD/Dim PYD ymhob achos ac yn is na'r ffigwr cenedlaethol cyfatebol ymhob achos. Yn achos y Gymraeg, mae perfformiad 2016 yn amlygu gwelliant o bron i 7.0% ar ffigwr llynedd. Gwelir sefyllfa gadarnhaol ar draws y pynciau craidd eraill hefyd. Mae'r perfformiad mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn uwch na'r ganran genedlaethol gyfatebol, yn amlygu gwelliannau sylweddol ar berfformiad 2015 yr Awdurdod ac yn amlygu lleihad yn y bwlch mewn cymhariaeth gyda pherfformiad dysgwyr Dim PYD.

| Bl | PYD | L1 | L2 | L2+ | DPC | 5A*-A | Gwydd | Maths | Saes | Cym | SPC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014** | 150 | 94.0% | 71.3% | 32.0% | 30.7% | 6.7% | 89.3% | 34.7% | 43.3% | 41.4% | 319.7 |
| **2015** | 132 | 97.0% | 69.7% | 31.8% | 31.1% | 1.5% | 84.8% | 37.1% | 43.9% | 43.7% | 323.3 |
| **2016** | 118 | 100.0% | 71.1% | 42.4% | 40.7% | 6.8% | 91.5% | 47.5% | 53.4% | 50.6% | 339.6 |

**Cymharu perfformiad bechgyn a merched**

Yn 2016, mae perfformiad bechgyn Gwynedd yn is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer llynedd ymhob dangosydd ac eithrio Mathemateg. Fodd bynnag, mae eu perfformiad yn rhagori ar berfformiad cyfoedion cenedlaethol ymhob dangosydd ac eithrio TL2 a'r ddwy iaith. Mae perfformiad merched Gwynedd, ar draws nifer helaethaf y dangosyddion yn dangos gwelliannau canrannol ar ffigyrau 2015 ac ymhob achos yn 2016 maent yn rhagori ar berfformiad eu cyfoedion yn genedlaethol. Oherwydd y gwelliannau hyn ym mherfformiad y merched, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn/merched yn fwy yn lleol nag ydyw yn genedlaethol. Mae hyn yn wir ar gyfer pob dangosydd ac eithrio Gwyddoniaeth.

**% rhai 15 oed sy'n ennill dim cymwysterau**

Mae'r ganran o ddysgwyr heb gymhwyster cydnabyddedig wedi aros yn isel dros gyfnod treigl ac ers 2012 wedi bod yn is na'r ffigwr cenedlaethol cyfatebol. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 0.4% yn 2016 a bellach mae'r ffigwr lleol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

| Gadael heb gymhwyster heb fod yn gadael addysg llawn amser | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| Gwynedd | 1.0 | 1.3 | 1.0 | 0.8 | 1.2 |
| Cymru | 1.5 | 1.4 | 1.1 | 1.2 | 0.9 |

**Perfformiad Ôl-16**

Yn 2016 roedd y perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion fel â ganlyn:

- L3 : 98.3% mewn cymhariaeth gyda 98.0% yn genedlaethol. Mae'r perfformiad yn y dangosydd wedi bod yn gyson dros y cyfnod treigl. Fodd bynnag, mae'r bwlch gyda'r sefyllfa genedlaethol wedi lleihau eleni i -0.3%.
- Sgor Pwyntiau : 877.4 mewn cymhariaeth gyda 823.2 yn genedlaethol. Mae perfformiad eleni ychydig yn is na'r ffigwr cyfatebol o 893.9 llynedd [dros yr un cyfnod gwelwyd cynnydd o +23.5 yn genedlaethol].
- 3 gradd A*/A : 6.9% mewn cymhariaeth gyda pherfformiad cenedlaethol o 6.7%. Mae'r ffigwr lleol yn ostyngiad o -3.0% ar berfformiad o 9.9% yn 2015 [a 13.3% yn 2014]. Dros yr un cyfnod gwelwyd llithriad o -1.2% yn genedlaethol.
- 3 gradd A*-C : 68.6% mewn cymhariaeth gyda pherfformiad cenedlaethol o 70.6%. Mae ffigwr Gwynedd -3.7% yn is na pherfformiad 2015. Yn genedlaethol gwelwyd cynnydd o +2.5% rhwng 2015>2016.

**Perfformiad Ysgolion Unigol**

Yn gyffredinol, ar draws mwyafrif helaeth o'r ysgolion, gwelir gwelliannau mewn perfformiad rhwng 2015 a 2016. Mae data 2015 a 2016 hefyd yn amlygu bod gwell cysondeb ym mherfformiad mwyafrif helaeth o'r ysgolion [a'r ysgolion lleiaf yn benodol] gan na welir yr un graddfeydd o begynnu a phendilio oedd yn nodwedd mor bryderus yn y cyfnod yn arwain i fyny at arolygiad diwethaf yr awdurdod. Mae'r prif benawdau fel â ganlyn :

***TL2+***

- 11 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 8 ysgol yn torri 70%+.
- 7 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o ysgolion.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Gader.

***TL2***

- 9 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 4 ysgol yn torri 95%+.
- 4 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o ysgolion

***TL1***

- 14 ysgol hefo perfformiad 100% a 10 ysgol wedi gallu cynnal neu wella perfformiad am y drydedd flwyddyn o'r bron.

***DPC***

- 11 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 4 ysgol yn torri 70%+.
- 5 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o ysgolion
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Dyffryn Nantlle, Gader.

***Cymraeg***

- 4 ysgol yn unig yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 11 ysgol yn torri 70%+ a 4 yn torri 80%+.
- 2 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged mewn tua hanner o'r ysgolion.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Gader, Glan y Mor, Tryfan, Tywyn.

***Saesneg***

- 9 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 9 ysgol yn torri 70%+ a 4 yn torri 80%+.
- 5 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o'r ysgolion ond perfformiad Botwnnog yn sylweddol uwch na tharged.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Botwnnog, Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Tryfan.

***Mathemateg***

- 12 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 11 ysgol yn torri 70%+ a 2 yn torri 80%+.
- 5 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif helaeth o ysgolion ond perfformiad yn sylweddol uwch na tharged yn y Gader.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Gader a Tywyn.

***Gwyddoniaeth***

- 5 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 12 ysgol yn torri 90%+ a 2 yn 100%.
- 3 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif helaeth o ysgolion
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Friars.

## DEILLIANNAU AROLYGIADAU YSGOLION

Gweler Atodiad 1.

**Deilliannau Arolygiadau Ysgolion**

Yn ystod blwyddyn addysgol 2015-2016, bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 13 ysgol [12 cynradd ac 1 uwchradd]. Mewn 8 ysgol [61.5%], dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol; mewn 3 ysgol [23.1%] dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys [Monitro Awdurdod]. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, yr angen i wella presenoldeb oedd y prif reswm dros y gweithgarwch dilynol. Mewn 2 ysgol [15.4%] dyfarnwyd yr angen am ymweliad monitro pellach gan Estyn. Ni osodwyd unrhyw ysgol mewn categori statudol. Roedd proffil 2015-16 yn gadarn dda.

Nodir isod y proffil barnau arolygiadau blwyddyn addysgol 2015-16:

| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn Allweddol 1 | 15.4% | 69.2% | 15.4% | 0% |
| Cwestiwn Allweddol 2 | 15.4% | 76.9% | 7.7% | 0% |
| Cwestiwn Allweddol 3 | 23.1% | 69.2% | 7.7% | 0% |
| Barn Gyffredinol 1 : Perfformiad Presennol | 15.4% | 69.2% | 15.4% | 0% |
| Barn Gyffredinol 2 : Gallu i Wella | 23.1% | 69.2% | 7.7% | 0% |

Sefyllfa gyfredol o ran ysgolion mewn categori dilyniant [arolygiadau 2014-15 a 2015-16]:

| Ysgol | Categori Dilyniant | Dyddiad ail ymweliad Estyn neu gyflwyno adroddiad ALl | Rhagfynegiad |
|---|---|---|---|
| Cymerau | Monitro Awdurdod | Adroddiad cynnydd i Estyn Gwanwyn 2017 | Adroddiad cynnydd wedi'i anfon i Estyn – rhagolygon yn hynod gadarnhaol. Disgwyliad bydd yr ysgol yn cael ei thynnu allan o gategori. |
| Craig y Deryn | Monitro Awdurdod | Adroddiad cynnydd i Estyn Gwanwyn 2017 | Rhagolygon yn gadarnhaol. Disgwyliad bydd yr ysgol yn cael ei thynnu allan o gategori yn fuan. |
| Bro Cynfal | Monitro Estyn | Ymweliad Estyn Haf 2017 | Cynnydd priodol yn digwydd ar y cyflymder disgwyliedig. |
| Llanbedr | Monitro Estyn | Ymweliad Estyn Haf 2017 | Cynnydd priodol yn digwydd ar y cyflymder disgwyliedig. |

**SEFYLLFA GATEGOREIDDIO YSGOLION GWYNEDD**

Mae 3 cam i'r broses gategoreiddio genedlaethol :

- Cam 1 *'Grwp Data'* : LlC yn gosod ysgol mewn grwp safonau [1-4] seiliedig ar berfformiad treigl mewn ystod o ddangosyddion
- Cam 2 *'Gallu i Wella'* : dyfarnu gradd leol [A-D] ar allu'r ysgol i wella [barn sydd yn cymryd i ystyriaeth ansawdd arweinyddiaeth a'r dysgu/addysgu]
- Cam 3 *'Categori Cefnogaeth'* : categori fydd yn sbarduno rhaglen o gymorth, her ac ymyrraeth ar sail angen.

Dros gyfnod treigl gwelir gwelliannau arwyddocaol yn y ganran o ysgolion yn y categoriau cefnogaeth mwyaf dwys [lleihad o 28.4% yn 2014 i 13.7% yn 2016]. Dros yr un cyfnod mae'r ganran sydd yn y ddau gategori uchaf wedi cynyddu o 71.6% i 86.3%.

| | Gwyrdd | | Melyn | | Melyngoch | | Coch | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014-15** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| | 11 | 9.7% | 70 | 61.9% | 29 | 25.7% | 3 | 2.7% |
| | **Gwyrdd** | | **Melyn** | | **Melyngoch** | | **Coch** | |
| **2015-16** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| | 17 | 15.5% | 73 | 67.0% | 17 | 15.6% | 2 | 1.8% |
| **2016-17** | **Gwyrdd** | | **Melyn** | | **Melyngoch** | | **Coch** | |

| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 22 | 20.2% | 72 | 66.1% | 13 | 11.9% | 2 | 1.8% |

Gwelir gwelliannau amlwg hefyd yn y ganran o ysgolion sydd wedi derbyn y dyfarniadau uchaf ar gyfer ansawdd arweinyddiaeth a dysgu/addysgu [graddau A + B] fel rhan o Cam 2 o'r broses gategoreiddio. Yma, gwelir cynnydd o +20.8% [ffigwr wedi codi o 68.2% yn 2014 i 89.0%% yn 2016]

| | A | | B | | C | | D | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014-15** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| | 21 | 18.6% | 56 | 49.6% | 34 | 30.0% | 2 | 1.8% |
| | **A** | | **B** | | **C** | | **D** | |
| **2015-16** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| | 28 | 25.7% | 62 | 56.9% | 17 | 15.6% | 2 | 1.8% |
| | **A** | | **B** | | **C** | | **D** | |
| **2016-17** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| | 29 | 26.6% | 68 | 62.4% | 10 | 9.2% | 2 | 1.8% |

Nodir isod y categoriau sydd yn weithredol ar gyfer blwyddyn addysgol 2015-16 [nodir hefyd, ble'n berthnasol, unrhyw gategori dilyniant yn dilyn arolygiad Estyn – *Monitro Awdurdod/Monitro Estyn/Gwelliant Sylweddol/Mesurau Arbennig*] :

| | Cynradd | Cat: Estyn | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ogwen | | | | | |
| 1 | Bodfeurig | | 2 | A | |
| 2 | Penybryn, Bethesda | | 1 | A | |
| 3 | Llanllechid | | 2 | A | |
| 4 | Rhiwlas, Bangor | | 2 | B | |
| 5 | Abercaseg, Bethesda | | 1 | A | |
| 6 | Tregarth | | 1 | A | |
| Brynrefail | | | | | |
| 1 | Gwaun Gynfi | | 2 | B | |
| 2 | Llanrug | | 2 | B | |
| 3 | Bethel | | 2 | A | |
| 4 | Cwm y Glo | | 2 | B | |
| 5 | Dolbadarn | | 2 | B | |
| 6 | Penisarwaun | | 3 | B | |
| 7 | Waunfawr | | 3 | B | |
| Dyffryn Nantlle | | | | | |
| 1 | Bro Llifon | | 3 | B | |
| 2 | Brynaerau | | 2 | A | |
| 3 | Llanllyfni | | 2 | B | |
| 4 | Baladeulyn | | 1 | C | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Nebo | | 2 | B | |
| 6 | Bro Lleu | | 1 | A | |
| 7 | Talysarn | | 1 | A | |
| Friars/Tryfan | | | | | |
| 1 | Glanadda | | 2 | D | |
| 2 | Glancegin | | 1 | B | |
| 3 | Babanod Coedmawr | | 2 | C | |
| 4 | Garnedd | | 2 | A | |
| 5 | Felinheli | | 2 | B | |
| 6 | Hirael | | 3 | B | |
| 7 | Faenol | | 1 | A | |
| 8 | Llandygai | | 1 | B | |
| 9 | Cae Top | | 1 | A | |
| 10 | Ein Harglwyddes | | 4 | B | |
| Syr Hugh Owen | | | | | |
| 1 | Gelli | | 1 | B | |
| 2 | Felinwnda | | 2 | B | |
| 3 | Rhosgadfan | | 3 | D | |
| 4 | Rhostryfan | | 3 | B | |
| 5 | Hendre | | 2 | B | |
| 6 | Bontnewydd | | 3 | A | |
| 7 | Maesincla | | 1 | B | |
| 8 | Llandwrog | | 3 | B | |
| 9 | Santes Helen | | 4 | C | |
| Tywyn | | | | | |
| 1 | Craig y Deryn | Monitro Awdurdod | 4 | B | |
| 2 | Dyffryn Dulas | | 2 | B | |
| 3 | Penybryn | | 3 | B | |
| 4 | Pennal | | 3 | B | |
| Gader | | | | | |
| 1 | Brithdir | | 2 | A | |
| 2 | Dinas Mawddwy | | 1 | B | |
| 3 | Ganllwyd | | 4 | B | |
| 4 | Llanelltyd | | 3 | B | |
| 5 | Ieuan Gwynedd | | 3 | B | |
| 6 | Friog | | 3 | A | |
| 7 | Dolgellau | | 2 | B | |
| Moelwyn | | | | | |
| 1 | Bro Cynfal | Monitro Estyn | 3 | C | |
| 2 | Edmwnd Prys | | 3 | B | |
| 3 | Manod | | 1 | B | |
| 4 | Tanygrisiau | | 2 | B | |
| 5 | Bro Hedd Wyn | | 4 | B | |
| 6 | Maenofferen | | 2 | A | |
| Berwyn | | | | | |
| 1 | Bro Tegid | | 3 | B | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | O.M.Edwards | | 1 | A | |
| 3 | Bro Tryweryn | | 1 | A | |
| 4 | Ffridd y Llyn | | 2 | A | |
| 5 | Beuno Sant | | 3 | A | |
| Ardudwy | | | | | |
| 1 | Traeth | | 3 | B | |
| 2 | Dyffryn Ardudwy | | 4 | B | |
| 3 | Llanbedr | Monitro Estyn | 3 | C | |
| 4 | Garreg | | 3 | B | |
| 5 | Cefn Coch | | 1 | A | |
| 6 | Talsarnau | | 2 | B | |
| 7 | Tan y Castell | | 2 | B | |
| Glan y Mor | | | | | |
| 1 | Abererch | | 2 | A | |
| 2 | Chwilog | | 1 | B | |
| 3 | Bro Plenydd | | 2 | B | |
| 4 | Llanaelhaearn | | 2 | C | |
| 5 | Llanbedrog | | 3 | B | |
| 6 | Llangybi | | 2 | B | |
| 7 | Pentreuchaf | | 3 | A | |
| 8 | Eifl | | 2 | C | |
| 9 | Cymerau | Monitro Awdurdod | 1 | B | |
| Botwnnog | | | | | |
| 1 | Nefyn | | 2 | A | |
| 2 | Abersoch | | 3 | B | |
| 3 | Crud y Werin | | 3 | B | |
| 4 | Edern | | 2 | B | |
| 5 | Babanod Morfa Nefyn | | 2 | A | |
| 6 | Sarn Bach | | 2 | A | |
| 7 | Tudweiliog | | 1 | B | |
| 8 | Pont y Gof | | 2 | B | |
| 9 | Foelgron | | 2 | B | |
| Eifionydd | | | | | |
| 1 | Beddgelert | | 1 | B | |
| 2 | Borth y Gest | | 2 | B | |
| 3 | Treferthyr | | 3 | B | |
| 4 | Garndolbenmaen | | 1 | B | |
| 5 | Eifion Wyn | | 1 | A | |
| 6 | Gorlan | | 3 | B | |
| 7 | Llanystumdwy | | 3 | B | |
| Ysgolion Arbennig | | | | | |
| 1 | Pendalar | | - | B | |
| 2 | Hafod Lon | | - | A | |

| | **Uwchradd** | **Cat: Estyn** | **Cam 1** | **Cam 2** | **Cam 3** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ardudwy | | 2 | B | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Berwyn | | 3 | B | |
| 3 | Botwnnog | | 2 | B | |
| 4 | Brynrefail | | 1 | B | |
| 5 | Dyffryn Nantlle | | 3 | C | |
| 6 | Dyffryn Ogwen | | 1 | A | |
| 7 | Eifionydd | | 3 | C | |
| 8 | Friars | | 1 | B | |
| 9 | Gader | | 1 | C | |
| 10 | Glan y Mor | | 1 | B | |
| 11 | Moelwyn | | 3 | B | |
| 12 | Syr Hugh Owen | | 3 | B | |
| 13 | Tryfan | | 1 | B | |
| 14 | Tywyn | | 1 | B | |

Uwchradd - Categoreiddio 2016-17 yn amlygu gwelliannau yn y proffil. Dyfarniadau ar gyfer Cam 2 yn dangos bod 11 ysgol wedi derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B], 3 ysgol wedi derbyn dyfarniad C a 2 o'r rheiny wedi llwyddo i godi o D. Nid oes unrhyw ysgol yn y categori *Coch*.

Cynradd - Categoreiddio 2016-17 ar gyfer y cynradd yn amlygu gwelliannau yn y proffil. Dyfarniadau ar gyfer Cam 2 yn dangos bod 89.2% o'r ysgolion wedi derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] a 10.7% yn unig wedi derbyn dyfarniad C/D. Hyn yn cymharu gyda ffigyrau cyfatebol 2014 o 73.7% a 26.3%. Mae 88.1% o'r ysgolion yn y ddau gategori lliw uchaf [*Gwyrdd/Melyn*].

O ran gweithredu'r rhaglen gefnogaeth a her ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn y gwahanol gategorïau cefnogaeth, mae'r rhaglen newydd tri model yn weithredol ac addasiadau wedi'u gwneud i'r gweithredu gydag ysgolion *Gwyrdd/Melyn* yn dilyn ymgynghori gyda'r Penaethiaid. Mae'r gofynion diwygiedig yn amlygu rôl ganolog i'r Ymgynghorydd Her [YH] gyda disgwyliad clir eu bod yn cyfranogi o weithgareddau craffu ar y cyd. Ar draws pob categori lliw, mae'r YH wedi cynnal ymweliad categoreiddio i drafod perfformiad a safonau cyfredol, wedi herio targedau ac yn monitro cynnydd tuag atynt ar 3 pwynt allweddol mewn blwyddyn. Mae pob ysgol *Gwyrdd/Melyn* wedi cyfrannu i gyfarfodydd '*adolygiadau cymheiriaid'* yn ystod y tymor cyntaf ac mae pob ysgol yn ymgymryd â gweithgaredd cydweithio fel canlyniad. Yn achos yr ysgolion *Melyn* hefyd, mae pob sefydliad yn ymroi i gydweithio ac yn cyfranogi o weithgaredd hyfforddiant ar y cyd.

Mae pob ysgol *Melyngoch* wedi derbyn cynllun cefnogaeth sydd wedi'i saernïo i sicrhau eu bod yn '*Estyn barod'*. Mae tystiolaeth glir o ymweliadau monitro ac arolygiadau Estyn bod y mwyafrif helaeth o'r ysgolion hyn yn gwneud y cynnydd disgwyliedig oddi fewn i'r terfynau amser a bennwyd.

Yn achos ysgolion *Melyngoch/Coch*, mae gweithredu ers 2014 wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y ganran o ysgolion sydd yn y categori yma. Mae'r ganran wedi gostwng o 28.8% yn 2014-15 i 13.7% yn 2016-17. Mae pob ysgol wedi derbyn ymweliad categoreiddio ac mae YH wedi herio targedau ac yn gweithredu i fonitro cynnydd tuag atynt. Mae hyn yn destun trafodaeth reolaidd rhwng yr YH a'r ysgol. Mae pob ysgol yn y categori yma wedi derbyn *Cynllun Cefnogaeth* ac ymweliadau monitro yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig.

Mae Cynllun Busnes clir rhwng y Cyngor a GwE er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle i fonitro ac arfarnu cynnydd yn yr ysgolion. Mae trefn newydd wedi ei sefyldu ar gyfer monitro perfformiad ac ansawdd ar bob lefel yn ysgolion Gwynedd drwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol (BAS) - Aelodaeth – Swyddogion yr Adran Addysg ac Uwch Ymgynghorwyr Her GwE. Mae'r BAS yn caniatáu i'r Awdurdod a GwE gael darlun cyflawn o berfformiad ac ansawdd yr ysgolion gan fod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael gan y gwahanol aelodau. Er mwyn sicrhau gweithrediad ac atebolrwydd priodol, mae'r BAS yn cymryd cyfrifoldeb am atebolrwydd a monitro chwarterol y Cynllun Busnes – blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yw sail i raglen / cylch gorchwyl y BAS. Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda swyddogion yr awdurdod ac mae'r Cynllun Busnes wedi grymuso yn sylweddol y cyfathrebu a'r atebolrwydd. Cyflwynwyd papur i'r 'Rhwydwaith Gwella Ysgolion' GwE, yn amlinellu'r drefn yma a chytunodd Awdurdodau y Gogledd, mewn egwyddor, i fabwysiadu'r system yma a fyddai'n arwain at drefn gyffredin a chysondeb rhanbarthol o ran monitro'r Cynlluniau Busnes.

**<u>RHAGLENNI GWELLA ANSAWDD ARWEINYDDIAETH</u>**

Cyflwynwyd ystod o weithgareddau gan GwE i gefnogi a datblygu gwaith arweinwyr ar draws y ddau sector. Rhoddir blas o rai o'r sesiynau hynny isod.

Rhaglenni datblygol Uwchradd:
Eleni, mae rhaglen ddatblygu ychwanegol yn cael ei gyflwyno ar gyfer Arweinwyr Canol ble nodwyd yr angen i sicrhau gwelliannau pellach yn eu gwaith arweinyddol a rheolaethol. Mae 8 unigolion wedi cofrestru a chynhelir y sesiynau ar 10/2/17; 13/2/17 a 17/2/17. Bydd cynllun ôl-ofal yn weithredol wedyn yn y fam ysgol.

Mae rhaglen ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ganol [*symud o'r da i'r rhagorol*] yn cael ei chyflwyno - 10 cynrychiolydd o'r uwchradd yn cyfranogi. Mae'r adborth cychwynnol yn hynod gadarnhaol o du'r unigolion ond mae gwaith pellach i'w wneud i weld pa effaith gaiff yr arweiniad ar eu harferion yn ôl yn yr ysgol.

Mae'r niferoedd uwchradd sydd wedi manteisio ar raglenni datblygol eraill fel a ganlyn :

- Penaethiaid a Phenaethiaid Newydd : 3 Gwynedd
- Uwch Arweinwyr : 2 Gwynedd
- Darpar Uwch Arweinwyr : 1 Gwynedd
- Arweinwyr TGCh : 1 Gwynedd
- Arweinwyr PLPS : 4 Gwynedd

Hefyd yn yr uwchradd, mae rhwydweithiau proffesiynol wedi eu sefydlu i gefnogi arweinwyr canol yn y pynciau craidd ac anghraidd [dethol] yn CA4 gyda ffocws penodol ar ymateb i ofynion y manylebau TGAU newydd.

Mae YH Pynciol wedi bod yn gweithio gyda adrannau trwy gyfrwng rhwydweithiau sirol; clystyru ysgolion sydd ag agweddau cyffelyb a hefyd trwy gyfres o ymweliadau cefnogol i ysgolion unigol ble mae'r angen ddwysaf. Rhennir gwybodaeth am y gweithredu gyda'r Uwch YH a'r YH cyswllt. Mae'r gweithredu uchod wedi'i saernio ar wella ansawdd arweinyddiaeth adrannol a hefyd agweddau o'r dysgu/addysgu yn CA4.

Rhaglenni datblygol Cynradd:
Mae rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth ac arweiniad wedi'i chynllunio ar gyfer pob ysgol gynradd a'r manylion wedi'u rhannu gyda'r ysgolion.

Cyflwynwyd gweithdai arweiniol ym meysydd *CDY*, *Rheoli Asesu a Thracio; Addysgu Effeithiol ac Arwain taith gwella ysgol*. Nodir isod ffigyrau presenoldeb yn y sesiynau :

- *CDY* : 76 Gwynedd [sesiwn ychwanegol i'w chynnal y tymor hwn ar gyfer y rhai na lwyddodd i fynychu]
- *Rheoli, Asesu a Thracio* : 42 Gwynedd
- *Addysgu Effeithiol* [ysgolion Gwyrdd/Melyn yn unig] : 60 Gwynedd
- *Arwain Taith Gwella Ysgol* [Melyngoch/Coch yn unig] : 4 Gwynedd

Mae rhaglen ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ganol [*symud o'r da i'r rhagorol*] yn cael ei chyflwyno - 13 cynrychiolydd cynradd. Mae'r adborth cychwynnol yn hynod gadarnhaol o du'r unigolion ond mae gwaith pellach i'w wneud i weld pa effaith gaiff yr arweiniad ar eu harferion yn ôl yn yr ysgol.

Nodir isod y niferoedd cynradd sydd wedi manteisio ar raglenni datblygol eraill:

- Penaethiaid a Phenaethiaid Newydd : 19 Gwynedd
- Uwch Arweinwyr : 5 Gwynedd
- Darpar Uwch Arweinwyr : 1 Gwynedd
- Arweinwyr Rhifedd : 32 Gwynedd
- Arweinwyr Llythrennedd : 34 Gwynedd
- Arweinwyr TGCh : 9 Gwynedd
- Arweinwyr PLPS : 10 Gwynedd

Yn 2016-17 mae 5 unigolyn o Wynedd [2 uwchradd a 3 cynradd] wedi bod yn llwyddiannus o ran ceisiadau CPCP ac wedi'u cyflwyno i'r ganolfan asesu.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

**Deilliannau diwedd cyfnod allweddol**
***Cyfnod Sylfaen/CA2***

- Pennu disgwyliadau uwch yn y CS a CA2 a herio ysgolion parthed gosod targedau.
- Datblygu gwell gwydnwch i weithdrefnau pennu targedau, asesu a thracio ysgolion ac hyrwyddo gwell defnydd o ddata a rhaglenni ymyraeth i yrru gwelliannau angenrheidiol.
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o ofynion D5+/6+ yn y CS fel bod arweinwyr yn fwy hyderus i herio targedau ac asesiadau.
- Sicrhau gweithredu mwy grymus i wirio addasrwydd targedau a'r cynnydd tuag atynt.
- Sicrhau bod gwell cysondeb ar draws ysgolion parthed dealltwriaeth o '*ffit-orau'* wrth bennu lefel derfynol.
- Sicrhau bod ysgolion yn derbyn arweiniad pellach ar ddysgu ac asesu iaith a rhif.
- Gwella addysgeg yn y CS gyda ffocws penodol ar :

- ✓ wella cyfleoedd sydd wedi eu cynllunio i ddatblygu llythrennedd/rhif ar draws y meysydd dysgu
- ✓ sicrhau gweithgareddau sydd â lefel her uwch
- ✓ sicrhau gwell cyfleon i gymhwyso'r medrau
- ✓ sicrhau gwell cydbwysedd rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan athro/dysgwr
- ✓ wella perfformiad Datblygiad Mathemategol

- Sicrhau bod gan holl ANG yn y CS ddealltwriaeth gadarn o'r gofynion/disgwyliadau parthed darpariaeth effeithiol.
- Sicrhau dealltwriaeth gytunedig a chysondeb gweithredu yn y prosesau safoni a chymedroli ar draws y pynciau craidd.
- Gwella perfformiad yn y Gymraeg ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch fel bod asesiadau yn cyfateb yn nes at asesiadau yn y pynciau craidd eraill.
- Gwella perfformiad dysgwyr PYD ar y lefelau uwch yn CA2 mewn Saesneg/Mathemateg/Gwyddoniaeth.
- Targedu cynhaliaeth i ysgolion ble mae perfformiad treigl wedi bod yn y 50% isaf.
- Sicrhau dadansoddiad manwl o ddata profion darllen/rhif ar lefel ALl yn ôl yr amryfal flynyddoedd B2>9 ac adnabod ysgolion penodol ble nad oes cydberthynas digon agos gyda pherfformiad ac asesiadau athrawon.
- Sicrhau bod pob ysgol yn derbyn arweiniad cychwynnol ar y disgwyliadau parthed y Fframwaith Digidol.
- Parhau i weithio hefo swyddogion yr ALl i wella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau nad oes yr un ysgol yn cael ei gosod mewn categori dilyniant statudol yn dilyn arolygiad Estyn.
- Hyrwyddo gwell cydweithio Ysgol-i-Ysgol er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhaeadru a'u coleddu.

***CA3 a CA4***

- Cynnal safonau perfformiad ar y lefelau uwch ar draws y prif ddangosyddion
- Targedu cefnogaeth i ysgolion penodol ble nad oes alinio rhesymegol rhwng asesiadau diwedd CA3 a pherfformiad CA4.
- Parhau i dreialu a datblygu rôl Pennaeth Adran Strategol [gan fodelu ar weithredu Mathemateg yn ardal Meirionnydd].
- Sicrhau gweithredu mwy grymus i wirio addasrwydd targedau a'r cynnydd tuag atynt.
- Sicrhau dealltwriaeth gytunedig gydag arweinwyr o hanfodion cynllunio cwricwlaidd/darpariaeth er mwyn gwell perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion.
- Sicrhau bod arweinwyr yn cynllunio'n hyderus ar gyfer y dangosyddion diwygiedig mewn Ieithoedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth
- Mewn lleiafrif o ysgolion, gweithredu i sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd effeithiol a phrydlon o systemau tracio i gynllunio ymyrraeth effeithiol ac i ddelio gyda thanberfformio/perfformio cyfforddus [ac yn benodol yng nghyd destun data *read-across*]
- Gwella perfformiad mewn Saesneg Iaith a Cymraeg Iaith
- Gwella perfformiad lefelau uwch i gynyddu % 5A*-A
- Gweithio gyda'r Consortiwm 14-19 i wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad yn CA5.
- Targedu gweithredu mewn lleiafrif bychan o ysgolion uwchradd ble mae pryder am berfformiad a/neu ansawdd arweinyddiaeth

- Parhau i weithio hefo swyddogion yr ALl i wella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau nad oes yr un ysgol yn cael ei gosod mewn categori dilyniant statudol yn dilyn arolygiad Estyn
- Hyrwyddo gwell cydweithio Ysgol-i-Ysgol er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhaeadru a'u coleddu.

- Sicrhau bod GwE yn cefnogi awdurdodau yn effeithiol fel eu bod yn gallu gwneud defnydd mwy amserol o'u pwerau ymyrryd statudol
- Sicrhau bod yr aweiniad a'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion yn hwyluso gwaith arweinwyr i wneud defnydd mwy effeithiol ac amserol o weithdrefnau medrusrwydd
- Gwneud defnydd effeithiol o raglen hyfforddiant rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau graddau uwch o gysondeb yn y lefel o her a chefnogaeth
- Sicrhau'r lefel briodol o fanylder ariannol yn y Cynllun Busnes a gwahaniaethau priodol rhwng comisiynu ar lefel rhanbarthol ac ar lefel awdurdod unigol
- Mireinio ymhellach strwythurau hunan arfarnu a datblygu ffyrdd o fesur effaith gweithredoedd (tra hefyd yn sicrhau bod canfyddiadau'r prosesau yn cael eu defnyddio yn effeithiol i osod targedau a dangosyddion ansawdd heriol a phriodol i wella perfformiad y gwasanaeth ac ysgolion)
- Sicrhau bod cynlluniau datblygu, prosesau hunan arfarnu a systemau tracio o leiaf yn dda yn ein hysgolion
- Darparu arweiniad er mwyn codi safonau mathemateg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion uwchradd
- Sicrhau bod ein hysgolion yn deall ac yn barod i weithredu manylebau newydd
- Targedu adrannau sydd yn tan berfformio yn gyffredinol neu yn perfformio yn gyfforddus
- Gweithredu model newydd o gefnogi ysgolion er mwyn:
    1. Bod ysgolion sydd mewn peryg o lithro yn cael eu hadnabod yn gynnar fel y gellir rhoi ymyriad priodol ar waith.
    2. Cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol a datblygu partneriaethau newydd.
    3. Adnabod rhagoriaeth ac arfer effeithiol ym meysydd arweinyddiaeth a phedagogiaeth a'u rhannu;
    4. Gwella deilliannau diwedd cyfnod allweddol;
    5. Cefnogi ysgolion i berfformio yn y chwarteli uchaf
    6. Sicrhau nad oes ysgol yn mynd i gategorïau statudol Estyn
- Targedu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer Arweinwyr Canol er mwyn datblygu eu gallu i arwain ar addysgu a dysgu da o fewn eu hadrannau
- Adnabod darpar brifathrawon a'u paratoi ar gyfer ennill y cymhwyster CPCP
- Sicrhau rhaglen ar gyfer datblygu penaethiaid presennol ymhellach.
- Parhau i gryfhau system asesu athrawon trwy gymedroli asesiadau fel eu bod yn gyson ar draws y Rhanbarth a Chymru.
- Cyfathrebu yn gyson ac effeithiol gyda'r Awdurdod parthed datblygiadau yn yr ysgolion.
- Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Lles er mwyn adnabod arfer dda yn y maes presenoldeb.
- Cydweithio i gael darlun cryno cyfansawdd o ysgol.

## 3. <u>Y GYMRAEG</u>

**RHWYDWAITH CYFRWNG CYMRAEG AC ADEILADU CYNHWYSEDD**

Fe arweinir grŵp strategol trawsawdurdod – Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd - gan Wynedd sydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg, cyfrwng Cymraeg ac adeiladu cynhwysedd ymhob Awdurdod. Mae'r grŵp hwn yn ddylanwadol o safbwynt y drafodaeth ar gontinwwm iaith gan ddylanwadu'n sylweddol ar statws Y Gymraeg ymhob ysgol, a sefydliadau cyn-ysgol, ac ansawdd ei haddysgu fel iaith a'r defnydd pellach ohoni fel cyfrwng dysgu.

Mae gan y grŵp rôl allweddol er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn ymateb i ofynion ac egwyddorion:

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru
- Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg yr awdurdodau
- Cynlluniau a Strategaethau Iaith yr awdurdodau

O blith y meysydd sydd wedi eu hadnabod, prif flaenoriaethau'r Rhwydwaith yw:

- Ehangu'r Siarter Iaith ar draws siroedd y Gogledd.
- Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg / Canolfannau Iaith.
- Sefydlu Cymunedau Dysgu Proffesiynol.
- Cynllunio bwriadus a sicrhau dilyniant o'r Blynyddoedd Cynnar.
- Y Gymraeg fel Ail Iaith.
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Y SIARTER IAITH**

**GWYNEDD**

Ers lansio'r Siarter Iaith Gymraeg yn ysgolion cynradd Gwynedd mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.

Nod syml y Siarter Iaith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair, cael y plant i siarad Cymraeg. Yn 2016, llwyddodd mwy na 55% o ysgolion Gwynedd (69 ysgol) (targed LLC) i ennill gwobr aur y Siarter Iaith.

Mae'r Siarter Iaith yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.

Mae hyfforddiant trylwyr wedi'i roi i'r cyd-gysylltwyr iaith fel eu bod yn unigolion cymwys i gynnig arweiniad a chefnogaeth i'r ysgolion yn eu dalgylchoedd. O dan eu gofal, mae'r gwaith o fonitro ac achredu'r Siarter yn cael ei weithredu. Byddwn yn parhau i ddatblygu eu rôl gan eu bod yn elfen allweddol o ran sicrhau bod negesuon a gwybodaeth perthnasol ynglŷn â chyflawni nod y wobr Aur yn cael ei rhannu a'i rhaeadru'n effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd tymhorol i rannu'r wybodaeth mwyaf diweddar efo'r cyd-gysylltwyr iaith. Trwy gynnal cyfres o gyfarfodydd efo bob pennaeth yn eu dalgylchoedd, rhennir negeseuon a rhoddir arweiniad a chanllawiau clir i bawb ar y meini prawf sydd angen eu hateb er mwyn cynnal y gofynion a safonau'r wobr aur.

Mae elfen gryf o hyfforddi yn dod yn sgil yr ymweliadau achredu a chyfle euraid i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng ysgolion a'i gilydd. Cwblheir adroddiad ar gyrhaeddiad a datblygiad pob ysgol yn erbyn gofynion y gwobrau arian ac aur yn flynyddol. Byddwn yn parhau gyda'r broses achredu ar ddiwedd y flwyddyn addysgol gan graffu ar ddata'r gwe iaith er mwyn profi bod effaith cadarnhaol o ganlyniad i weithredu'r Siarter Iaith.

Mae dogfen arweiniol wedi'i llunio sy'n cynnwys yr holl strategaethau, gweithgareddau a'r cynlluniau bwriadus sydd wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith ymysg ysgolion 'blaengar' Gwynedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ddogfen yma wrth i'r Siarter ddatblygu a'i phrif ffrydio i waith craidd y Cyngor

Mae cydweithio clos rhwng partneriaethau'n parhau a digwyddiadau penodol wedi'u cynnal ar y cyd efo S4C, Yr Urdd a Cwmni Da er mwyn dwyn effaith gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith.

O ran sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith Cynradd, a pharhau gyda chreu'r galw a gwella sgiliau iaith Gymraeg ein pobl ifanc, rydym yn datblygu Strategaeth fydd yn rhoi arweiniad clir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc yn yr uwchradd.

Bydd y Strategaeth Uwchradd yn ymgorffori argymhellion adroddiad Cwmni Trywydd (adroddiad a gomisiynwyd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd), Adroddiad Astudiaeth Alun Charles, Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd, Strategaeth Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Bydd rôl a llais y bobl ifanc yn allweddol ynghyd â gwasanaethau ieuenctid a rhanddeiliad allweddol. Bydd y Strategaeth yn gosod disgwyliadau ac arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol

Byddwn yn:

- Cefnogi'r 14 ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r strategaeth
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog
- Hyrwyddo ymhellach gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl rwydd yn y ddwy iaith.

**GOGLEDD CYMRU A CHENEDLAETHOL**

Ar gais Llywodraeth Cymru (LlC), yn dilyn adroddiadau cadarnhaol am lwyddiant y Siarter yng Ngwynedd, gofynnwyd i gael defnyddio arbenigedd ac arferion da Gwynedd er mwyn ymestyn y prosiect i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth ar ran LlC ar gyfer cyflawni 4 prif elfen, sef y gwaith o godi ymwybyddiaeth, cynnal cynhadledd hyfforddiant, rhannu gwybodaeth a lletya'r holiadur ar-lein, a'r broses achredu.

Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn o ran darparu cefnogaeth i siroedd eraill i osod seiliau cadarn mewn lle i weithredu'r Siarter Iaith, gan roi arweiniad a darparu arferion da ar holl agweddau ymarferol y Siarter.

Nod prosiect gogledd Cymru yn 2016/2017 oedd ceisio sicrhau bod bob ysgol categori un yn siroedd Conwy, Dinbych, Wrecsam, Dinbych a'r Fflint yn ennill gwobr arian y Siarter. Yn 2015 – 2016, enillodd 50 o gyfanswm o 52 ysgol y Wobr Efydd. Roedd amgylchiadau arbennig yn bodoli yn y ddwy ysgol nad oedd yn llwyddiannus ac mae'r ddwy ysgol honno yn dechrau ar y Wobr Efydd eleni. Yn Ynys Môn, aseswyd 44 allan o 46 o ysgolion cynradd yr Awdurdod gan y pum Cydlynydd Iaith Dalgylchol ym mis Mehefin. Llwyddodd oll o'r ysgolion i ennill achrediad y Wobr Efydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r ddwy ysgol arall.

Mae'r 100% o ysgolion y gogledd holl ysgolion wedi gosod y waelodlin drwy gyfrwng system ar-lein y Siarter Iaith yn 2016/17 ac wedi cynllunio a gweithredu gweithgareddau a fyddai'n ateb anghenion ysgolion unigol.

Datblygwyd a mireiniwyd system y Siarter i fod yn yr HWB fel y gellir mesur cynnydd unigolion yn hytrach nag ysgol gyfan yn unig. Gobeithir y bydd y system yn fyw yn yr HWB ac ar gael i Gymru gyfan ym mis Medi 2017.

Datblygwyd trefn gynaliadwy ar gyfer dilysu a chymedroli ysgolion ar gyfer y gogledd. Hyfforddwyd dilyswyr i ddilysu a chymedroli gan gydlynwyr iaith gwynedd.

O ran y gwaith a'r gefnogaeth yn genedlaethol:

- Datblygwyd prosiect gosod system ar-lein y Siarter yn yr HWB fel y gellir dilyn cynnydd unigolion yn hytrach na chael darlun ysgol gyfan yn unig.
- Cafodd system y Siarter yn yr HWB ei beilota mewn 15 ysgol er mwyn sicrhau y bydd y system yn fyw i Gymru gyfan ym mis Medi 2017.
- Cafodd system y Siarter ei ddatblygu a'i wella fel ei fod yn fwy hylaw i'r defnyddwyr.
- Bu swyddogion a phenaethiaid siroedd y gogledd yn cefnogi Consoritwm y De Ddwyrain a Chanolbarth y De i ennill gwobr Efydd y Siarter. Gwnaethpwyd hyn drwy gyfrannu i gynhadledd a chefnogi Cydlynwyr Siarter Iaith de Cymru.
- Mae dogfen 'Arferion Da' ar gyfer gweithredu'r Siarter yn cael ei datblygu'n barhaus fel bod pawb yn medru dysgu oddi wrth ei gilydd.
- Bydd Swyddogion Gwynedd yn parhau i gefnogi a darparu gwybodaeth i gydlynwyr y de (Consortiwm Erw, y De-ddwyrain a Chanolbarth y De).
- Uned datblygu systemau Gwynedd yn darparu cefnogaeth TG i Gymru gyfan.
- Sicrhau fod system ar-lein y Siarter yn yr HWB erbyn mis Medi 2017.
- Parhau i ddatblygu'r ddogfen Arferion Da a chreu banc syniadau cenedlaethol fel bod pawb yn medru dysgu oddi wrth ei gilydd.

**YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG**

Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu ar faes Addysg Gymraeg gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau yr Awdurdod er mwyn craffu ar:

- Polisi Iaith yr Awdurdod
- Y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a Phobl Ifanc (y cyswllt efo Gwaith Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu i AdDysg Gymraeg y Cyngor Sir i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd yn ysgolion y sir yn dod i'r casgliad, ar sail astudiaeth o dair ardal benodol, fod 'dehongli'r polisi'n amrywio'n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon dros y Gymraeg.' Mae'n ychwanegu 'nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o'r gofynion.' Caiff hyn ei ategu hefyd yn adroddiad Cwmni Trywydd ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifainc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu ei hunan yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater cyn cloi gyda nifer o argymhellion ar gyfer gwella cysondeb gweithredu'r Polisi. Yn eu plith mae'r argymhellion canlynol:

*Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith Addysg y Cyngor dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithrwydd gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff.*

*Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei bod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.'*

Mae Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol, Alun Charles, i gyflawni Astudiaeth yn ymwneud â'r ail argymhelliad yn bennaf ond bod y dasg o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y sir yn ymgorffori hefyd elfen o'r argymhelliad cyntaf, sef beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith.

Ffrwyth yr Astudiaeth oedd adroddiad yn cynnwys nifer o gasgliadau ac argymhellion. Cyflwynwyd yr adroddiad a'r argymhellion i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau y Cyngor ar 26.01.17 ble cymeradwywyd yr argymhellion i gyd ond bod angen trafodaeth bellach o ran diffinio ysgolion uwchradd Gwynedd yn ôl iaith y cyfrwng addysgu a dysgu dan un categori. Bydd yr Adran Addysg yn gweithredu ar yr argymhellion yma yn ystod 2017-18.

**CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn y tair blynedd gyntaf o gylch cynllunio y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), rydym bellach yn symud ymlaen i'r cam cynllunio nesaf ar gyfer 2017-2020.

Mae'r CSGA wedi sefydlu sail gadarn ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru ac addysg iaith Gymraeg a dwyieithog. Mae cwblhau'r cylch cynllunio diwethaf wedi rhoi cyfle i fyfyrio ar beth sy'n gweithio'n dda a'r materion sydd angen eu datblygu.

Mae'r Cynllun hwn yn parhau i ganolbwyntio ar y pum deilliant yn Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 ac yn amlinellu sut bydd yr awdurdod yn cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth. Bydd yr awdurdod yn gorfod adolygu cynnydd yn erbyn y targedau hyn.

Dyma'r pum deilliant:

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2;
- mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg**.**

Mae'r Cynllun hefyd yn mynd i'r afael â safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg ail iaith, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

**CANOLFANNAU IAITH GWYNEDD**

Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol.

Mae pedair canolfan gynradd ac un canolfan uwchradd. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog.

Rhwng 2005 a Hydref 2016 mae cyfanswm o 1628 o ddisgyblion cynradd a 510 o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith.

O ran y cynradd, bydd uchafswm o 16 / 18 disgybl yn mynychu pob canolfan am gwrs o 12 wythnos, ar wahân i Ddolgellau, sydd â lle i 8 disgybl yn unig. Cynigir y ddarpariaeth yn bennaf i ddisgyblion 7 - 11 oed (CA2) sydd yn hwyrddyfodiaid i'r Sir. Bydd y disgyblion yn mynychu cwrs dwys am dymor er mwyn eu trochi a'u paratoi ar gyfer derbyn rhan helaeth o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan ddychwelant i'w hysgolion. Cwrs amlgyfrwng a thrawsgwricwlaidd ydyw a seilia'r athrawon eu cynllun gwaith ar hwn. Mae'r cynllun yn galluogi'r disgyblion i ddychwelyd i ysgolion eu hardal a dilyn eu cwricwlwm yn y Gymraeg.

Mae'r Ganolfan Uwchradd yn cynnig lle i uchafswm o 16 disgybl ar gyfer cyfnodau o 8 wythnos gan ganolbwyntio ar ddisgyblion B7 i ddechrau ac yna B8 gyda niferoedd bychain o B9 pe bai lle, yn ôl y meini prawf penodol a osodwyd. Byddir yn trochi'r disgyblion hyn gyda chwrs dwys yn y Gymraeg mewn cyfnod byr, gan gynnig arlwy o bynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal.

Rydym yn parhau i sicrhau dilyniant priodol i ddisgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgolion drwy gynnig ôl-ofal i bob disgybl. Mae'r Canolfannau Iaith yn darparu gwasanaeth ôl- ofal mewn partneriaeth â'r ysgolion er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd arwyddocaol yn y Gymraeg. Datblygiad diweddar yw penodi Athrawes Ôl Ofal Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd sy'n gyfrifol am addysgu'r Gymraeg i grwpiau o hwyrddyfodiad gan ymwneud yn benodol â sicrhau gweithrediad y cynllun ôl-ofal i ddisgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Parhau i arwain y grŵp rhanbarthol er mwyn ceisio sicrhau gwell mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ar draws y rhanbarth sy'n dymuno datblygu, cryfhau neu gynnal eu sgiliau dwyieithog.
- Parhau i weithredu'r Siarter Iaith yng Ngwynedd ynghyd ag arwain y gwaith o ymestyn y Siarter ar draws siroedd y Gogledd ac yn Genedlaethol.
- Gweithredu'r Siarter Iaith Uwchradd yng Ngwynedd
- Parhau efo rhaglen hyfforddiant effeithiol er mwyn arfogi'r gweithlu i ddelio efo gwahanol sefyllfaoedd ieithyddol.
- Parhau i weithredu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Gweithredu argymhellion adroddiad Astudiaeth Alun Charles
- Canolfan Iaith Uwchradd - sicrhau fod pob ysgol yn gweithredu'r strategaeth ôl ofal yn gyson effeithiol.

## 4. CYNHWYSIAD CYMDEITHASOL

### PRESENOLDEB

**% presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd o'i gymharu â Chymru**

Yn y sector uwchradd, mae presenoldeb wedi cynyddu +0.5% ar ffigwr 2015 i 95.1%. Dros yr un cyfnod gwelwyd cynnydd cenedlaethol o +0.3% i 94.2%. Mae presenoldeb dysgwyr PYD hefyd wedi gwella +0.8% i 91.5% [cynnydd cenedlaethol o +0.5% dros yr un cyfnod i 90.2%]. Mae'r bwlch rhwng PYD/dim-PYD wedi gostwng am y bumed flwyddyn o'r bron i 4.0% [gostyngiad 2015>2016 o 0.2% yn genedlaethol i 4.8%]. O ran y sesiynau hanner-diwrnod a gollwyd, Gwynedd yw'r perfformiad gorau o blith holl awdurdodau Cymru. Mae safle Gwynedd [4/22] yn gadarnhaol hefyd o ran dosbarthiad ysgolion yn ôl chwarteli meincnodau cenedlaethol PYD. Nid oes unrhyw ysgol yn y chwartel isaf ac mae 50.0% yn y chwartel uchaf.

| Ysgol | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| Ardudwy | 93.21 | 94.28 | 94.9 | 94.56 |
| Brynrefail | 94.04 | 94.29 | 94.9 | 95.70 |
| Syr Hugh Owen | 91.89 | 93.48 | 94.1 | 94.32 |
| Tryfan | 93.4 | 94.21 | 94.3 | 94.83 |
| Dyffryn Ogwen | 93.04 | 94.45 | 94.6 | 94.90 |
| Botwnnog | 94.58 | 95.16 | 94.9 | 95.06 |
| Glan y Mor | 94.11 | 95.04 | 95.3 | 95.24 |
| Tywyn | 94.69 | 95.27 | 94.9 | 95.38 |
| Y Gader | 93.49 | 93.86 | 95.1 | 95.40 |
| Berwyn | 94.23 | 95.28 | 95.9 | 96.24 |
| Moelwyn | 94.11 | 95.01 | 93.8 | 95.22 |
| Eifionydd | 93.44 | 94 | 94.1 | 95.26 |
| Dyffryn Nantlle | 93.74 | 94.57 | 95 | 95.53 |
| Friars | 92.31 | 93.27 | 94.1 | 94.61 |

**% presenoldeb ysgolion cynradd Gwynedd o'i gymharu â Chymru**

Yn y sector cynradd, mae presenoldeb wedi cynyddu +0.4% ar ffigwr 2015 i 95.4 – Gweler Atodiad 2. Dros yr un cyfnod gwelwyd llithriad cenedlaethol o -0.1% i 94.9%. Mae presenoldeb dysgwyr PYD hefyd wedi gwella +0.4% i 93.6% [llithriad cenedlaethol o -0.2% dros yr un cyfnod i 92.7%]. Mae'r bwlch rhwng PYD/dim-PYD wedi aros yn gyson ar 2.1% [2.7% yn genedlaethol]. O ran y sesiynau hanner-diwrnod a gollwyd, mae Gwynedd yn safle 3 o blith holl awdurdodau Cymru. Mae safle Gwynedd [5/22] yn gadarnhaol hefyd o ran dosbarthiad ysgolion yn ôl chwarteli meincnodau cenedlaethol PYD.

### GWASANAETH LLES

Mae patrwm gwaith y gwasanaeth wedi parhau gyda ffocws clir ar bresenoldeb, prydlondeb a lles.

Canolbwyntiwyd yn benodol ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Cynradd ac Uwchradd - Anelu i sicrhau fod Gwynedd yn parhau i fod ymysg y siroedd sy'n perfformio orau mewn perthynas â phresenoldeb disgyblion.
- Gweithredu trefn gytunedig o dargedu presenoldeb disgyblion sy'n absennol yn rheolaidd.
- Defnydd o SIMS mewn ysgolion cynradd.
- Cyflwyno Polisi Presenoldeb a Phrydlondeb i'r sector gynradd.
- Darparu arweiniad cyfreithiol i'r ysgolion ynglŷn â chaniatáu a chofnodi "gwyliau teuluol" yn ystod tymor ysgol.
- Darparu arweiniad i ysgolion ynglyn a codau presenoldeb
- Erlyn - yn ystod y flwyddyn bu i'r gwasanaeth lles erlyn 5 teulu o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb. Bu i hyn arwain at ddirwyo'r teuluoedd hyd at uchafswm o £1,600.

**GWAHARDDIADAU**

**Uwchradd**

Mae nifer gwaharddiadau parhaol wedi gostwng i 2 yn ystod y flwyddyn addysgol 2015-16. Mae nifer o waharddiadau penodol wedi codi i 172 ac o ganlyniad mae'r nifer o ddyddiau o gollwyd o ganlyniad i waharddiadau wedi codi yn y sector uwchradd.

| | Parhaol | Penodol |
|---|---|---|
| 2006-07 | 27 | 238 |
| 2007-08 | 14 | 234 |
| 2008-09 | 2 | 302 |
| 2009-10 | 11 | 278 |
| 2010-11 | 8 | 206 |
| 2011-12 | 14 | 199 |
| 2012-13 | 4 | 84 |
| 2013-14 | 4 | 110 |
| 2014-15 | 3 | 132 |
| 2015-16 | 2 | 172 |

Yn ystod flwyddyn nesaf byddwn yn cychwyn darpariaeth o'r newydd ar gyfer cynnal disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol neu emosiynol dwys yng nghyfnod allweddol 3.

**Cynradd**

Nid oedd yr un gwaharddiad parhaol yn ystod y flwyddyn addysgol 2015-16. Mae nifer o waharddiadau penodol wedi codi i 104. Mae diffyg darpariaeth arbennigol yn ffactor yn y cynnydd yma.

| | Penodol | Parhaol |
|---|---|---|
| 2011-2012 | 32 | 0 |
| 2012-2013 | 36 | 0 |
| 2013-2014 | 27 | 0 |
| 2014-2015 | 83 | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| 2015-2016 | 104 | 0 |

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn cychwyn darpariaeth unedau arbenigol o fewn ysgolion er mwyn cynnal y disgyblion mwyaf dwys yn ymddygiadol ac yn emosiynol.

**CYNNAL YMDDYGIAD**

*Cynradd*

Mae dwy athrawes lawn amser o fewn y gwasanaeth cynnal ymddygiad a dau cymhorthydd sydd yn cynnig gwasanaeth ymestyn allan o dan oruchwyliaeth yr athrawon arbenigol.

Mae gwaith yr athrawon ac chymorthyddion yn deillio o gyfeiriadau i'r Fforwm Ymddygiad Cynradd. Cynigir ystod o gefnogaeth ar gyfer ysgolion sydd yn gymorth iddynt gynhwyso disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol ac emosiynol. Mae gwaith y cymorthyddion yn targedu'r plant tra bo gwaith yr athrawon yn cefnogi staff yr ysgol. Mae trefn cyfeirio, cofnodi ac adrodd nol i ysgolion yn weithredol ac yn llwyddiannus.

Mae'r Fforwm yn gofyn am adroddiadau gan yr asiantaethau perthnasol ar agweddau penodol o ddarpariaeth ysgol ac anghenion plant unigol.

Ar hyn o bryd, mae 115 ddisgyblion yn agored i'r tîm cynnal ymddygiad cynradd.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn sefydlu darpariaeth newydd ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion ymddygiadol mwyaf dwys o fewn ysgolion cynradd Gwynedd.

*Uwchradd*

Mae bron i £800,00 wedi ei ddatganoli i'r ysgolion uwchradd er mwyn cynnal y darpariaeth cynhwysiad yn yr ysgolion uwchradd. Cynhaliwyd adolygiad o ddefnydd yr ysgolion uwchradd o'r cyllid yma gan roi ffocws glir ar ddeilliannau'r gefnogaeth ychwanegol. Gwelwyd fod gan bron pob un o'r ysgolion weledigaeth glir o ran cynhwysiant. Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar gynnal disgyblion o fewn yr ysgolion ac o fewn y ddarpariaeth prif lif a sicrheir hyn drwy gyfleodd amgen a chefnogaeth i ddisgyblion.

Mae'r gostyngiad sylweddol mewn gwaharddiadau dros dro a pharhaol yn amlygu'n gryf y gwaith da mae pob ysgol Uwchradd yng Ngwynedd wedi gwneud ym maes ymddygiad. Mae'n ymddangos bod yr arian cynhwysiad wedi cael ei ddefnyddio er mwyn integreiddio y ddarpariaeth ar gyfer cynnal ymddygiad i fywyd yr ysgol.

**PECYN 25**

Mewn ymateb i'r angen am ddarpariaeth arbennig ar gyfer y disgyblion sydd wedi dadrithio'n llwyr o addysg erbyn neu yn ystod CA4 sefydlwyd y ddarpariaeth Pecyn 25 yn ystod tymor yr Gwanwyn 2016. Mewn cyd weithrediad ag Ysgol y Moelwyn llunnir pecynnau o ddarpariaeth fydd yn anelu i roi hyd at

uchafswm o 25 awr i bob disgybl. Mae pob disgybl yn derbyn gwersi craidd sydd yn targedu achrediadau TGAU. Yn ogystal mae profiad gwaith estynedig, mewnbwn therapiwtig, chwaraeon, gwaith ieuenctid ynghyd ac agweddau o addysg amgen yn rhan o'r pecyn.

Penodwyd 5 Swyddog Cynhwysiad Uwchradd ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm i'r disgyblion yma. Mae'r swyddogion yma yn sicrhau fod y disgyblion yn ymgysylltu'n llawn a'r pecynnau drwy weithredu fel gweithiwr allweddol ar eu cyfer.

Er mwyn cyd gordio'r mynediad i'r ddarpariaeth arbenigol a phecynnau 25, sefydlwyd Fforwm Mynediad er mwyn blaenoriaethu a sicrhau fod y gefnogaeth a gynigir yn addas ac effeithiol.

**Pecyn 25 Ysgol**

Yn ystod 2015/16, roedd *39* o ddisgyblion yn dilyn Pecyn 25 ysgol. Roedd nifer o ddisgyblion â chyfuniad o resymau dros cael eu cyfeirio at sylw'r pecyn 25 ysgol. Presenoldeb isel (*79%*) a phroblemau ymddygiad (*62%*) oedd y prif resymau dros gyfeirio.

Bu i *bob disgybl* eistedd arholiadau hyd at safon TGAU. Yn ogystal, bu i'r mwyafrif gwblhau cymwysterau lefel 1 neu lefel 2. Bu i *24* (64%) o ddisgyblion gyrraedd at TL1 (5 cymhwyster TGAU A - G). Bu i *1* (2.7%) dysgwr gyrraedd at TL2 (5 cymhwyster TGAU A – C). Mae *29* wedi ennill achrediad mewn TGAU Saesneg gyda *25* o ddysgwyr yn ennill Mathemateg TGAU. Bu i *23* ennill cymhwyster TGAU Cymraeg gyda *10* yn gwneud hyn drwy gwrs ail iaith. Bu i *9* ennill cymhwyster TGAU mewn Gwyddoniaeth gyda *12* dysgwr yn ennill BTEC Lefel 2 Gwyddoniaeth.

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Cymraeg TGAU** | 13 | 33% |
| **Cymraeg Ail IaithTGAU** | 10 | 26% |
| **Saesneg TGAU** | 29 | 74% |
| **Saesneg Llen** | 9 | 23% |
| **Mathemateg** | 25 | 64% |
| **Gwyddoniaeth TGAU** | 9 | 23% |
| **Gwyddoniaeth BTEC** | 12 | 31% |

Yn ychwanegol i'r pynciau craidd, bu i'r disgyblion ennill y cymwysterau TGAU canlynol.

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Addysg Gorfforol** | 3 | 8% |
| **Celf** | 8 | 21% |

| | | |
|---|---|---|
| **Daearyddiaeth** | 2 | 5% |
| **Dylunio a Thechnoleg** | 7 | 18% |
| **Iechyd a Gofal** | 1 | 3% |
| **Astudiaethau Crefyddol** | 3 | 8% |
| **Technoleg Gwybodaeth** | 1 | 3% |

Celf a Dylunio a Thechnoleg oedd y pynciau mwyaf poblogaidd gyda *5* dysgwr yn llwyddo i gael gradd *C* mewn Celf.

**Pecyn 25 llawn**

Roedd *12* o ddisgyblion ar y gofrestr yn dilyn eu derbyn ar becyn 25 llawn. Yr oedd *11* (92%) wedi eu cyfeirio yn sgil ymddygiad a fyddai wedi arwain at waharddiadau parhaol. Rhoddwyd *1* disgybl ar y pecyn oherwydd problemau presenoldeb yn unig.

Ni fu i *3* disgybl eistedd unrhyw arholiadau. Roedd y 3 yn gyn-disgyblion Llwybrau Ni - ni fu iddynt ymgysylltu yn eu pecynnau addysg. Mae un o'r disgyblion yma wedi ymgysylltu â'r pecyn eleni.

Bu i *9* (75%) eistedd arholiadau TGAU mewn 3 pwnc craidd.

Bu i 1 dysgwyr (8.3%) gyrraedd at TL1. Bu iddo ennill gradd C mewn Arlwyo, E mewn Addysg Gorfforol ac fe fu iddo gael BTEC Gwyddoniaeth lefel 2.

| | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| **Cymraeg TGAU** | 8 | 67% |
| **Cymraeg Ail IaithTGAU** | 1 | 8% |
| **Saesneg TGAU** | 7 | 58% |
| **Saesneg Llen** | 0 | 0% |
| **Mathemateg** | 8 | 67% |
| **Gwyddoniaeth TGAU** | 0 | 0% |
| **Gwyddoniaeth BTEC** | 1 | 8% |
| **Addysg Gorfforol** | 1 | 8% |
| **Arlwyo** | 1 | 8% |

Roedd *8* (67%) o ddysgwyr wedi ennill achrediad TGAU mewn Cymraeg a Mathemateg a *7* (57%) o ddysgwyr yn ennill Saesneg TGAU. Dim ond un dysgwr enillodd gymhwyster BTEC Lefel 2 Gwyddoniaeth.

Dim ond dau bwnc a gynigwyd oedd yn ychwanegol i'r pynciau craidd sef Addysg Gorfforol ac Arlwyo. Cynigwyd hyn mewn cydweithrediad ag Ysgol y Moelwyn.

Yn ystod cyfnod y disgyblion yma ar y pecyn, ni chafwyd yr un digwyddiad o gam ymddwyn a fyddai wedi arwain at waharddiad penodol neu barhaol.

**TRAC**

Mae'r Cynllun TRAC yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd wedi eu hadnabod fel risg o fod yn NEET (dim mewn addysg/hyfforddiant/gwaith) wrth adael addysg. Mae 151 o ddisgyblion wedi derbyn pecyn cefnogaeth gyda 195 o ddisgyblion newydd wedi eu hadnabod i dderbyn cefnogaeth am y flwyddyn nesaf. Mae Gweithiwr allweddol yn cydlynu rhaglen yn unol ag anghenion yr unigolyn.

Mae'r cynllun hwn wedi ei anelu at ddysgwyr ym mlynyddoedd 7-13 sydd wedi eu hadnabod fel y rhai sydd yn fwyaf agored i golli diddordeb mewn addysg. Mae'r pecyn yn un eang sydd yn cynnwys gwaith ataliol, cefnogaeth lles emosiynol, sesiynau iechyd, gweithgareddau awyr agored, cyfleodd i ddilyn achrediadau hyd at lefel 2,fframwaith o ddarparwyr y gellir comisiynu i arwain ar hyfforddiant.

Mae gan y gwasanaeth darged i weithio gydag isafswm o 480 o ddisgyblion dros gyfnod o dair blynedd gyda 72 ohonynt i dderbyn achrediadau o ganlyniad uniongyrchol o'r ddarpariaeth.

Mae Gyrfa Cymru yn bartner llawn yn y cynllun ac yn cynnal sesiynau wedi ei deilwrio i unigolion er paratoi at waith a chyrsiau coleg.

Cynnigr darpariaeth i'r unigolyn sydd ar gofrestr EOTAS y Sir ynghyd â disgyblion sydd ar Pecyn 25 er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu heithrio o unrhyw ddarpariaeth y bysant yn derbyn mewn addysg prif lif .

Sefydlwyd fforwm ar gyfer derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaeth a chyfeiriwyd 180 o ddisgyblion i sylw'r fforwm gyntaf.

Mae gan y dysgwyr hyn anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â'u problemau cymdeithasol, ymddygiad, anghenion addysg yn ogystal ag lles emosiynol ac iechyd meddwl. Trwy alluogi dysgwyr i gael mynediad at gefnogaeth a darpariaeth / rhaglenni amgen wedi eu teilwra, bydd TRAC yn ail-ennyn diddordeb ac yn ysgogi dysgwyr, cynyddu hyder a hunan-barch dysgwyr, a hybu dyheadau dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial o ran dysgu, ac felly leihau'r perygl iddynt ddod yn NEET.

**ADDYSG GARTREF PLANT SÂL**

Mae'r gwasanaeth addysg gartref plant sâl a chyfwerth a 1.8 o athrawon. Darperir addysg gartref ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol nad ydynt am sawl rheswm, yn gallu mynychu ysgol briodol. Mae un o'r athrawon yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth.

Sefydlwyd fforwm addysg gartref sydd yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor. Mae pob cais am addysg gartref yn cael eu cyfeirio at sylw'r fforwm. Mae cynllunio gofalus yr athrawes addysg gartref wedi arwain at i nifer o'r disgyblion integreiddio'n ôl i ysgolion prif lif ac arbennig y llwyddiannus.

Rhoddir sylw penodol i fonitro ansawdd y gwersi a grymuso'r trefniadau monitro / adolygu'r darpariaeth addysg gartref.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

Y camau nesaf:

Gwasanaeth Lles

- Parhau i wella lefelau presenoldeb
- Targedu ysgolion sydd yn parhau i dan-berfformio yn nhermau presenoldeb.
- Mireinio'r broses o erlyn rhieni am beidio sicrhau presenoldeb eu plant.

Cynnal Ymddygiad

- Cysoni natur cefnogaeth yn y gwahanol ardaloedd
- Sefydlu cylch hyfforddiant mewnol a blaenoriaethu amser ar gyfer hynny

TRAC

- Darparu rhaglen i'r disgyblion newydd sydd wedi eu hadnabod i dderbyn ymyrraeth TRAC.
- Mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn disgwyl am werthusiad er mwyn adnabod y ffordd ymlaen a'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun am ddwy flynedd.
- Darparu cwricwlwm amgen i ddisgyblion bregus/heb opsiynau CA3 a CA4
- Cyflwyno darparwyr fframwaith ychwanegol
- Datblygu'r berthynas hefo Gyrfa Cymru i ysgogi uchelgais economaidd yng Nghyfnod Allweddol 3.

**GWASANAETH CYFLAWNIAD LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (EMAS)**

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda ysgolion Gwynedd i gefnogi pobl ifanc sydd a Saesneg fel iaith ychwanegol i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i ysgolion er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd diffyg iaith ac o ganlyniad dealltwriaeth.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol.

Mae'r tim hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanethau EMAS/SIY ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys cyfarfodydd rhwng y cydlynwyr, sesiwn cymedroli a sesiwn HMS.

Cynnigr hyfforddiant i athrawon a chymorthyddion mewn ysgolion a sefydlwyd perthynas da rhwng yr Institute Confucius (Prifysgol Bangor) a'r ysgolion/Gwasanaeth.

Mae tystiolaeth glir bod rhai o'r plant wedi gwneud cynnydd da fel canlyniad mewnbwn y tîm

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Cryfhau ymhellach y dull cyfeirio at y Gwasanaeth
- Hyfforddi ysgolion

**DIOGELU**

Un o brif flaenoriaethau Cynllun Busnes yr Adran Addysg yw *'Adolygu trefniadau diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio ym maes addysg ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd'*.

Yn ystod 2016-17, rhoddwyd sylw penodol i'r agweddau a ganlyn:

- Adolygu'r polisïau enghreifftiol sydd ar gael i ysgolion yn y maes diogelu ac amddiffyn plant yng nghyd-destun datblygiadau cenedlaethol a chanllawiau' cadw'r dysgwyr yn ddiogel'
- Codi ymwybyddiaeth ym mhob agwedd o'r maes diogelu trwy hyfforddiant
- Parhau i gadw Hyfforddiant Lefel 1 a 2 yn gyfredol a thrwy hynny sicrhau fod cofnod Hyfforddiant diogelu i staff Addysg ar gael yn gorfforaethol
- Codi ymwybyddiaeth o effeithiau CSE ar blant drwy Hyfforddiant Lefel 2
- Sicrhau fod ysgolion yn paratoi yn fwriadus ar gyfer cyfarfodydd strategaeth a grwpiau craidd.
- Adolygu'r polisïau / trefniadau'r defnydd o Rym Rhesymol mewn ysgolion
- Codi ymwybyddiaeth o effeithiau Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB) ar blant drwy Hyfforddiant Lefel 2
- Bob Ysgol i dderbyn ymweliad Diogelu cyn arolwg.
- Gwella cyd-weithio gyda asiantaethau a gwasanaethau (iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'n gilydd, swyddogion lles) i drafod, monitro a chynllunio ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cyrraedd meini prawf Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Monitro a gwella ymarfer yr Adran yng nghyswllt diogelu (cyfeiriadau, adroddiadau blynyddol ayyb)
- Cyd-weithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i wella ymarfer yr Adran yng nghyswllt cynadleddau achos trwy fonitro pwy sy'n mynychu ac yn paratoi adroddiad i'w chyflwyno

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y Camau nesaf:**

- Cynnal awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion
- Parhau i wella ymarfer, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Parhau i gadw'r rhaglen hyfforddiant yn gyfredol i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol
- Gweithredu rhaglen waith yn unol â chasgliadau ac argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella

## 5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

**GWASANAETH SEICOLEG ADDYSGOL**

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol, lle bo'r anghenion yma yn effeithio ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm.

Nodir isod y prif flaenoriaethau yn 2016/17:

- Cysoni prosesau ar gyfer ymwneud gyda ADY Penodol– mesuryddion ac asesiadau safonedig perthnasol wedi eu sefydlu.
- Y Gwasanaeth yn cyfrannu at y broses Fforymau ADYaCH mewn rôl allweddol.
- Cydweithio agos wedi datblygu gyda Thimau eraill fewn y Gwasanaeth.
- Y Tîm wedi bod yn rhan o ddatblygiad Llwybr Asesu Niwroddatlygiadol (ASA ac ADHD).
- Datblygu Sgiliau o fewn y Tîm: Y Tîm wedi derbyn Hyfforddiant DPP mewn 'Cynllunio sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn' ac Asesiad ADOS.
- Cyfrannwyd at ddogfennaeth cenedlaethol ar Seicoleg Addysgol fel rhan o ddatblygiad y Bil ADY Diwygiedig.
- Cydweithiwyd yn agos a rhoddwyd arweiniad i Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl sydd ar Secondiad o wasanaeth CAMHS.

Yn ystod 2017/18 bydd y Gwasanaeth yn:

- Adolygu trefn dyrannu y gwasanaeth.
- Diffinio mesuryddion y Gwasanaeth mewn meysydd heblaw ADY Penodol, gan gydweithio gyda thimau eraill o fewn y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad ble mae'r angen.
- Datblygu'r defnydd o ddata o fewn y CDU ar gyfer mesur effeithiolrwydd y gwasanaeth.
- Parhau i ddatblygu cysondeb ar draws y Tîm.
- Arwain ar ddatblygu strategaeth hyfforddiant sydd yn Cyd-fynd ag anghenion y Strategaeth ADY a Chynhwysiad, a'r ddeddfwriaeth newydd.
- Cyd-weithio gyda'r ddau Awdurdod i sefydlu system ddata sydd yn addas i bwrpas er mwyn adrodd ar effeithiolrwydd y gwasanaeth.

**GWASANAETH ATHRAWON ARBENIGOL**

Mae newidiadau i'r timau athrawon arbenigol wedi cymryd lle.

Mae gwaith wedi ei wneud eisoes ar adnabod gwelliannau i'r gwasanaeth yn sgil yr adolygiad strategol ADY. Mae'r gwasanaeth wedi cyd weithio i lunio model gweithredu mwy effeithiol a chynaliadwy.

**NAM CLYW**

Yn ystod 2016/17, cynhaliwyd Fforwm Nam Clyw ar gyfer trafod achosion sydd yn agored i'r Tîm.

Mae Tîm wedi cymryd rhan mewn digwyddiad Cenedlaethol wedi ei drefnu gan is-grŵp Synhwyraidd er mwyn safoni'r defnydd o gategorïau NATSIP yn genedlaethol ac mae ail gategoreiddio wedi ei wneud o ganlyniad i hyn, ble roedd angen.

Gwelwyd gwelliant pendant yn nhrefniant y cyrsiau hyfforddi gan gyfeirio cymorthyddion i'r cyrsiau cywir.

Mae pecyn gwrando a sgiliau meddal wedi ei gwblhau yn ogystal â phecyn hyfforddiant i Benaethiaid a Chydlynwyr.

Cynhelir cyfarfod tîm yn aml i rannu arferion da a chysoni.

**NAM GOLWG**

Darperir gwasanaeth sydd yn sicrhau fod disgyblion dall a rhannol ddall (neu gydag anawsterau golwg eraill) yn cael eu haddysgu yn eu cynefin mewn ysgolion prif lif ochr yn ochr â'u cyfoedion o'r un gallu. Yn ogystal, sicrhau fod disgyblon anghenus (ysgolion arbennig) yn defnyddio eu golwg gweithredol yn llawn ac felly cyfoethogi eu bywyd yn sylweddol.

Yn ystod 2016/17, cynhaliwyd Fforwm Nam Golwg ar gyfer trafod achosion sydd yn agored i'r Tîm.

Bwriedir ffurfioli'r drefn o dderbyn cyfeiriadau newydd, ar ffurf CDU, i'r Fforwm yn hytrach na derbyn cyfeiriadau yn uniongyrchol o ysbytai i'r Tîm. Bydd angen cydweithio gydag Iechyd i wneud y newid yma yn hwylus. Bwriedir hefyd gwneud defnydd pellach o ddata o CDU er mwyn mesur effeithiolrwydd y Tîm.

Fel y Tîm Nam Clyw, mae'r Tîm wedi cymryd rhan mewn digwyddiad Cenedlaethol wedi ei drefnu gan is-grŵp Synhwyraidd er mwyn safoni'r defnydd o gategorïau NATSIP yn genedlaethol ac mae ail gategoreiddio wedi ei wneud o ganlyniad i hyn, ble roedd angen.

**TÎM CYFATHREBU A RHYNGWEITHIO**

Mae dwy athrawes gyfwerth a 1.8 llawn amser o fewn y gwasanaeth iaith a chyfathrebu, ac awtistiaeth. Fe adolygir gwaith yr athrawon arbenigol yn y Fforwm Cyfathrebu a Rhyngweithio unwaith bob hanner tymor. Mae llawer o gydweithio wedi datblygu rhwng yr Athrawon Arbenigol sydd yn gweithio yn y maes ASA a'r Maes iaith a chyfathrebu.

Mae'r Canolfannau Anhwylderau Iaith Penodol yn parhau i ddarparu dau ddiwrnod o gefnogaeth arbenigol i ddisgyblion sydd ag anhwylder iaith penodol o fewn 4 ysgol gynradd. Mae'r unedau wedi ymestyn i gynnig lleoliad i 12 o ddisgyblion yr un am y tro cyntaf eleni mewn ymateb i'r galw ar gychwyn y flwyddyn academaidd. Sefydlwyd fforwm iaith, cyfathrebu a rhyngweithio am y tro cyntaf yn ystod mis Hydref ac am y tro cyntaf ers sefydlu'r ddarpariaeth mae disgyblion wedi gadael y Canolfannau ar ddiwedd y tymor cyntaf.

Penodwyd 4 o uwch gymorthyddion anhwylderau iaith a chyfathrebu ar gyfer cefnogi disgyblion oedd yn gadael y Canolfannau Anhwylder Iaith Penodol neu'r Unedau ABC ar ddiwedd tymor yr haf. Adolygir anghenion y disgyblion sydd yn agored i'r gwasanaeth hwn ac mae trosiant o achosion yn cael ei sefydlu. Mae'r Tîm Uwch Gymorthyddion Ymestyn Allan Iaith a Chyfathrebu wedi rhoi mewnbwn i oddeutu 100 o blant yn ystod y flwyddyn ac mae'r ysgolion yn ymateb yn ffafriol i'r gwasanaeth hwn.

Mae'r gweithlu i gyd wedi mynychu hyfforddiant yn unol â'u hanghenion DPP yn ystod y flwyddyn.

Bellachm, mae'r Fforwm Cyfathrebu a Rhyngweithio Gwynedd wedi aeddfedu ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r Meini Prawf Mynediad a Gadael. Mae hyn hefyd wedi hwyluso trosglwyddiad disgyblion o'r Canolfanau Anhwylderau Iaith fel nad oes disgyblion yn aros yn y ddarpariaeth yn hirrach na sydd angen, ac yn gallu integreiddio yn ôl i'r prif lif yn amserol.

**ANGHENION MEDDYGOL A CORFFOROL**

Mae dwy athrawes yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion meddygol a chorfforol gan sicrhau eu bod yn cael cyfle cyfartal ac yn derbyn eu haddysg ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion lleol, a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

Mae'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd â Diabetes yn cael ei adolygu ar y cyd â Diabetes UK.

Mae'r Tim wedi hwyluso'r gwaith o drosglwyddo'r disgyblion sydd yn derbyn mewnbwn 3* Meddygol i Gynlluniau Datblygu Unigol trwy adolygu pob achos ar y cyd gyda ysgolion.

Mae cyswllt gweithredol gyda'r Nyrsys Diabetes wedi ei sefydlu, a'r nyrsys wedi mynychu Fforwm y Gwasanaeth.

Gwelwyd hefyd cynnydd yn y cydweithio gydag Ysgolion Arbennig ar gyfer rhannu strategaethau.

**GWYBYDDIAETH A DYSGU**

Mae'r Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth gydag athrawon, cymorthyddion rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill trwy roi arweiniad, adnoddau, cyngor a hyfforddiant priodol i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd a/neu rifedd. Mae cyfwerth â 9 o athrawon o fewn y gwasanaeth.

Ar gychwyn y flwyddyn academaidd, cynhaliwyd fforwm gwybyddiaeth a dysgu er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn darparu yn unol â'r meini prawf. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth i 268 o ddisgyblion. Mae sawl fforwm arall wedi eu cynnal ac mae'r ffigyrau wedi aros yn weddol gyson.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn rhoi ffocws ar hyfforddiant a thrwy hyn newid dull gweithredu'r gwasanaeth. Bydd hyn yn gam tuag at geisio newid cynaliadwy o fewn gweithlu ysgolion cynradd Gwynedd.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddatganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16 (Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol).

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Gwynedd Flwyddyn Academaidd** | 13/14 | 14/15 | 15/16 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 85 | 49 | 60 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 33 | 14 | 20 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>*h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi* | 18 | 20 | 13 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>*h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol* | 33 | 15 | 27 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>*h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA)* | 0 | 1 | 0 |
| O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 60% | 48.3% | 55% |
| O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos?<br>100% 95% | 95% | 100% | 100% |

Rydym yn cynhyrchu datganiad ar sail sawl adroddiad yn cynnwys adroddiadau meddygol. Mae'r rhai sydd yn 'hwyr gydag eithriad' yn hwyr oherwydd nad ydym wedi derbyn rhai o'r adroddiadau hyn mewn pryd.

Llynedd fe wnaethom dreialu defnyddio system Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer darparu cymorth i blant ifanc ag anghenion dwys a oedd yn trosglwyddo o'r Unedau ABC. Gan fod y drefn honno wedi bod yn llwyddiannus, dilynwyd yr un drefn eleni. Mae hyn yn ffordd hyblyg o ddarparu cymorth i unigolion anghenus yn y Blynyddoedd Cynnar, heb yr angen i Asesu yn Statudol.

## 6. Y STRATEGAETH AR GYFER TRAWSNEWID Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

Mae Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn yn y broses o weddnewid y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yng ngwyneb y newid deddfwriaethol arfaethedig gan Lywodraeth Cymru, ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori yn y gorffennol, mae gwaith pellach wedi cael ei wneud ar ddatblygu modelau/opsiynau ar gyfer y gwasanaeth newydd.

Nod y Strategaeth yw:

**'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'**

Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd 13eg o Fedi, 2016 a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys

Môn ar y 19eg o Fedi, 2016.  Yn ystod y cyfarfodydd cytunwyd i:

- Fabwysiadau un strategaeth ADYaCh gyffredin ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn;
- Ymuno mewn partneriaeth ffurfiol efo Cyngor Sir Ynys Môn i weithredu'r Strategaeth a mabwysiadu trefn llywodraethu newydd a fydd yn disodli'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig presennol;
- Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i gytuno a chwblhau Cytundeb ffurfiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y bartneriaeth;
- ac yn yr un modd, cytundeb/Memorandwm o Ddealltwriaeth yn y cyfnod interim er mwyn caniatau i ni weithredu er mwyn cyrraedd y pwynt yma.

O dderbyn y gymeradwyaeth, ymgynghorwyd yn ffurfiol efo'r gweithlu sydd yn cael eu heffeithio (Hydref 2016 ).  Derbyniwyd adborth gan y gweithlu ar y strategaeth a'r strwythurau staffio posib.

Ychwanegwyd manylder gweithredol i'r strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Amlygwyd yn glir nodau ac amcanion pob un o'r gwasanaethau o fewn y strategaeth ac fe gytunwyd ar strwythur staffio manwl ar gyfer ei gwireddu. Cytunwyd ar fodel llywodraethant ar y cyd a Chyngor Ynys Môn. Mae egwyddorion y strategaeth yn parhau i gynnwys sylw i'r blynyddoedd cynnar, sefydlu tîm canolog integredig o bobl broffesiynol gydag arbenigeddau penodol a gweithredu rhaglen hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2016-17**

**Y camau nesaf:**

- Gweithredu'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn llawn gan gyflawni gwell deilliannau i blant a phobl ifanc am gost sylweddol lai
- Gweithredu'r ail strwythuro o fewn y gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr
- Adolygu'r meini prawf
- Sefydlu is grwpiau i edrych ar y blynyddoedd cynnar, ôl 16 ac Ysgolion Arbennig.

## 7. <u>Y BLYNYDDOEDD CYNNAR</u>

Polisi'r Awdurdod yw cynnig lle meithrin rhan amser i blant yn eu hysgol dalgylch o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Gweithredir hyn ymhob ysgol ar draws y sir ac eithrio dwy [Llanbedr a Dyffryn Ardudwy]; yn achos yr ysgolion hyn nid oes adnoddau addas ar gael ar gyfer gallu cynnig darpariaeth meithrin.  Yn y mannau hyn mae'r Awdurdod, trwy'r Uned Blynyddoedd Cynnar, yn cydweithio â'r mudiadau gwirfoddol, Mudiad Meithrin a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru i sicrhau lleoedd meithrin di-dâl i'r plant.

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. O Fedi 2016 mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 66 lleoliad ar draws y sir. Rhydd yr Awdurdod grant

i'r darpariaethau hyn yn dymhorol. Ceir 29 lleoliad yn Arfon, 15 yn Nwyfor a 22 ym Meirionnydd sef lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod i ymateb i'r gofynion o gynnig addysg Feithrin i'r plant. Mae'r holl leoliadau, gan gynnwys y rhai gan y mudiadau gwirfoddol, yn cael eu monitro'n rheolaidd.

O ran arolygiadau Estyn cafwyd adborth cadarnhaol. Ar y cyfan, mae safon y ddarpariaeth yn cael ei sgorio yn dda gan Estyn – Gweler Atodiad 3.

Ceir tîm o athrawon cefnogi o fewn y cynllun Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg. Golyga hyn bod mwy o gefnogaeth i arweinwyr y cylchoedd a lleoliadau eraill i gyrraedd gofynion y fframwaith Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg.

Bydd Grŵp tasg angen ei sefydlu yn y cyfnod nesaf gan aelodau'r Grŵp Ansawdd Blynyddoedd Cynnar a'r Adran Addysg i weithio ar strwythurau pontio a throsglwyddo effeithiol o'r meithrin i'r ysgolion cynradd er mwyn cynnwys hyn yn y strategaeth ADY Gwynedd a Môn. Ceir strwythurau effeithiol o drosglwyddo plant o fewn y cynllun Dechrau'n Deg gyda chyfarfodydd bob hanner tymor ym mhob ardal Dechrau'n Deg.

Dros y cyfnod nesaf bydd Cyngor Gwynedd a Môn yn gweithio fel consortium i geisio gweithredu'r ymestyniad o ofal plant i blant 3 oed. Wrth wneud hyn bydd rhaid cydweithio a sicrhau gweithlu gofal plant safonol dwyieithog ar draws y ddwy Sir gan y Grŵp Ansawdd Blynyddoedd Cynnar yn y cyfnod diwethaf i weithredu'r gofal plant ychwanegol.

Nodir isod y prif feysydd a roddwyd sylw iddynt yn ystod 2016/17:

- Hyfforddi lleoliadau ar Y Proffil – Hydref 2016
- Parhau i gefnogi'r lleoliadau ar y Proffil yn dilyn yr hyfforddiant.
- Cyd- weithio'n draws sirol:
    - Cyd gynllunio dogfennau a hyfforddiant ar y Proffil
    - Cyd gynllunio a chynnig hyfforddiant ar y cynllunio newydd i'r lleoliadau,
    - Cyfarfodydd tymhorol.
- Anwytho a chynnig hyfforddiant mewnol i aelodau staff newydd o fewn yr adran
    - staff newydd wedi ymweld â lleoliadau i weld arfer dda,
    - staff newydd wedi cael eu monitro,
    - staff newydd wedi cael cysgodi a chyd ymweld â lleoliadau
    - Rhannu dogfennau, ADY, Estyn.
    - un o'r athrawon ar hyfforddiant Arolygwyr Cofrestredig Meithrin
    - dau aelod o'r tîm wedi mynychu cwrs ABC Does – 'Effective Outdoor Play in Early Years'
    - mynychodd y tîm hyfforddiant gan GwE ar y cymhwysedd Digidol yn y Cyfnod Sylfaen.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Adolygu'r rhestr lleoliadau o ran cefnogaeth y tîm.
- Pontio/trosglwyddo i'r ysgol leol.

- Adolygu'r trefniadau ADY o ran y Blynyddoedd Cynnar i gyfarch gofynion y ddeddf newydd.
- Defnyddio'r Proffil i symud plant ymlaen i'r cam nesa.
- Adolygu'r drefn o ran casglu tystiolaeth gan y lleoliadau h.y. proffil Cyfnod Sylfaen, ADY, presenoldeb a.y.b.
- Cydweithio gyda'r Adran Plant i brofi'r cynnig gofal plant 30 awr i blant 3 a 4 oed. Bydd angen modelu'r cynnig i gyd-fynd gyda'r addysg feithrin rhan amser am 10 awr a chydweithio gyda'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif
- Gweithredu'r buddsoddiad pellach o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar
- Adolygu'r trefniadau o ran y Cylchoedd Meithrin sydd wedi ei lleoli ar safle ysgolion - materion les, cynnal a chadw a.y.b.
- Hyfforddiant ar oblygiadau/gofynion arolwg ESTYN
- Blaenoriaethu cynhwysiant/hyfforddi ar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

## 8. TIM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae'r Tim Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg sy'n:

- Sicrhau amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- Gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol ac effeithlon.
- Sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr adran Addysg.

Nodir isod y prif brosiectau yn ystod 2016/17:

**Ysgol Hafon Lon**

Agorwyd Ysgol Hafod Lon, sy'n addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd, ar ol gwyliau hanner tymor yr Hydref 2016. Fe'i agorwyd yn swyddogol gan Alun Davies Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a Chadeirydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Eric M Jones ar 20 Ionawr 2017.

Mae'r ysgol sydd wedi ei lleoli ym Mhenrhyndeudraeth yn darparu lle ar gyfer hyd at 100 o blant ac mae'n cymryd lle'r cyn Ysgol Hafod Lon sydd wedi gwasanaethu cenedlaethau o blant o'i cyn-gartref yn Y Ffôr.

Ariannwyd yr ysgol gwerth £13 miliwn ar y cyd gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru trwy ei Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'r ysgol newydd sy'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn darparu addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor o Wynedd, gyda 84 o blant eisoes yn mynychu'r ysgol newydd.

Mae'r ysgol newydd yn cynnwys ystafelloedd dosbarth modern gyda'r adnoddau diweddaraf, yn ogystal â phwll hydro therapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd, ac ardal chwarae awyr agored a chyfleusterau dysgu yn o gystal ag uned breswyl ac egwyl fer. Mi fydd gardd a chaffi hefyd yn rhan o'r ysgol, gan ddarparu amgylchedd ar gyfer disgyblion hŷn i ddatblygu eu sgiliau menter a busnes.

**Ysgol Bro Idris**

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.

Bydd yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, rhannu adnoddau a gwella a chysoni ansawdd yr addysg ar draws y dalgylch. Golyga hefyd fuddsoddiad cyfalaf sylweddol o £4.3 miliwn i wella'r amgylchedd dysgu ar safleoedd penodol yn y dalgylch.

Mae strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd wedi ei gytuno a mwyafrif o swyddi rheolaethol, penaethiaid maes a safle wedi eu penodi. Mi fydd gweddill y swyddi dysgu, cymorthyddion, gweinyddol, gofalwr ac ategol yn cael eu penodi yn y misoedd nesaf.

Mae gwefan wedi ei datblygu ar gyfer yr ysgol newydd i gyfathrebu camau sefydlu'r ysgol gyda buddiolwyr.

Bydd yr ysgol ddilynol newydd yn agor ym mis Medi 2017.

**Ysgol Glancegin**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad o'r newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor. Nid yw amgylchedd dysgu'r ysgol yn addas, gan fod yr adeiladau presennol wedi cyrraedd diwedd eu hoes, ac mae eu cyflwr yn wael iawn. Yn 2015/16, cymeradwywyd yr achos busnes llawn gan Lywodraeth Cymru gyda phecyn ariannol o £5.11 miliwn yn ei le i alluogi gwireddu'r cynllun.

Bydd y cynllun newydd yma yn sicrhau gofod modern a phwrpasol er mwyn gwella amodau i athrawon a phlant. Yn ychwanegol i'r prosiect hwn, bwriedir ymchwilio i'r posibiliadau o ddatblygu canolfan integredig ar gyfer plant a theuluoedd ger safle'r ysgol newydd. Byddai'r ganolfan hon yn dwyn ynghyd rai o'r gwasanaethau hynny sy'n cefnogi plant a theuluoedd ar Stad Maesgeirchen, a rhoi sylw penodol i wasanaethau blynyddoedd cynnar a rhai sy'n ataliol eu natur.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo, a bydd adeilad yr ysgol newydd yn barod erbyn dechrau tymor yr Hydref 2017. Mae'r Awdurdod yn monitro ceisiadau mynediad i sicrhau bydd capasiti ddigonol ar gyfer y dalgylch.

**Dalgylch y Berwyn**

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Bydd y Campws yn adnodd cymunedol o'r radd flaenaf i'r ardal, ac yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Bydd yn arwain at fuddsoddiad o £10.27m yn nhref y Bala, gan wella yn sylweddol yr amgylchedd dysgu i blant yr ardal. Yn ogystal, bydd y campws yn cynnwys adnoddau cymunedol fel llyfrgell a darpariaeth gelfyddydol, ac adnoddau ychwanegol i wella'r ddarpariaeth chwaraeon.

Derbyniwyd caniatâd cynllunio i ddyluniad diweddaraf y Campws ym Mehefin a dechreuodd y contractwyr ar y safle ym mis Gorffennaf. Mae'r maes parcio newydd bellach wedi'i gwblhau ynghyd a'r rhan fwyaf o'r gwaith o ddymchwel adeiladau a gosod sylfeini ar gyfer y bloc hamdden a'r bloc cynradd.

Agorwyd cae 3G newydd y Bala ar yr 8fed o Hydref, a byddwn yn gweithio gydag ysgolion y dalgylch dros y misoedd nesaf i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r adnodd.

Mae'r amserlen ar gyfer cychwyn y broses o sefydlu'r Corff Llywodraethu Cysgodol a phenodi pennaeth ar gyfer y Campws wedi llithro yn sgil y drafodaeth a fu'n ddiweddar rhwng Cyngor Gwynedd a swyddogion Esgobaeth Llanelwy. Yn unol â phenderfyniad y Cabinet, a gyfarfu i drafod y prosiect ar 14 Chwefror 2017, penderfynwyd ymgynghori a chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reoli (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, yn unol ag adran 55(5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 - gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r Cabinet i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion ar y ffordd ymlaen.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

Datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol - bydd ei chyflawni yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc. Mae angen hefyd cynllunio a modelu ar gyfer strwythur i'r dyfodol gan roi sylw penodol ar gynllunio ar gyfer y trothwy nesaf o brosiectau cyfalaf y Llywodraeth. Manylir ar brosiectau'r rhaglen isod:

- **Prosiect Bangor -** Adolygu addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd.
- **Dalgylch Y Gader -** sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau. Cwblhau'r gwaith adeiladu gwerth £4.3miliwn ar safleoedd Rhydymain, Llanelltyd a Cynradd Dolgellau. Agor Ysgol Bro Idris ym Medi 2017
- **Ysgol Glancegin -** Cwblhau'r gwaith adeiladu gwerth £5.11miliwn. Trosglwyddo Ysgol Glancegin a'i disgyblion i'r adeilad newydd ym Medi 2017
- **Dalgylch Y Berwyn -** Cwblhau'r broses o sefydlu corff llywodraethol cysgodol y campws dysgu arfaethedig, ac yn bwrw ymlaen hefo gwaith y corff yn unol â'r prosesau arferol ar gyfer sefydlu ysgol newydd. Symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £10.27miliwn

## 9. <u>ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH</u>

Ar hyn o bryd, mae ansawdd addysg ysgolion Gwynedd yn dda iawn, ond mae penaethiaid ysgolion ac arbenigwyr addysg annibynnol wedi adnabod yr angen i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i sicrhau bod y llwyddiant presennol yn parhau. Maent wedi datgan yn glir fod risg sylweddol i safonau addysg yn ysgolion Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf os nad oes rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r model presennol.

Cefnogodd Cabinet Cyngor Gwynedd yr argymhelliad i ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar yr egwyddorion craidd a fydd yn gosod sylfeini ar gyfer sefydlu ‘Cyfundrefn Addysg Addas i Bwrpas i Wynedd’.

Roedd Cyngor Gwynedd yn awyddus i ddatblygu egwyddorion ar y cyd gyda’r proffesiwn, llywodraethwyr a rhieni fel y gallwn symud ymlaen gyda’n gilydd. O ganlyniad, cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw-heibio ar draws Gwynedd yn ystod tymor yr Hydref 2016 ar gyfer llywodraethwyr, rhieni a’r gymuned yn ehangach er mwyn iddynt bod yn rhan o’r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd.  Nodir isod y niferoedd a fynychodd y sesiynau yma:

| Sesiwn | Niferoedd a fynychodd | Holiaduron a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Dalgylchol | 372 | 321 |
| Aelodau Lleol | 18 | 14 |

Bydd swyddogion yr Adran Addysg yn dadansoddi’r holiaduron yma er mwyn datblygu ymhellach yr egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd.

Yn ystod 2016/17, adolygwyd strwythurau’r Adran Addysg gan greu strwythur ardal newydd a diffinio rôl ‘Swyddog Addysg Ardal’ er mwyn cydlynu’n well y gefnogaeth i’r ysgolion a’r holl wasanaethau cefnogol. Mae’r strwythur o Swyddfeydd Addysg Ardal effeithiol yn hyrwyddo’r model 'Ysgol Gwynedd' o gydweithio gan resymoli a rhannu’r gofynion rheolaethol gan ryddhau penaethiaid i arwain yn effeithiol.

Priod waith Swyddfa Addysg Ardal fydd, ar yr un llaw, rhesymoli a rhannu gofynion rheolaethol, gweinyddol a llywodraethol ysgolion o dan arweiniad Swyddog Busnes a Gwasanaethau, ac, ar y llaw arall, sicrhau y caiff strategaethau’r Adran Addysg ar gyfer gwella ysgolion eu gweithredu’n effeithiol a bod safonau cyrhaeddiad yn uwch drwy sianelu cefnogaeth, cyfarwyddiadau a her ar lefelau priodol drwy ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol yn yr ysgol, yn lleol ac yn sirol o dan arweiniad Swyddog Addysg Ardal.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Gweithredu cynllun datblygu arweinyddiaeth sy’n gwella amodau arweinyddiaeth ysgolion yng Ngwynedd
- Gosod cyfeiriad clir fydd yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a chodi safonau ein disgyblion
- Canfod ffyrdd o ysgafnhau baich rheolaeth a gweinyddu ysgolion er mwyn galluogi athrawon i ganolbwyntio yn bennaf ar ddysgu, a gwell amodau i benaethiaid i arwain addysg
- Datblygu arweinwyr i weithio ar draws ardal ddaearyddol ehangach a chael cyfrifoldebau ar draws ysgolion
- Sicrhau trefniadau lle bo’r awdurdod a chyrff llywodraethu yn ymyrryd ynghynt mewn ysgolion ble mae arweinyddiaeth yn peri pryder
- Sicrhau strwythur rheolaeth gydweithredol ar lefel dalgylch ac ardal a fydd yn rhyddhau amser i benaethiaid arwain yn effeithiol

- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol

## 10. CEFNOGI LLYWODRAETHWYR

Mae'r Uned Gefnogi Llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth i Benaethiaid, Llywodraethwyr, Clercod Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd. Darperir cefnogaeth i'r drefn gyfansoddiadol Llywodraethu Ysgolion a'r gofynion sydd ar yr Awdurdod Addysg Leol.

Nodir isod nodau ac amcanion y tîm:

- Cynorthwyo gyda threfniadaeth y rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr.
- Cynorthwyo ac annog Ysgolion i ddefnyddio Hunan Arfarniad (Cenedlaethol) ar gyfer Llywodraethu
- Paratoi deunyddiau hyfforddi a gohebiaeth i lywodraethwyr a phenaethiaid.
- Cynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr.
- Cynorthwyo Cyrff Llywodraethol i gyflawni eu rôl statudol.
- Sicrhau bod cofnodion holl gyfarfodydd y Cyrff Llywodraethol yn cael eu monitro a'u ffeilio'n electronig yn y modd priodol
- Monitro a sicrhau ansawdd cofnodion y corff llywodraethol
- Monitro bod ysgolion yn cynnal cyfarfod yn dymhorol
- Cefnogi Cyrff Cysgodol Ysgolion newydd

Yn ystod 2016/17:

- Cynigiwyd cyrsiau mandadol a chyrsiau sy'n annog arferion da i Lywodraethwyr e.e. Cyrsiau delio gyda Gormodedd.
- Anogwyd y defnydd o'r cyrsiau ar lein sydd wedi ei sefydlu ar y cyd a Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr Gogledd Cymru.
- Parhawyd i gynnig cyrsiau yn lleol yn ôl y gofyn i Lywodraethwyr
- Sicrhawyd fod y bas data Llywodraethwyr yn gyfredol fel bod modd cadw cofnod o holl lywodraethwyr pob ysgol yn gyfredol ynghyd a'u manylion swyddogaeth, DBS a chyrsiau.
- Addaswyd Swydd Ddisgrifiadau y Clerc Llywodraethu ar gyfer pob ysgol Medi 2016. Ymgymerodd staff yr Uned Gefnogi rôl Clerc Llywodraethu pan fo ysgolion yn methu cael Clercod. Er hynny, mae prinder Clercod yn gyffredinol ar draws y sir.
- Ffederasiwn Llywodraethwyr Gwynedd - Y Ffederasiwn yn parhau i gynnal un cyfarfod bob tymor.
- Annog Llywodraethwyr i ymateb i'r Ymgynghoriad ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- System gyfrifiadurol ar gyfer Hunan Arfarnu gwaith y Llywodraethwyr - Parhau i godi ymwybyddiaeth i'r Hunan Arfarnu gwaith y corff Llywodraethol gan ddefnyddio'r templed Cenedlaethol. Bydd angen i bob ysgol gynnal hunan arfarniad a'i gadw'n gyfredol. Bydd angen cynllun i greu system dechnolegol i gynnal yr hunan arfarniad ar draws y rhanbarth - Cwmni Cynnal yn dechrau datblygu'r system.

- System gyfrifiadurol ar gyfer cadw cofnod o Bolisïau a Chanllawiau rheolaethol Ysgol - Codi ymwybyddiaeth o'r angen am drefn o gadw cofnod manwl o ba Bolisïau a Chanllawiau rheoli ysgol sydd wedi eu mabwysiadu gan y Llywodraethwyr - Cwmni Cynnal yn dechrau datblygu'r system.
- Deddfwriaeth Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion - Disgwylir i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei chyhoeddi Mehefin 2017. Bydd newidiadau sylweddol i Lywodraethant ysgolion yn dilyn cyhoeddi'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd y gwaith o newid Offerynnau Llywodraethu yn digwydd rhwng 1/12/17 - 1/12/18.
    - Bydd angen trefn o weithio gydag ysgolion er mwy hwyluso'r gwaith o newid cyfansoddiad pob corff llywodraethol i fod yn unol â'r ddeddf newydd.
    - Bydd angen codi ymwybyddiaeth Penaethiaid, Clercod Llywodraethol a'r holl Lywodraethwyr i newidiadau i'r ddeddfwriaeth.
- Parhau i gynnal cyrsiau mandadol a chyrsiau angenrheidiol i Lywodraethwyr.

## 11. <u>IS ADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL</u>

**CONTRACTAU A CHYFLOGAU**

Mae'r Uned Contractau a Chyflogau yn darparu amryw o waith cefnogol i holl ysgolion y sir megis:

- Rhoi Cyngor ac arweiniad parthed telerau ac amgodau gwaith staff ysgolion i benaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion y sir yn brydlon ac i safon uchel.
- Prosesu Amserlenni ar gyfer tal.
- Creu cytundebau.
- Gwirio cefndir troseddol pob aelod o staff.
- Cynghori athrawon ynglŷn â'u pensiwn.
- Prosesu taliadau diswyddo.

Darperir y gwasanaeth gan 3 Cymhorthydd Gweinyddol o dan oruchwyliaeth Arweinydd Tîm. Maent yn gweithredu fel Tîm er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant i'r Gwasanaeth ond hefyd mae gan y 3 unigolyn Ardal benodedig er mwyn darparu cyswllt personol ac uniongyrchol.

Unwaith eto bu'r flwyddyn yma yn un anodd i'r Uned Contractau a Chyflogau oherwydd ansefydlogrwydd staffio. Serch hynny, mae'r tîm wedi cyd-weithio'n dda ac wedi cyrraedd sefyllfa ble mae pob aelod o staff dysgu wedi derbyn eu cytundeb o fewn yr amser priodol. Erbyn hyn, mae pob cymhorthydd y Sir hefyd wedi derbyn eu cytundebau a datganiad cyflogaeth. Mae'r Tîm hefyd wedi cyrraedd dyddiad cau'r gyflogres yn fisol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Parhau i gyd-weithio fel tîm ac i wneud yn siŵr fod ein staff yn parhau i dderbyn eu cyflogau a'i chontractau yn gywir ac o fewn yr amser cywir.
- Cyd-weithio gyda'r adain cyflogau a 'Ffordd Gwynedd' i symud ymlaen gyda'r system hunan wasanaeth.

**CLUDIANT**

Mae'r Tim Cludiant yn sicrhau fob disgybl sydd a hawl i gludiant yn derbyn cludiant am ddim a fod phob disgybl / myfyriwr dros 16 oed yn archebu tocyn tymhorol er mwyn teithio

Darperir cludiant ysgol o ansawdd uchel sydd yn cynnig gwerth am arian yn unol a pholisi cludiant yr Awdurdod a chanllawiau cludiant Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2016/17:

- Cyflwynwyd polisi cludiant16+ newydd (Medi2016)
- Cynyddwyd pris tocyn 16+ i £100 y tymor (Medi 2016)
- Cynhawyliad cyfarfod o'r Fforwm defnyddwyr cludiant 16+
- Sefyldwyd trefn i dalu am docynnau 16+ mewn rhandaliadau

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Cychwyn y broses ail dendro cytundebau yn gynt
- Sefydlu grŵp i ystyried ceisiadau cludiant sydd yn disgyn y tu allan i'r polisi arferol
- Trefnu cludiant i'r holl safleoedd Ysgol Bro Idris gan hysbysu rhieni disgyblion o'r trefniadau cludo newydd ar gyfer Medi 2017, cyn diwedd Tymor yr Haf.

**ARLWYO A GLANHAU**

Mae'r tim yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sydd yn cynnig gwerth am arian ac yn ymateb i anghenion ein cwsmeriaid.

Sicrheir safon arlwyo a glanhau cyson ymhob ysgol yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth .

Darperir bwydlenni sydd yn cyrraedd gofynion y Mesur Bwyd Llywodraeth Cymru ac sydd hefyd yn apelio at ein cwsmeriaid a pharheir i gadw safon glanhau ein ysgolion yn unol a'r gytundeb lefel gwasanaeth.

Nodweddion da:

- Ein bwydlenni yn cydymffurfio gyda Mesur Bwyd Llywodraeth Cymru
- Niferoedd bwyta yn parhau yn uchel
- 85% holl geginau gyda Sgôr 5 ar y drws

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Sicrhau bod niferoedd bwyta yn parhau yn uchel
- Sicrhau bod ysgolion yn ymdrechu i leihau dyledion arian cinio
- Gwireddu arbedion ariannol gyllideb glanhau ac arlwyo

- Cyflwyno system newydd i gasglu arian cinio Ysgolion Cynradd
- Penodi staff arlwyo a glanhau i holl safleoedd Ysgol Bro Idris
- Agor Ysgol Newydd Glancegin

**UNED GEFNOGI ADDYSG**

Prif amcanion y gwasanaeth yw cefnogi gweinyddiaeth effeithiol yn yr ysgolion cynradd sy'n deillio o'r cyfrifoldebau cynyddol ac ychwanegol ers dyfodiad rheolaeth leol.

Sicrheir bod penaethiaid a llywodraethwyr yn derbyn arweiniad a chefnogaeth ddigonol i gyflawni'r gofynion gweinyddol sydd arnynt tra ar yr un pryd sicrhau bod penaethiaid yn gallu canolbwyntio ar agweddau rheolaethol eu swyddi, a'r prif ddyletswyddau proffesiynol, sef sicrhau ansawdd profiadau'r disgyblion.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r elfennau hynny o weinyddiaeth ysgol na fyddai'n gost effeithiol i'r ysgol ei hun eu darparu a dylid edrych arno fel elfen gyflenwol i weinyddiaeth gyffredinol y sefydliad. Darperir y gwasanaeth gan y Gwasanaeth Ysgolion drwy'r Uned Gefnogi Addysg. Cyflogir Cymorthyddion SIMS wedi eu hyfforddi yn benodol ar gyfer cyflawni gofynion y Gwasanaeth o dan oruchwyliaeth Swyddog Gweinyddol. Maent yn gweithredu fel Uned er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant i'r Gwasanaeth ond hefyd bydd gan bob unigolyn glwstwr o ysgolion penodedig er mwyn darparu cyswllt personol ac uniongyrchol.

Cyflogir cyfieithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r ysgolion er mwyn iddynt gyfarfod â gofynion y Polisi Iaith a'r Comisiynydd Iaith.

Yn ystod 2016/17, mae'r Uned Gefnogi Addysg wedi gweithredu y CLG yn deg ac yn gyson i bob ysgol, drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol gan gyrraedd targedauyr amserlen waith.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

- Annog Clercod Llywodraethwyr/Penaethiaid i weithredu'n rheolaidd i ddanfon dogfennaeth llywodraethol i'r UGA.
- Fel adran ein bod yn cadw at lefel gwasanaeth i'r Ysgolion yn deg ac yn gyson i bob Ysgol, drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol.
- Sicrhau bod Penaethiaid yn danfon anfonebau i'w prosesu yn rheolaidd**.**
- Datblygiadau'r UGA yn symud yn ôl fel tair Swyddfa Ardal
- Datblygiadau System Swyddi Gwynedd - Recriwtio a Penodi i swyddi Ysgolion

## 12. <u>GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH</u>

**PARTNERIAETHAU STRATEGOL**

**Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cyhoeddus**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd wedi ei sefydlu dros ardaloedd Gwynedd a Môn fydd yn paratoi a chyhoeddi asesiadau manwl o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y cymunedau.

Prif gyfrifoldeb y Bwrdd yw gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus gan gynnwys y ddau gyngor lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio'n ffurfiol i gwrdd â disgwyliadau'r Ddeddf.

Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, bydd y Bwrdd yn paratoi a chyhoeddi asesiad manwl o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd a Môn.

Yn dilyn hyn, bydd disgwyl i'r Bwrdd, dros y blynyddoedd nesaf baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn fydd yn pennu amcanion lleol a chamau gweithredu er mwyn cyfarch yr amcanion hyn ynghŷd a chynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol.

**Dechrau'n Deg**

Bu i'r Cynllun Dechrau'n Deg cydweithio'n agos gyda'r Adran Addysg i bontio plant Dechrau'n Deg i'r ddarpariaeth addysg feithrin. Mae'r ymyrraeth gynnar yma yn rhoi'r sylfaen gorau i blant gan eu paratoi i fod yn fwy parod i'r ysgol gan weithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni, y plant a nifer o asiantaethau o fewn y blynyddoedd cynnar.

Er mwyn hwyluso'r pontio rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen mae'r ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn adlewyrchu athroniaeth ac addysgeg i'r Cyfnod Sylfaen

Mae sawl lleoliad Dechrau'n Deg wedi ei lleoli ar safleoedd ysgol gynradd, ynghyd â'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen fel yn Ysgol Glancegin a Maesincla. Mae'r lleoliadau Dechrau'n Deg a'r lleoliad Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n agos â'i gilydd ac yn rhannu arbenigedd yn ogystal ag offer ac adnoddau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r strategaeth yma yn caniatáu pontio di-dor o un math o leoliad i un arall sy'n helpu i baratoi'n briodol i drosglwyddo'r plant.

Mae'r Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen yn cynorthwyo i gynnal y ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg a'r Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen. Mae'r tîm yn cyd-drefnu hyfforddiant, hwyluso cyfarfodydd pontio a chynnig cyfleoedd rhwydweithio gyda staff Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen gan gydweithio'n agos gyda Seicolegwyr Addysg, Athrawon arbenigol, Cynllun Cyfeirio, Unedau Arsylwi Blynyddoedd Cynnar, Mudiad Meithrin a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru.

O ran plant Anghenion Dysgu Ychwanegol mae'r Adran Addysg yn cydweithio'n agos gyda'r Cynllun Cyfeirio, Dechrau'n Deg, Derwen a'r Bwrdd Iechyd o ran adnabod anghenion yn fuan. Mae cymorth ar gyfer pontio plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei gynllunio drwy baneli aml-asiantaethol amrywiol. Mae'r proffiliau unigol yn darparu gwybodaeth berthnasol i leoliadau Cyfnod Sylfaen am anghenion a sgiliau plentyn, gan alluogi ysgolion i baratoi ar gyfer camau nesaf y plentyn o ran ei addysg a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd.

**Ynys Môn**

Mae partneriaeth rhwng Gwynedd a Môn mewn nifer o feysydd (e.e. CBAAA a Cynnal). Mae cytundeb, bellach, i lunio Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar y cyd. Bydd hwn yn seiliedig ar ail fodelu a chryfhau'r bartneriaeth bresennol a chynnwys yr holl ystod o wasanaethau a darpariaethau.

**Partneriaeth Ddysgu Ôl-16 (Consortiwm Ôl-16)**

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner strategol mewn fframwaith Consortiwm sydd â throsolwg cyflawn o faes addysg ôl-16 ar draws siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Gan gynnwys Gwynedd, sy'n bartner arweiniol, (mae egin y syniad am bartneriaeth o'r fath yn deillio o gynllun strategol Cyngor Gwynedd 2014-2017), mae 3 phartner strategol cyflawn arall sef Cyngor Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai ac ysgolion uwchradd yr ardal sydd â 6ed dosbarth. Mae'r bartneriaeth hon yn caniatáu i benderfyniadau strategol lefel uchel gael eu gwneud ar bob agwedd sy'n effeithio ar addysg ôl-16.

Yn ogystal â sicrhau cysondeb, llwybrau clir ac ansawdd ragorol i'r dysgwyr gan osgoi unrhyw ddyblygu o ran darpariaeth a systemau mae'r fframwaith hefyd yn caniatáu rhannu'r gost o gyflogi staff i arwain ar, ac i weinyddu'r holl elfennau perthnasol.

Mae'r Consortiwm Ôl-16 yn gyfrifol am gynllun Prosiect Seren Llywodraeth Cymru sef cydweithio yn strategol gyda'r Ysgolion ôl-16 , Grŵp Llandrillo Menai a'r sector Addysg Uwch yng Nghymru a thu hwnt, er mwyn creu rhaglen o weithgareddau codi siliau ymgeisio ar gyfer prifysgolion gorau ym mysg dysgwyr mwy abl a talentog ôl-16 y ddwy sir. Derbyniwyd grant o'r Llywodraeth o £50,000 dros ddwy flynedd am y gwaith hwn.

Yn ychwanegol at yr uchod, ers 2015/2016 mae'r Consortiwm wedi dod yn gyfrifol am Rwydwaith Llwybrau Dysgu 14-19 sy'n rhaglen a weinyddir yn strategol ar draws siroedd y Gogledd ac sy'n gyfrifol, yn bennaf, am ddarpariaeth NEETs a chyrsiau galwedigaethol Lefel 1 a 2.

**Fframwaith Ymgysylltiad Pobl Ifanc**

Ers 2013 mae'r awdurdod wedi symud i sefydlu Grŵp Strategol y Fframwaith Ymgysylltiad Pobl Ifanc, sy'n tynnu ynghyd adrannau Addysg, Economi, Plant a Theuluoedd, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Lletya Pobl Ifanc ynghyd er mwyn sefydlu trefniadau cydlynu ac atebolrwydd ar gyfer y maes ymgysylltiad pobl ifanc. Mae Paneli Mynediad cyn 16 oed a Phanel Ymgysylltiad Ôl-16 wedi eu sefydlu yn y sir sy'n tynnu cynrychiolaeth o'r awdurdod, y sector wirfoddol, ysgolion, colegau a'r gwasanaeth iechyd ynghyd i gynllunio darpariaeth ar gyfer pobl ifanc fregus, sydd fwyaf mewn perygl o ddad-gysylltu o fyd addysg, hyfforddiant a/neu waith. Mae'r cydweithio strategol hwn wedi arwain at wella dealltwriaeth partneriaid o anghenion pobl ifanc, gwella ein dulliau o adnabod a thracio pobl ifanc sydd mewn perygl ac wedi cryfhau ein protocolau rhannu gwybodaeth er mwyn dod a'r canlyniad gorau i'r person ifanc. Mae'r Grŵp Strategol hefyd wedi arwain at dargedu adnoddau Ewropeaidd ar gyfer cynllun TRAC 11-19 oed ac Ad-Trac ar gyfer rhai 16-24 oed i sicrhau ymyraethau amlasiantaethol ar gyfer cefnogi pobl ifanc yn nol i addysg, hyfforddiant neu i waith.

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu ac yn arwain y Grŵp Rheolwyr Ymgysylltiad Pobl Ifanc Gogledd Cymru er mwyn rhannu adnoddau a hyrwyddo cydweithio ar draws awdurdodau o ran comisiynu darpariaeth; sefydlu systemau a gweithdrefnau; datblygu'r fframwaith ar draws y gogledd. Bydd y Grwp yn canolbwyntio ar agweddau ôl-16 y fframwaith i'r dyfodol.

Sicrhawyd adnoddau newydd trwy gydweithio ar draws awdurdodau'r gogledd. Lluniwyd ceisiadau cydweithredol llwyddiannus am grantiau Ewropeaidd e.e. TRAC 11-19 oed, a Cymunedau i Waith. Mae ceisiadau cydweithredol eraill yn yr arfaeth yn disgwyl eu cymeradwyo sef Ad-TRAC 16-24 oed a STEM Gogledd Cymru a Llwyddo'n Lleol y Gogledd Orllewin. Caiff y ddau gynllun olaf eu harwain a'u cydlynu gan yr awdurdod ar ran y partneriaid eraill.

**Gwasanaeth Ieuenctid**

Ar hyn o bryd mae yna:

- 42 o glybiau ieuenctid (2 ohonynt yn Glybiau Ieuenctid Derwen) ar draws y sir yn cynnig cyrsiau (Dug Caeredin), gweithgareddau (crefftau, chwaraeon), prosiectau (cynllun garddio, cynllun gwirfoddoli), tripiau (diwrnodau hwyl i Manceinion), digwyddiadau ( Noson wobrwyo, gwyl gelf), ennill cymwysterau ac achrediadau (cymorth cyntaf, gwobr John Muir).
- 130 o weithwyr ieuenctid (arweinyddion ac is-arweinyddion) yn y clybiau fel bod pobl ifanc yn gallu cael cyngor a gwybodaeth am faterion iechyd, rhyw, pryderon am dyfu fyny, materion adref gyda teulu neu ysgol.
- Bws Ieuenctid i ymweld gyda pentrefi sydd heb clwb
- 5 gweithiwr Ieuenctid a Chymuned yn cefnogi unigolion a grwpiau llai o bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith, neu mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ( ysgolion, cymuned, clybiau).
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhoi arian i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Sgowtiaid a'r Geidiaid sy'n golygu bod nifer o glybiau cymdeithasol / aelwydydd ar gael i bobl ifanc eu mynychu yn eu ysgol a, neu yn eu cymuned, i gymdeithasu.

Mae data Hynt gadawyr ysgol 2016 yn dangos lleihad sylweddol o ran y grŵp NEET (sydd ddim wedi ymgysylltu i addysg, hyfforddiant, gwaith) sef oddeutu 1% .Mae hyn yn hynod gadarnhaol ac o ganlyniad i waith ymestyn allan, cadw mewn cyswllt mae y Gweithwyr Ieuenctid ardal wedi ei wneud parthed targedu bobl ifanc bregus yr ardal a sicrhau bod cefnogaeth mewn lle.

Cyhoeddir data hynt disgyblion ysgol gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Defnyddir y data hwn ynghyd a chyfraddau hawlwyr budd-daliadau chwilio am waith fel y prif ddangosyddion ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu yng Ngwynedd:

| | **Gwynedd** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Haf 2013** | **Haf 2014** | **Haf 2015** | **Haf 2016** |
| Nifer o bobl ifanc 16/17 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (defnyddir data hynt disgyblion ysgol) | | 1.7% | 1.8% | 1% ( 13 o bobl ifanc) |

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2017-18**

**Y camau nesaf:**

**Partneriaeth Ddysgu Ôl-16 (Consortiwm Ôl-16)**

- Mae angen cryfhau'r bartneriaeth strategol efo GwE er mwyn sicrhau cysondeb mewn herio ansawdd ddarpariaeth ôl-16 ar draws y ddwy sir.

- Cydweithio efo bob partner er mwyn sicrhau cynllunio cwricwlwm sefydliadau / partneriaeth ardal / rhanbarth sydd yn bodloni anghenion yr economi lleol a rhanbarthol a cenedlaethol sydd yn hyfyw ac yn rhoi gwerth gorau am arian.

## 13. CYNLLUNIO, DARPARU ADNODDAU A SICRHAU ANSAWDD AR Y CYD

**GwE**

Mae ffocws penodol ar wella ansawdd arweinyddiaeth yng nghynlluniau busnes Yr Awdurdod a GwE. Mae hyfforddiant gorfodol ym meysydd arwain a rheoli, ac addysgu ac asesu wedi'i ddarparu i benaethiaid, gan osod gwaelodlin o ran disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol a thu hwnt.

**Adran Addysg**

Mae system cynllunio a rheoli perfformiad Adran Addysg Gwynedd yn helpu llywio cyfeiriad gwasanaethau eraill yr ALl a'r Consortiwm. Ceir tystiolaeth o hyn yn y ffordd y mae cynlluniau strategol lefel uchaf yn cysylltu â chynlluniau tîm manylach, gyda thargedau gwella mesuradwy penodol, ac â chynlluniau swyddogion unigol. Mae holl gynlluniau'r tîm addysg yn dilyn y patrwm hwn a rheolir eu perfformiad yn fanwl. Mae llinellau atebolrwydd clir yn bodoli rhwng yr holl lefelau cynllunio ar draws y Cyngor.

Mae hunan arfarnu wedi'i ymgorffori'n gryf yn niwylliant yr Adran Addysg. Mae ffocws cryf ar atebolrwydd ac adolygu parhaus a phwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau. Mae'r ffocws hwn ar arfarnu ac adolygu yn i arwain at welliant sylweddol.

Tarddodd y diwylliant hwn o arfer lwyddiannus o fewn gwasanaethau addysg. Rhaid i uwch swyddogion gyfiawnhau tanberfformio a nodi meysydd risg posibl gan gynnwys gorwario. Mae gwasanaethau'n dysgu o arfer dda ac mae llinellau atebolrwydd wedi'u diffinio'n glir.

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn gryfder pwysig yn yr Adran Addysg. Mae cynlluniau manwl ar sawl lefel o gynllun busnes y gwasanaeth trwy gynlluniau tîm a grŵp yn ymdrin â phob agwedd ar waith y gwasanaeth. Mae'r holl gynlluniau wedi enwebu swyddogion cyfrifol ac mae pob un ohonynt yn bwydo'n glir i gynllun busnes y gwasanaeth. Ceir trefniadau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu sy'n seiliedig ar y fframwaith hwn. Mae swyddogion yn adolygu eu cynlluniau yn chwarterol ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Mae'r adolygiadau hyn yn llywio'r arfarniad o'r cynllun busnes sy'n bwydo i'r arfarniad gwasanaeth chwarterol yn systematig fel bod trywydd clir o arfarniad timau i mewn i'r adolygiad corfforaethol. Wedyn, caiff blaenoriaethau newydd o'r adolygiad gwasanaeth eu hymgorffori'n gyflym mewn cynlluniau tîm.

Mae swyddogion yn deall yn dda beth yw eu cyfrifoldeb am welliant parhaus a'u hatebolrwydd am gynnydd yn eu meysydd. Mae rhannu cynlluniau ac arfarniadau mewn modd eglur yn dod â chydlyniad i dimau ac mae'n gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at ddarpariaeth gwasanaethau gwell a gwella safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion.

Mae swyddogion yn herio ysgolion sy'n tanberfformio yn dda ac mae'r awdurdod wedi defnyddio'i ystod lawn o bwerau statudol i ysgogi gwelliant lle bydd angen. Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn dda ag argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn o wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid.

**Partneriaeth Ddysgu Ôl-16 (Consortiwm Ôl-16)**

Mae'r Consortiwm Addysg Ôl-16 wedi ac yn gweithio efo pob ysgol gyda darpariaeth ôl 16 er mwyn herio'r ansawdd gyda chefnogaeth GwE.

Mae'r Consortiwm yn cydweithio efo Grŵp Llandrillo Menai / Coleg Meirion Dwyfor / Sgiliaith er mwyn datblygu adnoddau e-ddysgu fydd yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg mewn meysydd penodol galwedigaethol.

**Fframwaith Ymgysylltiad Pobl Ifanc**

Sicrhawyd adnoddau newydd trwy gydweithio ar draws awdurdodau'r gogledd. Lluniwyd ceisiadau cydweithredol llwyddiannus am grantiau Ewropeaidd e.e. TRAC 11-19 oed, a Chymunedau i Waith. Mae ceisiadau cydweithredol eraill yn yr arfaeth yn disgwyl eu cymeradwyo sef Ad-TRAC 16-24 oed a STEM Gogledd Cymru a Llwyddo'n Lleol y Gogledd Orllewin. Caiff y ddau gynllun olaf eu harwain a'u cydlynu gan yr awdurdod ar ran y partneriaid eraill.

## 14. RHEOLI ADNODDAU

Mae'r Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Ariannol yn rheolaidd ac wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol ynglŷn â nifer o ffactorau amrywiadwy gan gynnwys lefel debygol y Grant Cynnal Refeniw. Fel rhan o'r broses hon, ystyriodd y Cyngor briodoldeb ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau. Mae gan y Cyngor systemau rhagweld ariannol, pennu cyllidebau a rheoli effeithiol ar waith. Mae'r trefniadau rheoli cyllidebol yn seiliedig ar ganllawiau a threfniadau monitro manwl ar lefel swyddogion, aelodau a staff gweithredol.

Mae cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu datblygu ym mhob un o adrannau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau'n cynnwys disgrifiadau clir o ble y câi'r arbedion eu gwneud. Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer mesur ac olrhain arbedion wedi cael eu sefydlu.

**Gwariant cymharol Gwynedd ar Ysgolion 2016/17**
Mae lefel cyllido Gwynedd y 5ed uchaf drwy Gymru ar sail gros, a'r 4ydd uchaf ar sail net. Y llynedd roedd Gwynedd yn 4ydd ac yn 3ydd.

**Cynradd:**

- Mae cyllid fesul disgybl cynradd Gwynedd y 3ydd uchaf drwy Gymru ar sail gros a'r 2il uchaf drwy Gymru ar sail net. Llynedd roeddem yr 2il a'r uchaf ar y mesurau yn ôl eu trefn.
- Mae cymhareb disgyblion : athrawon Gwynedd yn y sector yma'r 6ed 'gorau' (h.y. isaf) ymysg 22 awdurdod Cymru. Mae hyn yn cymharu â 3ydd isaf llynedd.
- O fewn Gwynedd, mae'r darlun mewn ysgolion unigol yn gallu amrywio'n sylweddol oddi wrth y cyfartaledd sirol o £4,600 y disgybl (cyllid datganoledig). Mae tua 0.4% o'n disgyblion mewn ysgolion sy'n derbyn £9,300 y disgybl ar gyfartaledd (yr ysgolion lleiaf) tra bod tua 35% o'r disgyblion mewn ysgolion sy'n gwario oddeutu £4,100 y pen (ysgolion dros 200 disgybl).

**Uwchradd**

- Ar sail gros mae cyllid fesul disgybl uwchradd Gwynedd y 5ed uchaf drwy Gymru. O newid i sail net (sy'n gymhariaeth decach oherwydd effaith gwahanol batrwm ôl-16 ar y ffigyrau gros), mae safle Gwynedd yn newid i fod y 7fed uchaf. Mae hyn yn weddol debyg felly i sefyllfa 2015/16, pan oeddem y 6ed uchaf ar sail gros a net.
- Er hynny mae maint cyfartalog dosbarthiadau Gwynedd y 'gorau' (lleiaf) drwy Gymru.

**Arbennig**

- Mae cyllid fesul disgybl Gwynedd (cyllideb ysgolion) y 10fed uchaf drwy Gymru ar sail gros, a'r 9fed uchaf ar sail net. Yr un safle â llynedd ar y ddau fesur.
- Mae hyn yn rhoi darlun pur wahanol i ystadegau Llywodraeth Cymru, sy'n edrych ar y gyllideb ddatganoledig yn unig (lle'r ydym y 16eg uchaf).
- Mae gwahaniaethau sylweddol yn natur / graddfa'r ddarpariaeth a'r ffordd y cofnodir gwariant gan gynghorau yn ei gwneud yn anoddach dod i gasgliadau pendant am wariant cymharol yn y sector yma.
- Mae cymhareb disgybl : athro Gwynedd yn weddol ganolig; y 15fed isaf drwy Gymru.

**Casgliadau:**

- ➢ Mae'n debyg fod yna ddau ffactor sydd yn golygu fod gwariant fesul disgybl am amrywio ar draws Cymru – sef dwysedd poblogaeth (y ffaith fod darparu ysgolion mewn ardal fwy gwasgaredig am gostio mwy) ac amddifadedd (sef fod angen gwario mwy ar blant sydd o gefndiroedd difreintiedig os am gael yr un canlyniad).
- ➢ O ran dwysedd poblogaeth, Gwynedd yw'r ardal gyda'r dwysedd poblogaeth trydydd isaf yng Nghymru. O ran amddifadedd, ar sail y dangosyddion cydnabyddedig mae Gwynedd yn y 18fed safle.
- ➢ Felly byddem yn disgwyl i wariant y pen Gwynedd fod rywle rhwng y 3ydd a'r 18fed safle yng Nghymru.
- ➢ Ar sail hyn felly, mae'n ymddangos fod ein lefel gwariant yn y sector gynradd ar ben uchaf yr ystod disgwyliedig neu ychydig yn uwch na hynny.

- ➢ O ran y sector uwchradd, mae ein safle cymharol yn debyg i llynedd ac mae'n parhau i fod yn weddol uchel o fewn yr amrediad y byddem yn ei ddisgwyl.

- ➢ Mae safle cymharol ein hysgolion arbennig i'w weld yn eithaf canolig yng Nghymru (mae'n llai eglur faint o ddylanwad cymharol sydd gan deneurwydd poblogaeth ac amddifadedd ar yr angen i wario yn y sector yma).

**BLAENORIAETHAU AR GYFER 2016-17**

**Y camau nesaf:**

- Gwireddu cynlluniau arbedion/toriadau gan gynnwys trefniadaeth ysgolion
- Hyfforddiant cyllidol i ysgolion

Atodiad 1

## DATA AROLYGIADAU YSGOLION GWYNEDD ERS IONAWR 2015

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coedmawr | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Dolgellau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Bro Plenydd | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Tanygrisiau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Ffridd y Llyn | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Traeth | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanaelhaearn | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Llanrug | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanelltyd | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Beddgelert | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod>Allan o gategori |
| Hirael | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Morfa Nefyn | Cynradd | Hydref 2015 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Monitro Awdurdod>allan o gategori |
| Foelgron | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Garndolbenmaen | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Pont y Gof | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Cymerau | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Nefyn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Manod | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Llanllechid | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Craig y Deryn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Waunfawr | Cynradd | Haf 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Bro Cynfal | Cynradd | Haf 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn > |
| Cae Top | Cynradd | Haf 2016 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Bodfeurig | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Llanbedr | Cynradd | Hydref 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> |
| Maenofferen | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Rhiwlas | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Borth-y-Gest | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Penybryn, Tywyn | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Talysarn | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilynaint |
| Bro Hedd Wyn | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Bontnewydd | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |

Atodiad 1

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| Dyffryn Nantlle | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Gader | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Gwelliant Sylweddol> allan o gategori |
| Syr Hugh Owen | Uwchradd | Gwanwyn 2016 | Digonol | Da | Da | Digonol | Da | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Glan y Mor | Uwchradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |

| Enw / Name | 2015 - 2016 | |
|---|---|---|
| Ysgol Gwaun Gyfni | 95.78 | 1 |
| Ysgol Nefyn | 95.71 | 1 |
| Ysgol Llanrug | 95.32 | 3 |
| Ysgol Abererch | 96.28 | 2 |
| Ysgol Abersoch | 94.06 | 4 |
| Ysgol Beddgelert | 95.54 | 2 |
| Ysgol Bethel | 96.12 | 2 |
| Ysgol Bodfeurig | 95.22 | 4 |
| Ysgol Borth y Gest | 95.28 | 4 |
| Ysgol Brynaerau | 95.36 | 3 |
| Ysgol Y Gelli | 95.56 | 2 |
| Ysgol Penybryn | 95.62 | 2 |
| Ysgol Treferthyr | 95.17 | 4 |
| Ysgol Cwm y Glo | 94.26 | 4 |
| Ysgol Chwilog | 95.86 | 3 |
| Ysgol Crud y Werin | 94.28 | 4 |
| Ysgol Dolbadarn | 95.07 | 4 |
| Ysgol Edern | 95.79 | 2 |
| Ysgol Felinwnda | 96.15 | 1 |
| Ysgol Bro Plenydd | 96.50 | 1 |
| Ysgol Garndolbenmaen | 96.18 | 1 |
| Ysgol Glanadda | 94.80 | 2 |
| Ysgol Llanaelhaearn | 95.69 | 2 |
| Ysgol Llanbedrog | 95.19 | 3 |
| Ysgol Llangybi | 96.66 | 1 |
| Ysgol Llanllechid | 95.69 | 2 |
| Ysgol Llanllyfni | 95.20 | 2 |
| Ysgol Babanod Morfa Nefyn | 96.58 | 1 |
| Ysgol Baladeulyn | 95.64 | 1 |
| Ysgol Nebo | 96.10 | 1 |
| Ysgol Gym. Penisarwaun | 96.05 | 3 |
| Ysgol Bro Lleu | 95.56 | 2 |
| Ysgol Pentreuchaf | 96.11 | 1 |
| Ysgol Rhiwlas | 95.63 | 2 |
| Ysgol Rhosgadfan | 95.58 | 1 |
| Ysgol Rhostryfan | 94.95 | 3 |
| Ysgol Sarn Bach | 94.60 | 4 |
| Ysgol Eifion Wyn | 95.19 | 3 |
| Ysgol Talysarn | 95.33 | 1 |
| Ysgol Y Gorlan | 95.92 | 3 |
| Ysgol Yr Eifl | 95.39 | 3 |
| Ysgol Tudweiliog | 96.12 | 2 |
| Ysgol Waunfawr | 95.43 | 1 |
| Ysgol Glancegin | 94.63 | 1 |
| Ysgol Babanod Coedmawr | 94.84 | 1 |
| Ysgol Yr Hendre | 94.36 | 4 |
| Ysgol Bontnewydd | 95.64 | 3 |
| Ysgol y Garnedd | 95.51 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Cymerau | 95.01 | 2 |
| Ysgol Babanod Abercaseg | 95.42 | 1 |
| Ysgol Y Felinheli | 96.28 | 2 |
| Ysgol Bro Tegid | 95.85 | 2 |
| Ysgol Y Traeth | 94.60 | 4 |
| Ysgol Brithdir | 96.21 | 2 |
| Ysgol Dyffryn Dulas | 95.65 | 2 |
| Ysgol Dinas Mawddwy | 96.75 | 1 |
| Ysgol Dyffryn Ardudwy | 94.62 | 4 |
| Ysgol Bro Cynfal | 95.88 | 1 |
| Ysgol Ganllwyd | 96.29 | 2 |
| Ysgol Edmwnd Prys | 95.33 | 4 |
| Ysgol Llanbedr | 96.03 | 1 |
| Ysgol Llanelltyd | 95.42 | 4 |
| Ysgol Y Garreg | 95.66 | 3 |
| Ysgol O M Edwards | 96.85 | 1 |
| Ysgol Manod | 95.01 | 2 |
| Ysgol Pennal | 93.63 | 4 |
| Ysgol Cefn Coch | 95.14 | 3 |
| Ysgol Talsarnau | 95.67 | 3 |
| Ysgol Tanygrisiau | 95.10 | 2 |
| Ysgol Penybryn | 94.66 | 4 |
| Ysgol Bro Hedd Wyn | 97.05 | 1 |
| Ysgol Bro Tryweryn | 97.95 | 1 |
| Ysgol Ieuan Gwynedd | 96.11 | 2 |
| Ysgol Y Friog | 94.54 | 1 |
| Ysgol Tanycastell | 95.89 | 1 |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 96.04 | 3 |
| Ysgol Maenofferen | 95.86 | 1 |
| Ysgol Hirael | 94.75 | 2 |
| Ysgol Craig y Deryn | 95.67 | 2 |
| Ysgol Bro Llifon | 95.04 | 3 |
| Ysgol Pont y Gof | 96.91 | 1 |
| Ysgol Maesincla | 94.11 | 2 |
| Ysgol Y Faenol | 96.15 | 2 |
| Ysgol Foel Gron | 93.99 | 3 |
| Ysgol Llandygai | 95.28 | 2 |
| Ysgol Llandwrog | 96.25 | 2 |
| Ysgol Llanystumdwy | 93.77 | 4 |
| Ysgol Tregarth | 96.08 | 1 |
| Ysgol Cae Top | 95.62 | 2 |
| Ysgol Dolgellau | 95.38 | 3 |
| Ysgol Santes Helen | 93.32 | 4 |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 97.97 | 1 |
| Ysgol Beuno Sant | 95.51 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwynedd = | 95.44 | |

| AROLYGIADAU / INSPECTIONS | | |
|---|---|---|
| DARPARIAETHAU SYDD WEDI DERBYN AROLYGIAD GAN ESTYN: | | |
| DARPARIAETH / PROVISION | Perfformiad Presennol y Lleoliad / Current Performance | Rhagolygon Gwella'r Lleoliad / Improvement Projections |
| Cylch Meithrin Blaenau Ffestiniog | | |
| Cylch Meithrin Talybont / Llandygai | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Y Garnedd | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Seiont a Pheblig | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Carmel | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Hirael | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Caban Cegin | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Pwllheli | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Talysarn | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Llanrug | Da / Good | Rhagorol / Excellent |
| Cylch Meithrin Dinas | Da / Good | Da / Good |
| Meithrinfa Seren Fach | Da / Good | Rhagorol / Excellent |
| Cylch Meithrin Penygroes | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Y Gromlech | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Y Ffor | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Yr Eifl | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Y Felinheli | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Criccieth | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Twthill | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Beddgelert | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Corris | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Harlech | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Chwilog | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Gellilydan | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Merithrin Cefnfaes | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Bethel | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Bontnewydd | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Llanbedr | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Garndolbenmaen | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Deiniolen | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Coed Mawr | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Nefyn | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Porthmadog | Da / Good | Digonol / Satisfactory |
| Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Dolgellau | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Tywyn | Anfoddhaol / Unsatisfactory | Anfoddhaol / Unsatisfactory |
| Cylch Meithrin Trawsfynydd | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Talsarnau | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Llanuwchlyn | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Pentreuchaf | Da / Good | Digonol / Satisfactory |
| Cylch Meithrin Maesywaen | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Llanengan | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Maesincla | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Brynaerau | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Llanberis | Da / Good | Da / Good |
| Tir na Nog | Da / Good | Da / Good |
| Margaret Barnard Pre School | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Y Tonnau, Bermo | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Y Groeslon | Digonol / Satisfactory | Digonol / Satisfactory |
| Cylch Meithrin Llanllyfni | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Tregarth | Digonol / Satisfactory | Digonol / Satisfactory |
| Cylch Meithrin Y Bala | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Morfa Nefyn | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Waunfawr | Digonol / Satisfactory | Digonol |
| Cylch Meithrin Llanllechid | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Penrhosgarnedd | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Rhostryfan | Da / Good | Da / Good |
| Cylch Meithrin Llan-Ffestiniog | Da / Good | Da / Good |
| Meithrinfa Menai | Da / Good | Da / Good |

Eitem 6

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| Dyddiad | 16 Mawrth 2017 |
| Eitem | Adolygiad o Drefniadau Gweithredu GwE |
| Aelod Cabinet | Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg |

**Gweler adroddiad ynghlwm gyflwynwyd i Gyd-bwyllgor GwE ar 1 Chwefror 2017, er ystyriaeth gan yr Aelodau.**

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**01/02/2017**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Arweiniol a Rheolwr Gyfarwyddwr |
| **Pwnc:** | Adolygiad o Drefniadau Gweithredu GwE |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad a gomisiynwyd yn y cyfarfod ar 25 Tachwedd 2016 a chymeradwyo'r argymhellion gweithredu.

## 2.0 Cefndir

2.1 Bu i ymadawiad y Rheolwr Gyfarwyddwr blaenorol gynnig cyfle nid yn unig i ni adolygu effeithiolrwydd a chysondeb yr arfer bresennol o ran gwella ysgolion yn y rhanbarth, ond hefyd i ymchwilio i ba mor addas i bwrpas oedd trefniadau arwain a llywodraethu. Mae'n amlwg i'r Bwrdd Rheoli a Phrif Weithredwyr y rhanbarth fod cyfleoedd yma i rolau ac atebolrwydd mewn perthynas â gwella ysgolion a gwasanaethau addysg ehangach ar draws y rhanbarth yn well.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ym mis Tachwedd fe wnaethom ail-ymrwymo i gyflwyno gwelliannau yn ein hysgolion a mynd i'r afael ag argymhellion Estyn a SAC yn fanwl a chyflym. Fe wnaethom ymrwymo hefyd i adolygu'r arfer bresennol o ran gwella ysgolion, gyda ffocws penodol ar y cyfnod uwchradd, gan adnabod y meysydd allweddol yn ein harfer y mae angen mynd i'r afael â nhw fel rhanbarth. Mae adroddiad yr adolygiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

3.2 Mae'r adroddiad adolygu'n amlinellu pwysigrwydd symud tuag at fodel gweithredu diwygiedig er mwyn mynd i'r afael â gwendidau mewn darpariaeth a deilliannau yn y sector uwchradd. Nodir yr argymhellion mewn perthynas â hyn yn Atodiad 2.

3.3 Mae canfyddiadau'r adolygiad hefyd yn galluogi'r Cyd-bwyllgor i bwyso a mesur gan fynd ati i ailddiffinio cwmpas a chyfrifoldebau swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr wrth i ni ddechrau ar y broses recriwtio. Mae adroddiad ar wahân wedi'i gynnwys yn y rhaglen hon sy'n amlinellu'r broses benodi.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gefnogi:

- argymhellion yr adolygiad (yn Atodiad 1); ac
- y newidiadau i drefniadau gweithredu (Atodiad 2).

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Gellir cyflawni'r cynigion a wneir yn Atodiadau 1 a 2 yn defnyddio adnoddau presennol.

**6.0 Effaith o ran Cydraddoldeb**

6.1 Bydd unrhyw newidiadau i'r strwythur neu i fanylebau person yn amodol ar effaith ar gydraddoldeb a gwaith cydymffurfio.

**7.0 Goblygiadau ar Bersonél**

7.1 Bydd unrhyw waith cynllunio'r gweithlu neu dasgau newid strwythur yn amodol ar ymgynghori â'r gweithlu a'r protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd yn anffurfiol â Bwrdd Rheoli GwE, Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r bwriad i adrodd ar adolygu trefniadau a llywodraethu'r bartneriaeth wedi ei amlygui I'r Cyd Bwyllgor eisioes. Mae ystod o gamau yn yr argymhellaid a disgwylir y bydd agweddau yn dod gerbron y Cyd Bwyllor am sylw pellach. Gall rhai materion o'u datblygu olygu angen am gytundeb y cynghorau unigol ond disgwylir y bydd y llwybrau yma yn cael eu hamlygu wrth i'r adolygiad symud ymlaen.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae awdur yr adroddiad wedi mynegi na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i'r argymhellion hyn. Bydd y Cyd-bwyllgor hefyd yn dymuno gweld llywodraethu'n gwella, drwy sefydlu llinellau atebolrwydd clir rhwng y Rheolwr Gyfarwyddwr, y 6 Pennaeth Addysg a'r Cyd-bwyllgor. Dylai hyn arwain at well safonau a gwerth am arian i GwE.

**Atodiad 1**

**Adolygiad GwE**

## 1.0 Y Cyd-destun

Mae cyd-destun yr adolygiad hwn fel a ganlyn:
'Mae ymadawiad y Rheolwr Gyfarwyddwr presennol yn rhoi cyfle nid yn unig i ni adolygu effeithiolrwydd a chysondeb yr arfer bresennol o ran gwella ysgolion yn y rhanbarth, ond hefyd i ymchwilio i ba mor addas i bwrpas yw trefniadau arwain a llywodraethu. Mae'n amlwg i'r Bwrdd Rheoli a Phrif Weithredwyr y rhanbarth fod cyfleoedd yma i ddiffinio rolau ac atebolrwydd mewn perthynas â gwella ysgolion a gwasanaethau addysg ehangach ar draws y rhanbarth yn well.
Mae angen i drefniadau dros dro fod yn gadarn a chanolbwyntio ar gyflawni'r cynllun busnes rhanbarthol (yn cynnwys y CGOA), gan gyrraedd a rhagori ar y deilliannau a nodir ynddo.
Nododd y Bwrdd Rheoli'r argymhellion canlynol:

1. Dylid cynnal yr adolygiad yn syth a'i gwblhau ar fyrder. Bydd yr adolygiad yn rhoi darlun i'r Cyd-bwyllgor o gryfderau presennol a'r meysydd y mae angen eu gwella neu eu newid.
2. Bydd yr adolygiad, ynghyd â'r drafodaeth ranbarthol ar drefniadau cydweithio o fewn gwasanaethau cyhoeddus, yn cynorthwyo'r Cyd-bwyllgor i siapio rôl y RhG a'r Llywodraethu Addysg Rhanbarthol ar gyfer y dyfodol.
3. Yn amodol ar ganlyniadau'r trafodaethau uchod, dylid rhoi unrhyw drefniadau gweithredu neu benodiadau diwygiedig pellach ar waith cyn gynted â phosib. Byddai oedi'n golygu peryglu deilliannau arolygiad GwE yn Hydref 2017.

## 2.0 Prif Ganfyddiadau

Mae cefnogaeth gyffredinol ar draws Gogledd Cymru gan yr holl randdeiliaid i lwyddiant GwE fel sefydliad. Mae llawer yn gweld cyfle ar hyn o bryd i adolygu'r pwrpas craidd a diffinio gweledigaeth tymor canolig a thymor hir ar gyfer yr hyn y dylai GwE ei gyflawni ar gyfer ein hysgolion. Mae angen gwneud hyn mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, yn unigol neu fel grŵp, gan fod gormod o anghysondeb yn ansawdd y gefnogaeth a gynigir yn y gweithgareddau hynny nad ydynt wedi eu cynnwys yng nghylch gwaith GwE. Mae hyn yn atal gwaith GwE rhag cyflawni ei lawn botensial mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru.

Mae cyfeiriad strategol GwE yn aneglur. Nid yw'r cynllun busnes a'r strwythur sefydliadol cyfredol yn diwallu'r her bresennol i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth.

Mae'r strwythur atebolrwydd presennol ar lefel swyddogion yn aneglur. Mae diffyg eglurder a ffocws i'r rolau uwch o fewn GwE.

Mae gormod o anghysondeb hefyd ym mherfformiad awdurdodau unigol. Nid yw'r mwyafrif o Awdurdodau Lleol yn perfformio'n ddigon agos at eu safle PYD disgwyliedig yn gyson ar draws y cyfnodau allweddol o'u cymharu ag Awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Nid yw GwE wedi canolbwyntio'n ddigon cyson na chadarn ar godi safonau. Nid yw GwE ychwaith wedi eu dal yn ddigon atebol am godi safonau.

Nid yw safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigon da ar draws ystod o ddangosyddion allweddol yn y rhanbarth.

Mae asesiadau athrawon yn anghyson ar draws ysgolion ac Awdurdodau Lleol.

Nid oes strategaeth ranbarthol glir ar gyfer gweithio gyda'r Sector Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Nid yw'r cysylltiadau rhwng GwE a gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer ADY a Chynhwysiant wedi datblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau a sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiad Estyn wedi bod yn araf, ac nid yw'r cynnydd wedi cael ei fonitro'n ddigonol.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod ystod o faterion, yn bennaf yn ymwneud â systemau gweithredol a'r defnydd gorau o'r gyllideb. Cyfyngedig fu'r trafodaethau i ganfod datrysiadau ar gyfer codi safonau ar lefel ysgolion, yr Awdurdodau Lleol a'r Consortiwm.

## 3.0 Perfformiad

**Safleoedd PYD Awdurdodau Lleol 2016**

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn = 10 | Conwy = 8 | Sir y Fflint = 6 |
| Gwynedd = 4 | Sir Ddinbych = 14 | Wrecsam = 9 |

| Ynys Môn | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 87.8 | 7 | 83.6 | 9 | 53.8 | 14 |
| 2015 | 91.8 | 3 | 84.5 | 9 | 56.9 | 12 |
| 2016 | 89.4 | 9 | 87.6 | 7 | *58.5 (59.3) | 14 |

| Gwynedd | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 86 | 14 | 89.1 | 1 | 61.1 | 5 |
| 2015 | 89.5 | 6 | 91.3 | 1 | 63.3 | 5 |
| 2016 | 89.8 | 7 | 92 | 2 | *65.9 (69.0) | 4 |


| Conwy | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 84.3 | 17 | 83.7 | 8 | 55.5 | 11 |
| 2015 | 85.8 | 19 | 87.2 | 6 | 54.2 | 18 |
| 2016 | 86.8 | 20 | 87.3 | 9 | *55.9 (56.0) | 17 |

| Denbighshire | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 86.6 | 10 | 83.2 | 10 | 55.6 | 10 |
| 2015 | 87.9 | 12 | 84.3 | 12 | 56.1 | 14 |
| 2016 | 88.6 | 14 | 86.4 | 12 | *58.6 (60.9) | 13 |

| Flintshire | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 86.1 | 13 | 84.3 | 5 | 61.9 | 3 |
| 2015 | 87.9 | 11 | 87.1 | 7 | 60.6 | 8 |
| 2016 | 90.1 | 5 | 88.4 | 6 | *61.2 (61.7) | 10 |

| Wrexham | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 84.2 | 19 | 78.4 | 16 | 51 | 18 |
| 2015 | 87.7 | 14 | 80.9 | 19 | 52.1 | 20 |
| 2016 | 87.7 | 18 | 84.3 | 16 | *55.3 (55.4) | 18 |

Nid yw safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigon da ar draws y rhanbarth ar draws ystod o ddangosyddion allweddol. Mae gormod o ysgolion uwchradd yn perfformio islaw'r lefel ddisgwyliedig. Mae cynnydd wedi bod yn araf o'i gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru.




| | 2014 | | | | | 2015 | | | | | 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | L2+ | L1 | L2 | CPS | 5A*-A | L2+ | L1 | L2 | CPS | 5A*-A | L2+ | L1 | L2 | CPS | 5A*-A |
| Anglesey (10) | 14 | 6 | 9 | 3 | 10 | 12 | 8 | 16 | 9 | 13 | 14 | 5 | 15 | 11 | 10 |
| Gwynedd (4) | 5 | 1 | 4 | 1 | 2 | 5 | 1 | 6 | 1 | 3 | 4 | 1 | 9 | 4 | 8 |
| Conwy (8) | 11 | 8 | 8 | 11 | 8 | 18 | 14 | 14 | 17 | 16 | 17 | 17 | 16 | 17 | 19 |
| Denbighshire (14) | 10 | 11 | 2 | 5 | 9 | 14 | 17 | 10 | 11 | 8 | 13 | 20 | 14 | 16 | 14 |
| Flintshire (6) | 3 | 14 | 15 | 13 | 19 | 8 | 18 | 15 | 15 | 15 | 10 | 13 | 17 | 15 | 12 |
| Wrexham (9) | 18 | 21 | 21 | 20 | 20 | 20 | 20 | 22 | 21 | 20 | 18 | 19 | 21 | 18 | 20 |

## 4.0 Arolygiad

Yn dilyn arolygiad Estyn o'r gwasanaeth yn nhymor y gwanwyn 2016, barnwyd bod pump o'r dangosyddion allweddol yn ddigonol, a gwerth am arian yn anfoddhaol. Mae cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn wedi bod yn araf, ac nid yw cynnydd wedi cael ei fonitro'n ddigonol.

## 5.0 Arweinyddiaeth a Darpariaeth

Dros y tair blynedd diwethaf mae perthynas GwE gydag ysgolion wedi gwella wrth i'r sefydliad sicrhau gwell cydbwysedd rhwng yr angen i gefnogi a herio ysgolion. Mae'r her a'r gefnogaeth i ysgolion cynradd yn gyffredinol dda, ac mae mynediad i raglenni hyfforddi a datblygu wedi gwella ac yn fwy eglur bellach.

Yn gyffredinol, mae'r sector cynradd yn mynd o nerth i nerth o ganlyniad i ddau brif ffactor:

- Mae cydbwysedd 80:20 y Model Cenedlaethol a weithredir gan GwE yn sylweddol o blaid y sector cynradd.
- Mae cryn dipyn mwy o brofiad a hanes o lwyddiant ar lefel uwch arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd ymysg aelodau'r tîm.

Mae proffil arolygu Estyn yn gyffredinol dda, yn enwedig yn y sector cynradd.

Fodd bynnag, mae'r darlun yn wahanol yn y sector uwchradd. Oherwydd y model cymhwysedd 80:20 sy'n weithredol ar hyn o bryd, a'r anawsterau wrth recriwtio swyddogion llawn amser o ansawdd, mae'r diffyg mynediad at Ymgynghorwyr Her uwchradd effeithiol yn parhau. Mae hyn yn arbennig o bryderus mewn meysydd blaenoriaeth megis arweinyddiaeth ar wahanol lefelau, Mathemateg a Saesneg. Mae'r diffyg capasiti yn y sector uwchradd yn rhwystro gallu GwE i gael effaith yn syth.

Ar hyn o bryd, mae Ymgynghorwyr Her yn teimlo fod y model gweithredu presennol yn cyfyngu eu rolau'n ormodol. Cysegrir gormod o'u hamser i rôl gyffredinol yr ymgynghorydd her wrth iddynt weithio'n bennaf ar gategoreiddio ysgolion. O ganlyniad, nid yw Ymgynghorwyr Her yn cynnig arweiniad strategol ar faterion addysgo, rhywbeth a fyddai o fudd wrth gyflawni blaenoriaethau'r Consortiwm a'r Awdurdodau Lleol unigol. O'r herwydd, nid ydynt yn cael eu datblygu'n ddigonol, yn unigol nac ar y cyd, ac ni wneir y defnydd gorau o'u harbenigeddau i arwain ar faterion addysgol ar draws yr hybiau a'r rhanbarth.

Mae gwybodaeth drylwyr o arweinyddiaeth mewn ysgolion wedi datblygu'n dda dros amser. Y Broses Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, teimlir fwyfwy bod y broses yn or-llafurus, ac y byddai'n well treulio'r amser hwn yn cyflawni gwelliannau yn hytrach na dilysu gwybodaeth y mae'r ysgolion a GwE eisoes yn ymwybodol ohoni. Mae rôl GwE wrth benodi i swyddi uwch mewn ysgolion yn aneglur. Dylid egluro rôl GwE mewn partneriaeth â'r ALl er mwyn sicrhau fod y penodiadau'n effeithiol. Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth ranbarthol gydlynol ar waith ar gyfer datblygu perthnasau gwaith gyda Chyrff Llywodraethu a Byrddau Rheoli.

Nid oes strategaeth ranbarthol glir ar gyfer gweithio gyda'r Sector Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Nid yw'r cysylltiadau rhwng GwE a gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer ADY a Chynhwysiant wedi datblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau a sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Byddai cyflwyno amryw ddeddfwriaethau newydd yn mynnu cydweithio agosach a dull rhanbarthol mwy cyson yn y maes hwn.

Yn gyffredinol, mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng holl arweinwyr yr hybiau a'r Awdurdodau Lleol unigol. Mae'r model Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth a dirprwy yn gyffredinol effeithiol ac yn cynnig cydbwysedd da ym mhob hwb. Bellach, mae llif gwell o ran cyfnewid gwybodaeth, ac yn yr achosion gorau ceir dealltwriaeth eglur o rolau'r naill a'r llall wrth yrru'r agenda gwella. Gall cyfarfodydd ar gyfer dod o hyd i'r datrysiad gorau fod yn heriol, ond mae cadernid y ddeialog a chydberchnogaeth o'r agenda gwella yn sicrhau llwyddiant yn yr enghreifftiau gorau.

Mae enghreifftiau o arfer dda yn bodoli ym mhob hwb, ond ni chaiff yr arfer hon ei rhannu'n effeithiol ar draws y Rhanbarth. O'r herwydd, mae gormod o amrywioldeb yn yr hyn y gall GwE ei gynnig i ysgolion, yn dibynnu ar eu lleoliad daearyddol a sgiliau sylfaenol staff. Mae'r Bwrdd/Rhwydwaith Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol yn dechrau sicrhau cysondeb rhanbarthol i'r arfer ym mhob hwb unigol drwy adnabod a rhannu arfer dda ar draws y Rhanbarth.

Mae cynlluniau unigol yr Awdurdodau Lleol, a gyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Atodiadau, wedi gwella. Nodir cryn dipyn mwy o fanylion ynghylch y broses o wella'r meysydd a nodwyd ar y cyd, hyd yn oed ar lefel ysgolion unigol. Mae hyn wedi cryfhau'r ffocws mewn cyfarfodydd monitro ac wedi sicrhau atebolrwydd cryfach am gyflawni ymysg ymgynghorwyr her unigol. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach ar y broses fonitro er mwyn sicrhau dull cyson ar draws y Rhanbarth.

Mae'r dull craffu wedi aeddfedu ar draws y Rhanbarth. Mae gan aelodau craffu lleol well dealltwriaeth o bwrpas ac amcanion GwE. Yn yr enghreifftiau gorau mae aelodau'r pwyllgorau craffu'n ymweld ag ysgolion i ganfod eu barnau am ba mor dda yw'r gefnogaeth a'r her a gynigir gan GwE i ysgolion. Maent yna wedi adrodd ar eu canfyddiadau yn y pwyllgor a chynnal cyfarfod tair-ochrog gydag arweinydd hwb GwE a swyddogion ALl er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Yn dilyn hyn, bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni wrth i aelodau gysgodi ymgynghorwyr her GwE yn eu swyddogaethau amrywiol i ddyfnhau eu dealltwriaeth ymhellach. Mae dealltwriaeth aelodau craffu o safonau mewn ysgolion ac o ddarpariaeth GwE yn eu hysgolion wedi datblygu o ganlyniad i adroddiadau manwl gan Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth. Mae presenoldeb yr Uwch Ymgynghorwyr yn y cyfarfodydd hyn wedi bod o gymorth wrth fynd i'r afael â chanfyddiadau ac wrth ddatrys unrhyw faterion a nodir gan aelodau, ac wedi helpu i reoli disgwyliadau lleol drwy egluro eu rôl yn fanwl.

Mae diffyg eglurder a ffocws i'r rolau uwch. Mae cyfeiriad strategol GwE yn aneglur. Nid yw'r cynllun busnes cyfredol yn diwallu'r her bresennol i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth. Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad y gwasanaeth a monitro'r gyllideb weithredol yn hynod annatblygedig, ac nid ydynt yn dwyn unigolion, deiliaid blaenoriaethau'r gwasanaeth na'r Awdurdodau Lleol i gyfrif am eu perfformiad. O ganlyniad, nid oes dull o adnabod gwerth am arian.

Mae'r strwythur atebolrwydd presennol ar lefel swyddogion yn aneglur. Mae diffyg eglurder a ffocws i'r rolau uwch o fewn GwE. Mae'n aneglur pa swyddog sydd â'r rôl arweiniol mewn perthynas ag atebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor. Mae gan y Prif Weithredwr Arweiniol, y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr eu rolau, ond nid ydynt wedi eu gwahaniaethu ddigon o ran gweithredu o ddydd i ddydd. Mae hyn yn arwain at nifer o faterion, yn cynnwys anawsterau wrth sicrhau un pwynt cyswllt gyda Llywodraeth Cymru a diffyg eglurder o ran sut y gall Cyfarwyddwyr eraill chwarae rhan weithredol wrth siapio a datblygu'r cyfeiriad rhwng cyfarfodydd.

Nid yw'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn eglur. Mae angen llawer o waith i sicrhau bod datblygiadau cenedlaethol yn y dyfodol yn cefnogi blaenoriaethau lleol. Mae angen sicrhau darlun mwy eglur hefyd o daith pob ysgol unigol wrth baratoi ar gyfer heriau Cymwys am Oes.

Mewn Cyfarfod Bwrdd diweddar yng Nghaerdydd, awgrymodd Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru ei fod wedi trafod yr angen i adolygu'r model cenedlaethol ymhellach gyda swyddogion CLlLC. Byddai'r adolygiad newydd hwn yn cynnwys edrych ar ymestyn y Model Cenedlaethol i gynnwys lles a chydraddoldeb. Gallai hyn gynnwys elfennau pellach o'r gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant sy'n bodoli ar hyn o bryd yn yr Awdurdodau Lleol.

## 6.0 Swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr

Ers sefydlu GwE yn 2013, bu cynnydd sylweddol yn y disgwyliadau ynghlwm â rôl y Rheolwr Gyfarwyddwr. Fel y nodir uchod, mae adolygiad pellach o'r Model Cenedlaethol ar y gweill, ac mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu ystod y cyfrifoldebau ymhellach fyth i gynnwys Lles, Cydraddoldeb ac o bosib Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn ogystal, bu gostyngiad sylweddol yn ystod yr un cyfnod yng ngweithlu addysg yr Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, mae diffyg eglurder mewn perthynas â rolau'r Consortiwm a'r ALl. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi ei chael hi'n anodd gweithio gyda GwE ar rai materion megis mynd i'r afael â staff sy'n tanberfformio mewn ysgolion. Yn ogystal, gan nad yw safonau yn y dangosyddion allweddol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigon da ym mhedwar o'r chwech ALl, a chyda'r diffyg

capasiti, mae perygl difrifol na fydd rhai o'r Awdurdodau Lleol hyn mewn sefyllfa gref i wynebu arolygiad pan fydd Estyn yn dechrau ar y cylch nesaf o arolygiadau ALl.

Wrth hysbysebu swydd y RhG, mae gan y Cyd-bwyllgor opsiynau i'w hystyried:

- Hysbysebu swydd sy'n cyfateb i'r swydd flaenorol, gan gymryd y cynnydd mewn disgwyliadau ers 2013 i ystyriaeth;
- Hysbysebu swydd sy'n cynnwys y swyddogaethau presennol yn ogystal â'r angen i allu rheoli gwasanaethau ychwanegol megis elfennau o ADY a chynhwysiant;
- Hysbysebu swydd sy'n rheoli gwasanaethau Addysg yn eu cyfanrwydd ar sail Consortiwm.

O ystyried y sefyllfa bresennol mewn perthynas â safonau ar draws y rhanbarth, gan gadw mewn cof y sefyllfa o ran safonau a gwelliant yn erbyn Cynllun Ôl-arolygiad Estyn a diddordeb Llywodraeth Cymru yn ymrwymiad y rhanbarth i wasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, awgrymir y dylid hysbysebu swydd ar sail gyfatebol [gan gynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol a gyflawnir ers 2013]. Yn y cyd-destun hwn, awgrymir hefyd y dylid cadw'r tâl ar y lefel bresennol [er mwyn cadw'r cysondeb cyffredinol gyda lefel y tâl yn y consortia eraill].

Dylid adolygu unrhyw gynnydd pellach yn y cyfrifoldebau yn dilyn adolygiad pellach o'r Model Cenedlaethol fel y bo'n briodol.

Mae angen sicrhau eglurder hefyd ynghylch pwy yw'r swyddog sy'n atebol am y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan GwE ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a mireinio'r trefniadau llywodraethu presennol.

**Atodiad 2**

**Argymhellion**

1. Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr ar frys ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad hwn;
2. Newid y model gweithredu presennol ar frys i sicrhau bod ffocws clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4;
3. Dylai Awdurdodau Lleol unigol adolygu eu capasiti a'u gallu presennol i weithio mewn partneriaeth â GwE er mwyn gwella perfformiad;
4. Adolygu'r strwythurau Llywodraethu fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Model Cenedlaethol;
5. Gweithredu model Rheoli Perfformiad ar gyfer y gwasanaeth ac ar gyfer unigolion, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn;
6. Datblygu model arweinyddiaeth ddosranedig a fydd yn rhoi rolau arwain i fwy o staff a chyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau eu hunain;
7. Datblygu cyswllt clir rhwng blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol fel eu bod yn cydweddu yn hytrach na gwrthdaro;
8. Datblygu cysondeb ar draws y tri hwb er mwyn ceisio sicrhau darpariaeth gydradd ar draws y Rhanbarth;
9. Adolygu'r cynllun busnes er mwyn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau GwE;
10. Egluro rolau staff, yn arbennig uwch staff, er mwyn cyflawni blaenoriaethau; ac
11. Adolygu model cefnogi busnes gweithredol GwE.

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| Dyddiad | 16 Mawrth 2017 |
| Eitem | Ymchwiliad Craffu Gofalwyr Di-dâl - Pobl sy'n edrych ar ôl rhywun |
| Aelodau Cabinet | Cynghorydd W Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd<br>Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Aelodau'r Ymchwiliad | Cynghorydd E Selwyn Griffiths<br>Cynghorydd Siân Wyn Hughes<br>Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones<br>Cynghorydd Eryl Jones-Williams<br>Cynghorydd Ann Williams<br>Cynghorydd Eirwyn Williams<br>Cynghorydd R.H. Wyn Williams (Cadeirydd) |

1 Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu ar 17 Tachwedd 2016 ac fe gyflwynir yr Adroddiad Terfynol drafft i sylw'r Aelodau.

2 Dymuna Aelodau'r Ymchwiliad ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad.

3 Gofynnir i'r Aelodau ystyried cynnwys yr Adroddiad ac i wneud sylwadau, a gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol i Aelodau'r Ymchwiliad a'r Aelodau Cabinet gan gynnig unrhyw welliannau a gwrthod neu gymeradwyo'r Adroddiad.

4 Gofynnir i'r Aelodau Cabinet am eu hymateb i'r Adroddiad ac yn benodol i'r Argymhellion.

5 Cytuno ar y ffordd ymlaen a phryd i dderbyn adborth ar gyflawniad yr Argymhellion.

# POBL SY’N EDRYCH AR ÔL RHYWUN

Adroddiad

Ymchwiliad Craffu

Gofalwyr Di-dâl

Ionawr - Chwefror 2017

<u>Aelodau</u>

Cynghorwyr:

R H Wyn Williams (Cadeirydd)

E. Selwyn Griffiths

Siân Wyn Hughes

Linda Ann Jones

Eryl Jones-Williams

Ann Williams

Eirwyn Williams

<u>Swyddogion</u>

Gareth James

Bethan Adams

Cyflwyniad

Rydym ond wedi codi'r llen ar y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Ngwynedd I gefnogi'r bobl allweddol hynny sy'n gweithio'n dawel ac yn ddi-dâl i edrych ar ôl rhywun.

Pobl gyffredin fel chi a fi, ond pobl arbennig sy'n sicrhau bod eu hanwyliaid, ffrindiau a chydnabod yn cael anogaeth, gwasanaeth a gofal i helpu pobl i fyw'n fwy iach a hapus.

Testun yr Ymchwiliad yma yw gweld sut rydym ni'n helpu'r bobl yma sy'n helpu pobl eraill.

Daeth yn amlwg i ni yn fuan bod y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r mudiadau trydydd sector sy'n weithredol yn y maes yma'n llwyddo i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Ngwynedd; ond bod pwysau cynyddol ar y gwasanaethau. Mae'r arbedion a thoriadau wedi cael effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethau ataliol allweddol a'r lefel o wasanaethau sy'n ddisgwyliedig gan ofalwyr.

Mae lle i wella bob amser, wrth gwrs, a diben y gwaith cryno a wnaed gan yr ymchwiliad oedd cefnogi'r gwaith datblygol sy'n mynd rhagddo gan yr Aelod Cabinet I weld os yw ein trefniadau a'n sefyllfa gyfredol yn addas o ystyried disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Felly, mae'r ymchwiliad yma wrth gydnabod y gwaith aruthrol sy'n digwydd wedi canolbwyntio ar awgrymiadau i wella.

Mae ein diolchiadau i'r holl swyddogion sydd wedi cyfrannu at y gwaith a'n ceisiadau (blinderus ar adegau mae'n siŵr!) am ddata a gwybodaeth yn ddiffuant.

Cynghorydd R.H. Wyn Williams (Cadeirydd)

**<u>Argymhellion</u>**

**<u>Argymhelliad 1</u> – Adnabod Gofalwyr**

**Bod yr Aelod Cabinet yn comisiynu gwaith manwl gyda'n partneriaid i gytuno sut i adnabod a chofnodi gofalwyr 'cudd' yng Ngwynedd**

**<u>Argymhelliad 2</u> – Asesiadau a Chofnodi**

**Bod yr Aelod Cabinet yn cynnal gwaith gyda'n partneriaid mewn gofal ar draws y Gogledd I gysoni dulliau cynnal asesiadau a chofnodi**

**<u>Argymhelliad 3</u> – Adborth gan Ofalwyr**

**Bod yr Aelod Cabinet yn defnyddio'r wybodaeth yn yr Holiaduron a dderbyniwyd gan Ofalwyr I adnabod cryfderau, gwendidau, rhwystrau a chyfleoedd i wella.**

**<u>Argymhelliad 4</u> – Gwybodaeth a Chynghori**

- **Datblygu trefniadau Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu (Information, Advice and Assessment (IAA)) cydlynus ar draws y Sir ar fyrder**
- **Codi ymwybyddiaeth Aelodau, swyddogion a staff rheng flaen y Cyngor am wasanaethau cefnogol i ofalwyr**
- **Fferyllwyr i rannu taflen gofalwr wrth ddosbarthu ffisig**
- **Meddygfeydd i rannu taflenni wrth roi presgripsiwn**
- **Ysgolion i rannu taflenni i ddisgyblion**

**<u>Argymhelliad 5</u> - Ysbaid**

- **Cynnal arolwg manwl i weld faint o ddiffyg cyfleoedd ysbaid sydd yn bodoli**
- **Llunio polisi i gefnogi cyflogai'r Cyngor sy'n ofalwyr gyda chyfnodau ysbaid**

**<u>Argymhelliad 6</u> – Effaith Arbedion a Thoriadau**

**Bod yr Aelod Cabinet yn cynnal asesiad manwl o effaith y lleihad mewn gwariant ar wasanaethau cefnogol i ofalwyr di-dâl/pobl sy'n edrych ar ôl rhywun.**

**<u>Argymhelliad 7</u> – Trydydd Sector a Busnesau Cymunedol**

**Cynllunio'r gwasanaethau craidd ac ataliol gyda'r Trydydd Sector a Busnesau Cymunedol.**

**<u>Argymhelliad 8</u> - Iechyd Meddwl**

**Bod yr Aelod Cabinet yn cynnal arolwg brys i asesu'r sefyllfa'n llawn**

**<u>Argymhelliad 9</u> - Iaith Gymraeg**

**Bod y Pwyllgor Iaith yn cynnal gwaith penodol i fonitro a chefnogi gwasanaethau i gyflenwi gwasanaethau dwyieithog i ofalwyr.**

## 1 Cefndir

1.1 Un o flaenoriaethau rhaglen waith y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2016-17 (fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor 2013-17) yw adolygu pa mor effeithiol yw ein trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl (Prosiect Blaenoriaeth G7). Dolen i'r Cynllun Strategol

1.2 Mae'r Prosiect yn anelu i wneud arolwg manwl o'r ddarpariaeth bresennol o safbwynt cefnogaeth i ofalwyr di-dâl gan roi trefniadau tymor byr ar waith lle'n bosibl i gynnal a datblygu'r gefnogaeth; gan gynllunio ar gyfer gosod trefniadau cynaliadwy cadarn mewn lle ar gyfer y tymor canolig a hir dymor.

1.3 Er mwyn cefnogi'r gwaith datblygol yma, fe gytunodd rhai o Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau I gynnal Ymchwiliad er mwyn ystyried:

- Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl sy'n cefnogi unigolion yn wirfoddol?
- Sut y gellir gwella'r gefnogaeth honno?
- Sut mae'r Cyngor yn cyfathrebu'r wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael?

1.4 Y prif gwestiwn i'w gyfarch yw: 'Pa mor gynaliadwy yw'r ddarpariaeth o ran cefnogaeth i ofalwyr yng Ngwynedd heddiw ac i'r dyfodol a sut ydan ni'n cyfathrebu'r ddarpariaeth?'

1.5 Aed ati i wneud hyn drwy gasglu tystiolaeth am y tair elfen ganlynol:

- Bod y gwasanaethau cyhoeddus yn cynllunio a darparu cefnogaeth ddigonol i ofalwyr.
- Bod Cyngor Gwynedd, y Bwrdd Iechyd a'u partneriaid yn cydweithio i gynnal a gwella'r gwasanaethau cefnogol i ofalwyr.
- Bod Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn ystyried barn gofalwyr wrth ddarparu a chynllunio'r gwasanaethau.

## 2 Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Ymchwiliad Craffu er mwyn casglu tystiolaeth gan gynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus a'r Sector Gwirfoddol, ac fe gyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan rai sefydliadau yn ogystal. (Gweler Atodiad 1)

2.2 Ystyriwyd sylwadau gan rai Aelodau a oedd wedi'u datgan wrthynt gan unigolion yn y gymuned am eu profiadau hwy o fod yn ofalwyr ac am y gefnogaeth a gafwyd gan y gwasanaethau.

2.3 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiadau perfformiad a mesuryddion a dogfennau a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Oedolion, Plant ac Iechyd I adnabod a chofnodi'r wybodaeth am ofalwyr.

2.4 Edrychwyd ar wefannau'r Cyngor a sefydliadau Trydydd Sector o safbwynt gofalwyr hŷn ac ifanc ynghyd â chyhoeddiadau.

2.5 Mae'n amserol iawn bod Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr y Cyngor wedi cynnal Holiadur a ddosbarthwyd i dros fil o ofalwyr yn ystod mis Medi 2016 a bod y dadansoddiad o'r canlyniadau newydd ddod i law (Chwefror 2017). Mae hyn yn rhoi darlun da I Aelodau'r Ymchwiliad o farn defnyddwyr gwasanaeth.

**3 Pwy sy'n Ofalwr?**

**Argymhelliad 1**
**Bod yr Aelod Cabinet yn comisiynu gwaith manwl gyda'n partneriaid i gytuno sut i adnabod a chofnodi gofalwyr 'cudd' yng Ngwynedd.**

3.1 Mae deall arwyddocâd adnabod pwy sy'n ofalwr yn hanfodol. Roedd y Cyngor yn arfer sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu i ofalwyr; bellach, cyfrifoldeb cyntaf y Cyngor yw asesu'r angen a chyfeirio at gael cefnogaeth.

3.2 Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014 yn diffinio gofalwr fel '*unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn…..gall awdurdodau lleol drin rhywun fel gofalwr hyd yn oed os na fyddai'n cael ei ystyried fel arall yn ofalwr, os yw'n credu y byddai'n briodol i wneud hynny yng nghyd-destun y berthynas ofalgar*.'

Mae Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd (Gwynedd a Môn bellach) yn diffinio gofalwr fel ' *…rhywun sy'n edrych ar ôl perthynas neu ffrind sy'n sâl, sy'n fregus neu sy'n anabl, na allant fyw gartref heb dderbyn cefnogaeth ymarferol neu emosiynol di-dâl gennych chi….*'

Un o'r nodweddion am ofalwyr yw nad yw nifer ohonynt yn galw eu hunain yn ofalwyr.

Mae sefyllfa gofalu yn unigryw i bob gofalwr.

Mae diffyg cefnogaeth yn gallu cael effaith ddrwg iawn ar iechyd gofalwyr a'u gallu i ofalu.

## 4 <u>Faint o Ofalwyr sydd yng Ngwynedd</u>? (Gweler Atodiad 2)

4.1 Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 12,433 o bobl yng Ngwynedd yn adnabod eu hunain fel gofalwyr.

4.2 Y tebygrwydd yw bod y ffigwr yma'n llai o lawer na'r nifer go iawn gan nad ydi llawer o bobl yn adnabod eu hunain fel gofalwyr.

4.3 Mae'r data diweddaraf sydd gan y Cyngor (hyd at Ragfyr 2016) yn nodi:

- Nifer Gofalwyr ar RAISE (system gofnodi'r Cyngor) – 165
- Nifer Gofalwyr a adnabuwyd o'r ffurflen Data Craidd – 114
- Nifer Gofalwyr yn ôl diffiniad penodol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – 90

4.4 O safbwynt y 165 a gofnodwyd ar RAISE, ceir dadansoddiad pellach fel a ganlyn:

| Oed | Nifer |
|---:|---:|
| 18-64 | 60 |
| 65-74 | 24 |
| 75-84 | 42 |
| 85+ | 30 |
| Cyfanswm | 165 |

4.5 Mae'r Adroddiad ar Holiaduron Gofalwyr gan *Swyddog Cefnogi Gofalwyr Cyngor Gwynedd* yn nodi yr anfonwyd dros fil o holiaduron at ofalwyr Gwynedd sy'n gofrestredig naill ai gyda'r *Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr* neu *Hafal*.

4.6 Gwelir yn ogystal wahaniaeth yn nosraniad dwyster y nifer o ofalwyr ar draws Gwynedd.

Mae dadansoddiad o ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn dangos amrediadau fel a ganlyn:

a) Ardaloedd Gweithio – Canran o'r Boblogaeth sy'n Ofalwyr (ffigyrau crwn)

| | |
|---|---:|
| Bangor | 8% |
| Caernarfon | 11% |
| Canol (Port-Blaenau-Harlech) | 11% |
| Pen Llŷn | 10% |
| De Meirionnydd | 12% |

b) Ardal LSOA (*Lower Super Output Area*) – Canran o'r Boblogaeth sy'n ofalwyr (ffigyrau crwn)

| | | |
|---|---|---:|
| Canran uchaf | Dyffryn Ardudwy (De Meirionnydd) | 15% |
| Canran Isaf | Menai (Bangor) | 3% |

4.7 Gwelir bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ardaloedd Bangor a De Meirionnydd yn gyffredinol ac yn fwy sylweddol rhwng wardiau/LSOAs penodol.

4.8 Yn ogystal, mae'n ymddangos o'r wybodaeth a ddaeth i law ac o'r trafodaethau gyda swyddogion ac ymarferwyr yn y Grwpiau Ffocws nad oes gan y Cyngor wybodaeth ddibynadwy ynglŷn â nifer gofalwyr sy'n byw yn y Sir.

4.9 Nid oes lle i gredu bod y sefyllfa'n gliriach mewn siroedd eraill ychwaith, ac anogir yr Aelod Cabinet I weithio gyda'n partneriaid sirol, rhanbarthol a chenedlaethol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) I gyfarch y mater hanfodol yma.

4.10 Heb wybod maint yr angen, nid oes bosibl ei ddiwallu.

**5 Asesiadau, Cofnodion a Mesuryddion**

**Argymhelliad 2**

**Bod yr Aelod Cabinet yn cynnal gwaith gyda'n partneriaid mewn gofal ar draws y Gogledd I gysoni dulliau cynnal asesiadau a chofnodi**

5.1 Un o'r rhesymau am sefydlu'r ymchwiliad oedd I weld beth oedd y rheswm pam yn 2014-15 mai Gwynedd oedd yn perfformio gwaethaf yng Nghymru ar y mesurydd cenedlaethol:

- Faint o ofalwyr oedolion gafodd gynnig eu hasesiadau eu hun?

5.2 Roedd y perfformiad wedi disgyn o 100% yn 2012-13 I 58% yn 2014-15. Mae'r perfformiad ar gyfer 2015-16 yn dangos gwelliant gyda ffigwr o 70%, ond mae'r perfformiad yn dal i fod y gwaethaf ond un yng Nghymru.

5.3 Er bod gwelliant bychan yn y perfformiad, nid yw'n glir i'r Aelodau pam bod y mesurydd yma'n parhau i berfformio'n wael, ond dyma rai rhesymau posibl:

- Mae'r data yn cael ei gasglu a'i gofnodi'n wahanol ar draws Cymru
- Er bod asesiadau'n cael eu cynnal, nid ydynt yn cael eu cofnodi.
- Mae'r swyddogion yn blaenoriaethu gwaith arall pwysicaf.
- Prinder amser gan swyddogion i gofnodi
- Diffyg eglurder am y drefn a dulliau cofnodi
- Ydi'r nifer o asesiadau fesul swyddog yn gyson ar draws y Gogledd

5.4 Eto, nid oes atebion clir ond dyma rai awgrymiadau:

- Yn achos awdurdod cyfagos (Ynys Môn) sy'n perfformio ar lefel 95% mae ffurflen hunangyfeirio ar wefan y Cyngor sy'n caniatáu i unigolion wneud cais am asesiad gofal ac iechyd ar lein.

- Efallai bod anghysondeb rhwng sut mae'r asesiadau'n cael eu cynnal yng Ngwynedd o'i gymharu â siroedd eraill; bod yr asesiadau yma'n fwy trylwyr ac yn cymryd yn hirach.
- Efallai bod pwysau gwaith yn golygu bod nifer yr asesiadau sy'n cael eu cynnal yma'n fwy fesul swyddog.
- Diffyg cysondeb ac eglurder yn y modd mae gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo ac adrodd arno rhwng swyddogion y Cyngor a'i gilydd.

5.5 Yn y Grŵp Ffocws a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2017, fe ystyriwyd Adroddiad Blynyddol cyntaf y Bwrdd Iechyd ar *Sut mae'r Bwrdd a'i bartneriaid yn gweithredu ac yn monitro Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016.*

5.6 Cafwyd sylwadau a gwybodaeth gan Bennaeth Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Dyma ddyfyniad o'r sylwadau:

*Cafodd Mesur Strategaeth Gofalwyr (Cymru) 2010 ei chyflwyno i osod dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru I weithio gyda'i gilydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr. Prif bwrpas y strategaeth hon oedd sicrhau:*

- *Bod gofalwyr yn cael eu hadnabod yn gynnar*
- *Bod gofalwyr yn cael cymorth cynt a mwy trefnus*
- *Newid diwylliannol, fel bod gofalwyr yn cael eu grymuso o ran yr holl brosesau penderfynu sy'n ymwneud â rheoli gofal*
- *Bod materion yn ymwneud â gofalwyr yn cael eu prif ffrydio i* ***arferion gweithio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)**** *o ddydd i ddydd*

*Cafodd y Byrddau Iechyd Lleol eu dynodi fel yr awdurdod arweiniol o ran datblygu'r Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr. Cafodd y strategaeth hon ei datblygu mewn partneriaeth â'r chwe awdurdod lleol a sefydliadau trydydd sector a chafodd ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2012.*

**(*Awgrymir ychwanegu yma '*a'r Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill.*')**

5.7 Mae'n glir felly, bod y fframwaith cenedlaethol mewn lle i hyrwyddo cydweithio ar lefel strategol yn genedlaethol ac mae angen sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu'n llawn i'r gwaith yma fel partner ymroddedig.

5.8 Awgrymir bod angen i'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru roi sylw i ddulliau cofrestru, cofnodi, asesu a monitro gofalwyr er mwyn cysoni'r trefniadau ar draws y gogledd.

5.9 Er bod peth cynnydd wedi'i wneud i gyflawni'r strategaeth, mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at nifer o heriau gan gynnwys:

- *Mae cadw Rheolwr Prosiect Gofalwyr a chymorth gweinyddol yn parhau i fod yn heriol oherwydd natur y cyllid dros dro, mae dwy swydd wag ar hyn o bryd.*
- *….mae wedi bod yn anodd cael mesurau perfformiad dibynadwy. Mae gwaith yn parhau gyda'r sefydliadau cymorth gofalwyr i ddatblygu dangosyddion dibynadwy*

5.10 Heb ddelio gyda'r uchod yn gyntaf bydd yn anodd i'r Bartneriaeth ddatblygu'n effeithiol.

**6 <u>Beth mae Gofalwyr yn dweud wrthym</u>**?

**<u>Argymhelliad 3</u>**

**Bod yr Aelod Cabinet yn defnyddio'r wybodaeth yn yr Holiaduron I adnabod cryfderau, gwendidau, rhwystrau a chyfleoedd i wella.**

6.1 Fe anfonwyd dros fil o holiaduron at bobl sy'n byw yng Ngwynedd lle bod cofnod ohonynt ar systemau gwybodaeth Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a Hafal. Cafwyd 227 holiadur yn ôl a dyma'r prif negeseuon o'r atebion. (Gweler Atodiad 3)

Dyma grynodeb o'r canlyniadau:

Math o ofal sy'n cael ei ddarparu:

- Dros 150 o ofalwyr yn darparu cefnogaeth emosiynol, gofal personol a chefnogaeth gyffredinol.
- Rhwng 100-150 yn darparu cefnogaeth gyda symud a meddyginiaeth
- Rhwng 50-100 yn darparu cefnogaeth ariannol

Yr heriau sy'n wynebu gofalwyr yn eu bywydau bob dydd:

| | |
|---|---|
| Blinder/straen | 50+ |
| Diffyg 'me time' | 40 |
| Unigrwydd/Unigedd | 25 |
| Anabledd/salwch | 25 |
| Gweithio a gofalu | 10 |
| Pryderu am y dyfodol | 5 |

**7 <u>Gwybodaeth a Chyngor</u>**

**<u>Argymhelliad 4</u>**

- **Datblygu trefniadau Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu (Information, Advice and Assessment (IAA)) cydlynus ar draws y Sir ar fyrder**

- **Codi ymwybyddiaeth Aelodau, swyddogion a staff rheng flaen y Cyngor am wasanaethau cefnogol I ofalwyr**
- **Fferyllyddion i rannu taflen gofalwr wrth ddosbarthu ffisig**
- **Meddygfeydd i rannu taflenni wrth roi presgripsiwn**
- **Ysgolion I rannu taflenni I ddisgyblion**

7.1 Cafwyd tystiolaeth gan y comisiynwyr, darparwyr a defnyddwyr bod gwasanaethau cefnogol o safon uchel ar gael I ofalwyr yng Ngwynedd.

7.2 Rhoddir gorfodaeth ar awdurdodau lleol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 I ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth dwyieithog fel rhan o wasanaethau ataliol.

7.3 Yng Ngwynedd mae'r Tîm Cynghori ac Asesu'n gweithredu ers 8 mlynedd fel y Pwynt Cyswllt Cyntaf ac yn gallu cyfeirio gofalwyr yn sydyn I'r man mwyaf pwrpasol I dderbyn gwasanaeth. Mae trigolion ardal Cricieth a Phorthmadog yn cael eu cyfeirio I Ysbyty Alltwen fel rhan o gynllun peilot Ffordd Gwynedd. Mae'n faes sydd yn cael sylw gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar hyn o bryd gyda golwg I ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach er mwyn cyfarch gofynion y Ddeddf yn llawn o safbwynt Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu (Information, Advice and Assessment (IAA)).

7.4 Mae *Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd* (Gwynedd a Môn bellach) yn casglu gwybodaeth am gefnogaeth sydd ar gael yn lleol yn effeithiol. Cydlynir y gwaith gan Swyddog Cefnogi Gofalwyr Oedolion a Phlant Rhan Amser Gwynedd sy'n cael ei chyflogi gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.

7.5 Cyhoeddir taflen gynhwysfawr (ar ffurf electronig ac ar bapur) o'r sefydliadau sy'n cefnogi'r gofalwyr. (A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?). Mae copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ysbytai.Mae yma gynghorion defnyddiol ar lu o faterion gan gynnwys:

- Iechyd a hamdden
- Gwaith, hyfforddiant a chyrsiau
- Materion ariannol
- Materion cyfreithiol
- Cynnal ac addasu eich cartref
- Trafnidiaeth
- Gofalu hyd y diwedd
- Cwynion

7.6 Yn ogystal, mae yma gyfeirlyfr manwl o 99 o sefydliadau gyda chrynodeb am yr hyn sydd ar gael a phwyntiau cyswllt defnyddiol.

7.7 Mae cynllun cenedlaethol hefyd yn darparu gwybodaeth yn electronig sef DEWIS (https://www.dewis.cymru/)

7.8 Roedd y swyddogion a'r ymarferwyr a gyfwelwyd â hwy yn nodi bod yr wybodaeth sydd ar gael ar ddolen y Cyngor yn ddefnyddiol, ond nid oedd yr un brwdfrydedd ar gyfer DEWIS.

7.9 Gwnaed y pwynt bod gwerth yr wybodaeth yn ddibynnol ar ansawdd yr hyn sy'n cael ei fewnbynnu, a bod yr wybodaeth o Wynedd ar wefan DEWIS yn tueddu bod yn ddiffygiol mewn rhannau a bod angen cynnal a diweddaru'r wybodaeth. Cyfrifoldeb y mudiadau unigol yw hyn nid y Cyngor.

7.10 Yn ogystal, fe wnaed sylwadau bod casglu, rhannu a diweddaru gwybodaeth am ddigwyddiadau mwy lleol fel gweithgaredd clybiau a chymdeithasau'n gallu bod yn hynod werthfawr i ofalwyr a'r rhai maent yn gofalu amdanynt, ond bod cyflawni hyn yn effeithiol yn anodd.

7.11 Er gwaethaf bodolaeth yr wybodaeth uchod, dywedodd y Swyddog Cefnogi Gofalwyr wrthym fod tystiolaeth glir bod y mwyafrif o ofalwyr wedi cael yr wybodaeth fwyaf defnyddiol gan berson arall- weithiau gwasanaethau cymdeithasol, weithiau gwasanaethau iechyd ac yn aml y trydydd sector ac yn benodol Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Hafal a Gweithredu dros Blant.

7.12 Mae cael yr wybodaeth iawn ar yr amser iawn yn hanfodol i lesiant gofalwyr.

7.13 Y broblem yw sut i roi gwybod i ofalwyr am y ddarpariaeth. Mae hyn yn broblem sylweddol os ystyriwch yn fras bod tua 2,000 o ofalwyr yng Ngwynedd mewn cysylltiad gyda sefydliad trydydd sector neu'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd, sy'n gadael o leiaf 10,000 heb gysylltiad. (Os cymerwn ffigwr Cyfrifiad 2011 sef 12,433 o ofalwyr)

7.14 Mae Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu gwybodaeth un i un i ofalwyr drwy'r Tîm Cynghori ac Asesu a'r timau oedolion, ac mae Adran Plant a Chefnogi Teulu yn darparu'r un gwasanaeth i ofalwyr ifanc a rhieni-gofalwyr.Yn yr un modd mudiadau'r trydydd sector.

7.15 Er hyn oll, ystyrir bod lle i wella argaeledd yr wybodaeth ar draws y Sir e.e. mewn canolfannau hamdden, ysgolion a meddygfeydd. Ni chafwyd cyfle i wyntyllu'r sefyllfa yma'n fanwl yn y mannau yma yn ystod yr ymchwiliad yma.

7.16 Un o'r anawsterau o safbwynt rhannu gwybodaeth gyda gofalwyr yw nad ydi gofalwyr yn aml yn adnabod eu hunain fel gofalwyr; ac yn aml bydd y cysylltiad cyntaf yn digwydd gyda'r gwasanaethau iechyd mewn sefyllfa argyfwng. Felly, mae'n holl bwysig bod yr wybodaeth ar gael yn y mannau yma.

7.17 Yn yr arolwg cenedlaethol cyntaf gan Ofalwyr Cymru – Dilyn y Ddeddf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016 fe nodir: *Dywedodd 82% o ofalwyr di-dâl nad oeddent wedi gweld unrhyw wybodaeth gyhoeddedig gan eu hawdurdod lleol a fyddai'n help yn eu rôl gofalwyr.*

**8 Ysbaid**

**Argymhelliad 5**

- **Cynnal arolwg manwl i weld faint o ddiffyg cyfleoedd ysbaid sydd yn bodoli**
- **Llunio polisi i gefnogi cyflogai'r Cyngor sy'n ofalwyr gyda chyfnodau ysbaid**

8.1 Yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n rhaid ystyried yr angen i ofalwr gael seibiant yn rheolaidd wrth gynnal asesiad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i ofalwr fedru cynnal ei iechyd a llesiant ei hunan ac er mwyn iddo/iddi gael bywyd tu allan i'w rôl gofalu.

8.2 Gall cyfnod ysbaid fod yn ychydig oriau, ddiwrnodau neu wythnosau. Mi all rhywun sy'n dod i lanhau'r tŷ am ddwy awr fod yn gyfnod ysbaid i'r gofalwr. Mae cyfnod ysbaid yn cynorthwyo gofalwr i barhau gyda'i rôl gofalu yn ogystal â bod mor bwysig i'w iechyd a llesiant.

8.3 Gall ysbaid gael ei ddarparu gan wasanaethau statudol, trydydd sector, ffrindiau a theuluoedd.

8.4 Cafwyd tystiolaeth gan y Swyddog Cefnogi Gofalwyr nad oes digon o adnoddau i gyfarfod yr angen sydd wedi'i adnabod o blith y tua 2,000 o ofalwyr yr ydym yn gwybod amdanynt yng Ngwynedd, heb son am y 10,000 a mwy arall. Er bod llawer o ofalwyr yn medru cario ymlaen, yn anffodus, y realiti yw y bydd eu hiechyd yn debygol o dorri cyn iddynt gael eu hadnabod.

8.5 Darperir amrywiaeth o gyfnodau ysbaid yng Ngwynedd:

- Yr un sy'n derbyn gofal yn mynychu canolfan ddydd, neu ofalwr cyflogedig y Cyngor neu'r sector breifat yn galw gan roi ysbaid i'r gofalwr
- Teulu a ffrindiau
- Y sawl sy'n cael ei ofalu amdano yn derbyn Pecyn Gofal Iechyd Parhaus gall y Bwrdd Iechyd drefnu cyfnod ysbaid i'r gofalwr a chefnogaeth i gynnal iechyd y gofalwr
- Mudiadau Trydydd Sector - cludiant, gwasanaeth eistedd, gweithgareddau i ofalwyr a'u teuluoedd
- Sector Preifat - naill ai fel rhan o becyn gofal neu dalu amdanynt eu hunain.

8.6 Er bod y cyfleoedd ysbaid a gynigir yn bwysig a gwerthfawr iawn, mae nifer o broblemau:

- Prinder adnoddau ariannol gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd I gomisiynu a chynnal y gwasanaeth
- Y person sy'n derbyn y gofal yn amharod i ryddhau'r gofalwr
- Prinder gweithwyr gofal yn arbennig ym Meirionnydd
- Prinder siaradwyr Cymraeg
- Diffyg hyblygrwydd ar fyr rybudd e.e. i alluogi gofalydd i fynychu angladd.
- Prinder arbennig o ran rhyddhau gofalwyr sy'n cefnogi cleifion efo Dementia ac Iechyd Meddwl.

## 9 Cyllidebau Gwasanaethau

**<u>Argymhelliad 6</u>**

**Bod yr Aelod Cabinet yn cynnal asesiad manwl o effaith y lleihad mewn gwariant ar wasanaethau cefnogol i ofalwyr di-dâl/pobl sy'n edrych ar ôl rhywun.**

9.1 Mae Aelodau'r Ymchwiliad yn bryderus y gallai'r Cyngor fod yn creu problemau ariannol difrifol i'r dyfodol drwy beidio buddsoddi'n strategol mewn gwaith ataliol ym maes gofalwyr.

9.2 Yn yr adroddiad 'Gwynedd Parent Carers Social Return on Investment Evaluation Report' a luniwyd gan Social Value Cymru ar ran Rhieni Ofalwyr Gwynedd, fe nodir am bob £1 sy'n cael ei wario ar gefnogi gofalwyr bod hyn gyfwerth â gwario £5.82 pe bai angen talu am y gwasanaeth a ddarperir gan ofalwyr di-dâl. (Gweler Atodiad 4)

9.3 Mae'n werth oedi am funud ac ystyried goblygiadau hyn.

9.4 Pe byddai Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu'r gwasanaethau yma, am bob £1,000,000 sy'n cael ei wario ar hyn o bryd, byddai'n ofynnol iddynt wario £5,820,000.

9.5 Yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, mae'n bur annhebygol y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ariannu'r lefel yma o wasanaeth yn y dyfodol, ond mae'r Aelodau'n pryderu bod bosibl bod arwyddion yn barod bod hyn yn digwydd.

9.6 Yn sgil lleihad yng nghyllid y Cyngor a gweithredu Strategaeth Arbedion ers 2007, mae'n bosibl bod penderfyniadau anodd a wnaed i leihau gwariant yng ngwasanaethau Oedolion a Phlant eisoes wedi arwain at gynnydd mewn gwariant i'r Cyngor.

9.7 Mae Adolygiad Trydydd Chwarter o Gyllideb Refeniw 2016/17 a ystyriwyd gan y Cabinet yn dangos gorwariant o £226,000 gan Adran Plant a Theuluoedd ac £88,000 gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. (Gweler Atodiad 5)

9.8 Yn yr un adroddiad fe nodir tanwariant o £34,000 gan Wasanaethau Arbenigol/Derwen - hyn yn sgil methu penodi gweithwyr dros dro i lenwi cyfnodau

mamolaeth. Yn ogystal bu'n rhaid I Derwen wneud arbediad o £50,000 yn 2015-16, lleihad pellach yn y gyllideb o £75,000 eleni a disgwylir toriad pellach y flwyddyn nesaf. Mae swyddogion y gwasanaeth yn nodi bod hyn yn cael effaith negyddol ar ofalwyr di-dâl; ac yn bryderus y gall arwain at niwed i'w hiechyd a chostau uwch i'r Cyngor.

9.9 Mae'r Cabinet wedi cytuno mewn egwyddor (yn ddibynnol ar wneud gwaith manwl) i wario £40,000 ychwanegol flwyddyn nesaf ar 'Rhaglen Ymyrraeth Gynnar/Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd'.

9.10 Awgrymir bod angen edrych yn fanylach a gwneud asesiad ystyrlon o effaith lleihau cyllidebau ym maes gofalwyr di-dâl o safbwynt cynnydd mewn gwariant i'r Cyngor yn ogystal â'r effaith ar ofalwyr.

**10 Materion eraill sydd angen sylw**

10.1 Teimlad Aelodau'r Ymchwiliad yw bod gwaith pellach angen ei wneud ar fyrder i asesu'n fanylach y risgiau i'r gwasanaethau cefnogol i ofalwyr, ond oherwydd cyfyngderau rheoliadau democratiaeth llywodraeth leol a'r etholiad ym mis Mai, ni chafwyd amser i'w gwyntyllu'n llawn. Nodir hwy isod fel materion sydd angen eu cadw ar agenda datblygu cefnogaeth i ofalwyr:

**10.2 Trydydd Sector a Busnesau Cymdeithasol**

Mae cryn bwyslais yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 I awdurdodau lleol weithio gyda'r Trydydd Sector ac i hyrwyddo busnesau cymdeithasol er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf:

"Rhaid i awdurdodau lleol annog pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i ymuno yn y broses o lunio a darparu gwasanaethau, ynghyd â dulliau cyflawni eraill gan gynnwys; mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan eu defnyddwyr, a'r sector gwirfoddol."

Gwelir bod y mwyafrif o'r gwasanaethau a nodir fel gwasanaethau cefnogol i ofalwyr ar y rhestr sydd ar wefan y Cyngor yn wasanaethau a ddarperir gan fusnesau cymdeithasol a'r trydydd sector.

Cafwyd peth cyfle yn ystod yr ymchwiliad i gael mewnbwn gan nifer fach ohonynt, ac er bod y rhai a gyfwelwyd yn datgan eu bod yn medru parhau i wasanaethu gofalwyr ar hyn o bryd, mae'n amlwg i Aelodau'r ymchwiliad bod y pwysau sydd arnynt yn anghyffredin o drwm ac fe nodwyd gan rai eu bod yn bryderus eu bod yn methu diwallu'r angen ar adegau.

Roedd hyn yn wir o safbwynt rhai gwasanaethau craidd a gwasanaethau ataliol.

Er bod yr Aelodau'n deall y pwysau ariannol sy'n ein hwynebu fel Cyngor, maent yn bryderus nad oes sylw digonol yn cael ei roi i gynllunio'r gwasanaethau mewn modd strategol.

**10.3 Iechyd Meddwl**

Nodwyd pryderon penodol gan swyddogion y Cyngor, Bwrdd Iechyd a mudiadau eraill am bwysau eithriadol ac awgrymir bod yr Aelod Cabinet yn cynnal arolwg brys i asesu'r sefyllfa'n llawn

**10.4 Iaith Gymraeg**

Roedd pryder gan Aelodau bod rhai o'r gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor yn ddiffygiol o safbwynt cynnig gwasanaethau dwyieithog ac awgrymir bod y Pwyllgor Iaith yn cynnal gwaith penodol i fonitro a chefnogi gwasanaethau i gyflenwi gwasanaethau dwyieithog

**Cyfarfodydd yr Ymchwiliad**

Cynhaliwyd Cyfarfodydd ar y dyddiadau isod:

- 1 Rhagfyr 2016
- 10 Ionawr 2017
- 31 Ionawr 2017
- 15 Chwefror 2017
- 23 Chwefror 2017

Yn ystod y cyfarfodydd uchod, cafwyd trafodaeth efo'r canlynol:

- Cynghorydd W. Gareth Roberts (Aelod Cabinet - Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Cynghorydd Mair Rowlands (Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden)
- Marian Parry Hughes (Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Lester Bath (Swyddog Cefnogi Gofalwyr Oedolion a Phlant Rhan Amser, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Mannon Trappe (Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Manon Williams (Rheolwr Ardal, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
- Sharon Williams Carter (Uwch Reolwr Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol Adnoddau Gofal, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Non Pierce (Uwch Weithiwr Cymdeithasol, Tîm Integredig DERWEN)
- Carys Hughes (Swyddog Lles Addysg, Adran Addysg)
- Dawn Cooper (Pennaeth Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
- Eirian Wynne (Swyddog Ymgysylltu (Gorllewin), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
- Llinos Roberts (Prif Swyddog, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr)
- Sioned Larsen (Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mantell Gwynedd)
- Maria Bulkeley (Cydlynydd Gwasanaeth, Prosiect Gofalwyr Ifanc Gwynedd, Gweithredu dros Blant)
- Roma Hooper (Rheolwr Gwasanaethau Plant, Gweithredu dros Blant)

**Eraill a gymerodd ran**

- Iona Griffith (Rheolwr Gwasanaeth DERWEN)
- Jon Stevens (Prif Weithredwr, Gwasanaeth Adfocatiaeth a Chynghori Gogledd Cymru)

**Dymuna Aelodau'r Ymchwiliad ddiolch i bawb a gymerodd ran.**

**DATA GOFALWYR GWYNEDD** Mawrth 2017

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | CYFNOD ADRODD DIWEDDARAF: HYDREF – RHAGFYR 2016 (Chwarter 3) | 18-64 | 65 – 74 | 75 – 84 | 85+ | Cyfanswm |
| A1 | Nifer Gofalwyr ar RAISE* | 60 | 24 | 42 | 39 | 165 |
| A2 | Nifer Gofalwyr a adnabuwyd o'r ffurflen DATA CRAIDD** | | | | | 114 |
| A3 | Nifer Gofalwyr a gafodd **Asesiad Cychwynnol** o'r ffurflen BETH SY'N BWYSIG I MI – RHAN 1 | 3 | 6 | 9 | 7 | 25 |
| A4 | Nifer Gofalwyr a gafodd **Asesiad Dilynol** o'r ffurflen BETH SY'N BWYSIG I MI – RHAN 2 | 3 | 3 | 7 | 6 | 19 |
| B | HOLIADUR Cenedlaethol | | | | | |
| B1 | Nifer o Ofalwyr (yn ôl diffiniad PENODOL y Ddeddf) a dderbyniodd Holiadur*** | | | | | 90 |
| B2 | Nifer o Ofalwyr a lenwodd a dychwelodd yr Holiadur | | | | | 30 |
| B3 | Gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth I barhau â'u rôl gofalu | | | | 89% | |
| B4 | Gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano | | | | 90% | |
| C | HOLIADUR Gwynedd | | | | | |
| | Nifer o Ofalwyr a dderbyniodd Holiadur | | | | | 1,030 |
| | Nifer o Ofalwyr a lenwodd a dychwelodd yr Holiadur | | | | | 227 |
| CH | CYFRIFIAD 2011 | | 1-19 awr | 20-49 awr | 50+ awr | |
| Nifer Gofalwyr ar GYFRIFIAD 2011 fesul oriau o ofalu yr wythnos | | | 7,266 | 1,680 | 3,497 | 12,433 |
| D | CYFNOD EBRILL 2014 – RHAGFYR 2016 Fesul Grŵp Oedran | 18-64 | 65 – 74 | 75 – 84 | 85+ | |
| Nifer Gofalwyr sydd wedi bod **ar agor** ar RAISE unrhyw adeg yn ystod y cyfnod | | 432 | 157 | 159 | 125 | 873 |

**Mae'r 165 yn nodi'r nifer cleientiaid oedd ar agor yn RAISE yn chwarter 3 2016/17 lle oedd eu categori cleiant wedi ei nodi fel gofalydd. Gall rhai o'r rhain fod ar agor am y chwarter cyfan, wedi agor yn y cyfnod neu wedi cau.*

***Mae'r 114 yma wedi eu hadnabod wrth lenwi ffurflenni Data Craidd ar y cleient. Gall rhain fod yn ofalwyr newydd neu rhai sydd wedi eu hadnabod eisoes. Nid oes modd gwneud y cysylltiad hynny yn ôl i weld pwy ydi'r gofalydd neu os ydynt wedi eu hadnabod eisoes ac nid oes modd torri hwn i lawr i oedran gofalwyr*

**** Mae'r 90 yma yn cynrychioli cohort penodol iawn o ofalwyr. Rhain oedd yn derbyn gwasanaeth gofalwyr ar* Service Placements *RAISE o fewn wythnos gyntaf mis Medi 2016 yn unol â'r categori cyllidol yn RAISE.*

## DRAFFT Adroddiad ar holiaduron gofalwyr (Medi 2016)

**Cefndir**


Fel rhan o broses ymgysylltu ynghylch Asesiad Anghenion Poblogaeth ar gyfer Gwynedd, anfonwyd dros fil o holiaduron at ofalwyr Gwynedd sy'n gofrestredig gyda naill ai Gwasanaeth Cynnal Gofalwr neu Hafal. Cafwyd 227 holiadur yn ôl.

Roedd y cwestiynau ymgysylltu yn seiliedig ar ofynion yr Asesiad a hefyd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gofynnwyd y canlynol:


- Beth yw'r heriau sy'n eich wynebu yn eich bywyd bod dydd fel gofalydd?
- Beth neu pwy sy'n eich helpu i oresgyn yr heriau dyddiol hyn?
- Sut maen nhw yn eich cefnogi i oresgyn yr heriau hyn?
- Pa mor dda mae'r gefnogaeth hon yn gweithio i chi?
- Sut all y gefnogaeth fod yn well?
- Sut all/mae eich ffrindiau a theulu yn helpu?
- Sut all/mae eich cymuned leol yn helpu?

**Proffil y gofalwyr a atebwyd**


Mae bron 70% o'r gofalwyr yn fenywaidd, 29% yn wrywaidd ac mae gwell gan y 1% arall beidio dweud.





Mae'r nifer fwyaf yn byw yn Arfon a Meirionnydd (41% o Arfon a 39% o Feirionnydd), ac 20% o ofalwyr yn byw yn Nwyfor. Mae'n anodd gwybod os ydi'r ymateb o Ddwyfor yn adlewyrchu nifer o ofalwyr yno h.y. bod llai o ofalwyr yn yr ardal hon o'i gymharu â'r ddwy ardal arall, neu oherwydd rhesymau hanesyddol, sef yr anhawster gweithio gyda gofalwyr yn yr ardal.




O safbwynt dewis iaith, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu yn y Saesneg  (79%) ond er mai Saesneg yw'r iaith a siaredir gan y mwyafrif, lleiafrif yw'r  gofalwyr sy'n siarad Saesneg yn unig oherwydd nifer o ofalwyr sydd yn nodi eu bod yn siarad y ddwy iaith. Mae hyn yn tanlinellu'r pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau cefnogol drwy'r Gymraeg i ofalwyr Gwynedd.





Mae 67% o'r gofalwyr yn gofalu am 50 awr neu fwy bob wythnos, gyda 15% yn gofalu rhwng 20 - 49 awr yr wythnos a 13% hyd at 19 awr. Mae 5% arall o'r gofalwyr yn dweud bod yr oriau yn amrywio o wythnos i wythnos.





Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n cael eu gofalu amdanynt dros 65 oed (66%) gyda 45% ohonynt dros 75 oed. Y grŵp lleiaf o bobl sy'n derbyn gofal yw'r rhai rhwng 19 - 34 oed. Mae 15 o ofalwyr yn rhieni sy'n gofalu am blentyn sydd dan 18 oed.



O safbwynt perthynas i'r rhai sy'n derbyn y gofal,  gwragedd yw'r mwyafrif ond mae llai o wahaniaeth rhwng nifer o wragedd sy'n gofalu a nifer o wŷr na rhwng nifer o famau a nifer o dadau. Allan o'r holl rieni sy'n gofalu, mae dros 90% yn famau, ac mae'r un patrwm gyda phlant sy'n gofalu dros eu rhieni, a brodyr a chwiorydd dros eu sibling; 72% yn ferched a 75% yn chwiorydd.





Mae llawer o'r gofalwyr yn gofalu dros rywun gyda mwy nag un anabledd neu afiechyd. Er bod rhai yn nodi un anabledd yn unig, mae’r mwyafrif yn nodi mwy nag un, gyda llawer yn nodi hyd at bedwar. Mae'r  cyflwr iechyd cymhleth ar y rhai sy'n derbyn y gofal yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o oriau mae'r gofalwyr yn gofalu bob wythnos.





Ychydig iawn sy'n nodi eu bod yn darparu ond un math o ofal; mae llawer mwy yn dweud eu bod yn gwneud popeth. Mae rhai dynion yn nodi gwaith tŷ a choginio fel rhan o'u rôl gofalu ac mae'n rhaid cydnabod bod ymdopi  â'r tasgau hyn nad oeddent wedi eu gwneud o'r blaen yn gallu bod yn her

sylweddol i ddyn mewn oed sy'n ceisio eu cwblhau ar ben popeth arall y mae'n eu gwneud wrth ofalu dros ei wraig.




**Yr heriau y mae'r gofalwyr yn wynebu yn eu bywydau bob dydd fel gofalwyr**
Gofynnwyd i ofalwyr beth yw'r heriau yn eu bywydau bod dydd fel gofalwyr ac er bod pob ymateb, fel pob sefyllfa, yn wahanol ac yn unigryw, y mae rhai themâu sy'n codi'n rheolaidd fel y dangosir yn y siart isod.




Blinder a/neu straen yw'r her fwyaf (22% o'r gofalwyr wedi nodi hyn); weithiau ond blinder yw'r broblem - mae rhai yn dweud eu bod yn methu cael noson dda o gwsg - ac weithiau mae'n straen yn unig. Mae llawer yn sôn am straen emosiynol. Yn aml mae gofalwyr yn wynebu nifer o heriau gydag un yn achosi un arall e.e. mae diffyg cefnogaeth/pryderu am arian yn achosi straen i un gofalydd: *"Ariannol - dwi ddim yn medru mynd allan i weithio. Emosiynol - dim cefnogaeth gan fy ngŵr am ei fod 'di cael strôc. Problemau i gyd arna i."*

Mae teimlad o unigedd neu unigrwydd yn ychwanegu at straen emosiynol ac yn achosi i nifer o ofalwyr ddioddef o iselder. Dywedodd un dyn mai unigrwydd ac anobaith yw ei heriau dyddiol.

Mae gan lawer o'r gofalwyr broblemau iechyd eu hunain (dros 10%) ac mae rhai yn ddifrifol sâl (gan gynnwys canser) neu mae ganddynt anabledd corfforol.
*"Oherwydd bregustod fy iechyd personol i, sef salwch ysgyfeiniol, rwy'n ei chanfod yn anodd iawn ymdopi gyda'r gofal parhaus yr wyf yn ei ddarparu..."*

Wrth nodi bod 45% o bobl sy'n derbyn y gofal dros 75 oed ac mae'r priod fel arfer yw'r gofalydd, mae'n amlwg bod llawer o'r gofalwyr mewn oed, ac mae rhai yn nodi hyn fel achos o bryder yn ogystal â phroblemau iechyd, blinder a straen.
*"Mae fy mywyd ynghlwm wrth y gofal pob awr o'r dydd a dim amser i ymlacio, fi yw'r unig ofalydd, ac mae fy ngŵr yn llwyr ddibynnol arnaf. Mae'r cyfrifoldeb yn faich sylweddol ar unigolyn fy oedran i. Rwyf yn 83 mis nesaf (Medi)."*

Mae 16% o'r gofalwyr yn sôn am ddiffyg amser ar gyfer eu hunain, gyda rhai yn nodi bod rhaid iddynt fod ar gael 24 awr y dydd; ei bod yn amhosibl cael gwyliau ac nad oes digon o oriau yn y diwrnod.
*"Amser i gael seibiant, mae rhywun "on the go" o hyd. Cael digon o amser i wneud pob dim sydd ei angen."*
Gall diffyg amser i ymlacio gynyddu'r problemau o straen a blinder ar gyfer y gofalydd ac, yn y pen draw, effeithio ei iechyd, felly mae cyfle cael gofal ysbaid yn bwysig iawn.

Er bod rhai o'r gofalwyr yn dal i weithio, maent yn sôn am hyn fel her, ac mae rhai yn dweud nad ydynt, fel gofalwyr, yn cael cefnogaeth/dealltwriaeth gan eu cefnogwyr/gweithle, sy'n achosi problem/straen ychwanegol iddynt. Mae ychydig wedi nod bod rhaid iddynt roi'r gorau i'w gwaith oherwydd eu rôl gofalu sydd wedi achosi pryderon ariannol iddynt.


Ychydig iawn sy'n dweud nad oes ganddynt heriau, gyda rhai yn dweud eu bod yn iawn 'am y funud' ac mae eraill yn dweud eu bod yn cymryd pethau fel maent yn digwydd bob dydd; neu fel dywedodd un yn Saesneg "*Dwi'n jest ei neud hi!".*

**Pwy neu beth sy'n helpu'r gofalwyr i oresgyn yr heriau dyddiol**
Teulu yw'r grŵp o bobl fwyaf sy'n helpu'r gofalwyr hyn, ond mae'n rhaid nodi nid y teulu yn unig sy'n eu cefnogi i oresgyn yr heriau dyddiol. Er bod 37% yn dweud bod eu teulu yn helpu, dim ond 17% yn dweud mai'r teulu'n unig sy'n eu cefnogi. Y canran mwyaf nesaf yw rhai sy'n dweud bod neb yn eu helpu, sef 23% sydd bron yn chwarter. Mae hwn yn nifer sylweddol ac yn achos pryder, wrth ystyried natur yr heriau sydd wedi 'u hadnabod, ond hefyd mae'n codi'r cwestiwn canlynol: beth mae pobl/gofalwyr yn ystyried i fod yn help? Derbyniodd pawb eu holiadur gan fudiad 3ydd sector sydd yn bodoli i'w cefnogi fel gofalwyr a gyda phwy y maent wedi cofrestru. A yw rhai o bobl yn meddwl ond am y sector statudol fel darparwyr o help a chefnogaeth?


Ychydig iawn sy'n ystyried naill ai'r sector statudol (gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd) neu fudiad 3ydd sector (Cynnal Gofalwyr neu Hafal) fel yr unig bobl sydd yn eu cefnogi. Fel arfer, mae'r

gofalwyr yn cael help o ffynonellau gwahanol, e.e. sector statudol, 3ydd  sector a theulu, neu deulu, ffrindiau a 3ydd sector neu sector statudol. Mae nifer  (dros 10%) yn dweud mai'r gofalwyr taledig yw'r bobl sy'n eu helpu.

Mae 55% o'r gofalwyr yn nodi teulu, ffrindiau a chymdogion fel ffynhonnell o gymorth iddynt, sydd yr union faint o ofalwyr sy'n nodi'r 3ydd sector, sector statudol, gofalwyr taledig, cartrefi gofal a chymorth allanol arall.




**Sut maent yn helpu'r gofalwyr oresgyn yr heriau**
Wrth ystyried nifer o'r gofalwyr sy'n dweud nad yw neb yn eu helpu, nid yw'n syndod bod bron 34% yn methu ateb y cwestiwn ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarperir neu yn nodi absenoldeb cefnogaeth.




Ond y gefnogaeth fwyaf yw'r cyfle i gael hoe neu ysbaid (20%) ac er bod nifer yn cyfeirio at oriau o ysbaid y maent yn cael bob wythnos drwy'r sector statudol, mae nifer yn defnyddio'r amser pan mae gweithwyr taledig yno i gael hoe: "*Yn rhoid cefnogaeth i fi cael panad neu gawod mewn llonydd".*
Mae nifer sylweddol yn dibynnu ar unigolion eraill, fel arfer aelod o deulu ond weithiau ffrind neu gymydog, i gymryd dros y rôl gofalu i roi ysbaid iddynt, boed ychydig o oriau, dros nos neu am wythnos gyfan.
*"Maent wedi cymryd drosodd fy rôl fel gofalwr iddo, tra bod y ferch arall yn mynd a fi ar fy ngwyliau efo hi am wythnos. Weithiau, bydd y plant yn mynd â fo am dro yn y car, neu am bryd bwyd, i mi gael seibiant ac amser i mi fy hun. Gall hyn fod yn anodd gan ei fod yn aml yn gwrthod mynd hebddof. Yn ogystal, mae'r plant yn ei gymryd i'w tai am banad/prynhawn ayyb neu yn eistedd efo fo yn y tŷ tra fy mod yn ymweld â fy chwiorydd, sydd hefyd yn dibynnu arnaf."*

Eto fel arfer mae'r gofalwyr yn sôn am fwy nag un fath o gymorth, ac mae llawer ohonynt yn derbyn help ymarferol, gan gynnwys trafnidiaeth. Mae rhai yn nodi eu bod yn cael cefnogaeth emosiynol ac/neu ymarferol ac mae rhai eraill yn ystyried mai'r ffaith bod rhywun yno iddynt yn ddigonol; mae gwrando a sgwrsio'n bwysig: *"Drwy wrando arnaf a mynd â'r gŵr allan weithiau."*

Er ein bod yn gwybod am bwysigrwydd gwybodaeth i ofalwyr, dim ond ychydig o'r grŵp hwn o ofalwyr sydd yn sôn am gyngor a gwybodaeth fel y math o gefnogaeth y maent yn eu derbyn.


**Pa mor dda mae'r gefnogaeth yn gweithio**




Maen' debyg bod, fel arfer, y gefnogaeth hon yn gweithio'n eithaf da, gyda 33% o'r gofalwyr yn meddwl ei bod yn dda neu'n dda iawn. Er hynny mae 17% wedi nodi naill ai nad oes ganddynt gefnogaeth neu'r gefnogaeth sydd ar gael ddim yn dda o gwbl neu yn anghyson, ac mae 22% ond yn fodlon efo'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn. Mae dros 10% yn nodi eu bod angen rhagor o gefnogaeth:
*"Yn arbennig o dda pan fônt yma, ond mae'r gagendor rhwng y 2 ymweliad yn enfawr."*

**Sut all y gefnogaeth fod yn well**

Mae'r ganran fwyaf o'r gofalwyr wedi methu ymateb i'r cwestiwn am sut all y gefnogaeth fod yn well neu yn dweud nad ydynt yn gwybod (31%). Mae ychydig yn meddwl nad oes modd gwella'r gefnogaeth oherwydd yr amgylchiadau; er enghraifft dywedodd un gofalydd (yn y Saesneg) nad oedd ateb hawdd i'r cwestiwn hwn; mae gan ei wraig iselder difrifol ac ni all gyfathrebu'n hawdd, ac nid oes modd gwella'r ddau. Gall agwedd y sawl sy'n derbyn y gofal fod yn rhwystr mawr i'r gofalydd gael cefnogaeth o gwbl - h.y. mae'r gefnogaeth ar gael ond mae agwedd y sawl sy'n derbyn y gofal yn rhwystro'r gofalydd rhag cael mynediad ati.




Ar yr ochr bositif, mae 18% yn meddwl bod y gefnogaeth yn iawn ac nid oes angen ei gwella. Wrth sôn am sut y gellir gwella'r gefnogaeth sydd ar gael, cyfeiriodd lawer at wasanaethau iechyd yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau cymdeithasol. Maent yn sôn am nifer o welliannau fel rhagor o ysbaid ac oriau gofal, cefnogaeth tu allan i oriau swyddfa, trafnidiaeth well, pobl i fod yno i wrando a rhannu gwybodaeth am ba gefnogaeth sydd ar gael.

*"Mae cefnogaeth yn gymorth, ond byddai cael cyfle ychwanegol i fynychu digwyddiadau penodol e.e. angladdau teuluol, neu gymdeithasau lleol yn welliant mawr ac yn gwneud bywyd llawer haws, Byddai cymorth teithio yn gymorth hefyd gan na allaf yrru car."*

Mae rhai o'r atebion yn adlewyrchu'r ffaith bod ychydig o gymorth weithiau yw beth sydd yn gwneud gwahaniaeth i ofalwyr, fel "*Ymweliad achlysurol a sgwrs*."


**Sut all/mae ffrindiau a theulu yn helpu**

Dywedodd tri gofalydd mai dyletswydd y sector statudol nid y teulu yw cefnogi gofalwyr . Er hynny, mae bron hanner (49%) yn dweud bod eu teulu a/neu ffrindiau yn eu helpu, er nad yw hyn bob tro yn rheolaidd oherwydd bod y teulu'n byw yn bell i ffwrdd (15%). Hefyd mae nifer o'r gofalwyr yn sôn am ffaith bod gan eu teulu/ffrindiau bywydau eu hunain e.e. gweithio neu/a  magu plant (11%), gan awgrymu nad oedd modd neu'n deg disgwyl iddynt helpu llawer.

*" Mae fy ffrindiau mewn oed hefyd ond yn dda wrthyf. Mae fy unig blentyn yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio iddo ei hun, teulu etc felly nid wyf yn cael help yn aml ganddo. Pan ddaw, mae'n helpu o gwmpas y lle ac yn gofalu am bethau fel yswiriant etc sy'n help mawr."*

ac nid yw canran fach (2%)yn hoffi gofyn yn rhy aml.


*"Mae cymdogion yn garedig iawn, ond ni allaf ofyn ffafriaeth bob dydd; mae gan bobol ei gwaith ei hunan. Mae Megan yn yr ysbyty ers 10 wythnos wedi torri ei choes; mae'n anodd iawn i mi fynd i'w gweld ond begio ar gymdogion."*




Weithiau,  problem unwaith eto yw agwedd y dibynnydd

*"Hoffwn pe tai mam yn mynd at fy chwaer am chydig o ddyddie, ond mae'n gwrthod mynd ar hyn o bryd."*

**Sut all / mae'r gymuned leol yn helpu.**




Wrth beidio ateb, neu ddweud naill ai nad ydynt yn gwybod, neu nad yw help ar gael, neu nid ydynt eisiau help neu nad oes modd i'r gymuned eu helpu, roedd ymateb negyddol gan y mwyafrif o'r gofalwyr (52%) i'r cwestiwn sut all y gymuned leol helpu.

*"Ni chredaf y gall y gymuned helpu gydag achos o'r fath".*

Mae'n debyg mai hwn yw'r cwestiwn mwyaf heriol gyda 30% yn sôn am wasanaethau a fyddai'n cael eu darparu gan y sector statudol a'r 3ydd sector, yn hytrach na'r gymuned leol. Er hynny nid yw hyn yn wir ym mhob achos, mae rhai o'r gofalwyr yn sôn am aelodau'r capel yn galw draw am sgwrs, neu gymdogion sy'n helpu, weithiau drwy wneud y pethau bach.

*"Mae un o'n cymdogion yn mynd i nôl papurau inni bob bora ac mae'r cymdogion eraill yn dda"*

Mae 11% o ymatebion yn cyfeirio at gefnogaeth emosiynol ac ymarferol, yr angen am gymdeithasu a gweithgareddau, sydd i gyd yn fath o gymorth a allai gael ei ddarparu gan y gymuned leol, pe bai'r gofalydd a'r sawl sy'n cael y gofal yn barod i'w dderbyn.

*"Gwn y buasai gweithgareddau o fewn y gymuned yn helpu, ond nid yw o yn hapus am hynny, ac ni allaf ei orfodi i fynd".*

Yn aml iawn mae'r gofalwyr yn meddwl am gymdeithasu a gweithgareddau ar gyfer y sawl sy'n derbyn y gofal ond, ar yr un pryd, byddai'r gefnogaeth hon yn help iddynt hefyd. Yn anffodus gall trafnidiaeth fod yn broblem i lawer o bobl, yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig.

*"Dim llawer o bethau yn ardal y Bala, yn wir does dim gweithgareddau etc yn cael eu trefnu yn yr ardal yma a rhaid teithio o hyd ac mae hyn yn anodd oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus."*

Mae rhai gofalwyr yn nodi nad ydynt yn gallu mynychu gweithgareddau lleol oherwydd nad oes unrhyw un ar gael i fod efo'r dibynnydd.

Efallai bod llai na chwarter o'r gofalwyr heb ddeall y cwestiwn h.y. pwy neu beth yw'r gymuned leol, ac fel arfer maent yn adrodd yn gadarnhaol am y gefnogaeth sydd ar gael yno, gan gynnwys y dilynol, sy'n esiampl wych o sut all y gymuned leol helpu:
*"Oherwydd bod fy ngŵr yn bartner yn y fferm doedd o ddim yn cael help ariannol i addasu'r tŷ - fe wnaeth y gymuned leol hel arian er mwyn i ni neud wet room iddo."*

**I gloi**
Er nad yw'r gofalwyr a ymatebodd i'r holiadur yn adlewyrchu oedran y rhan fwyaf o ofalwyr yng Ngwynedd, sydd rhwng 45-64 oed yn ôl Cyfrifiad 2011, mae'r heriau y maent yn eu nodi a'r gefnogaeth sydd ei angen yn berthnasol i lawer o ofalwyr o bob oed. Mae llawer o ymchwil ac arolygon wedi cadarnhau bod gofalu yn achosi straen a blinder sy'n cael effaith negyddol ar iechyd gofalwyr, yn arbennig eu hiechyd emosiynol a meddyliol. Rydym yn ymwybodol ei bod yn hanfodol i ofalwyr gael cymorth ymarferol, fel help gan ofalwyr taledig, a digon o gyfnodau ysbaid. Yn anffodus mae'r holiaduron yn dangos nad oes digon o gefnogaeth ar gael i bob un gofalydd ar y funud.

Wrth ddarllen yr ymatebion, mae'n amlwg pa mor unigryw yw bob un profiad gofalu, felly mae'r syniadau tu ôl i Ffordd Gwynedd a'r asesiad 'Beth sy'n bwysig' yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Rhywbeth arall sy'n amlwg yw pwysigrwydd teulu, ffrindiau neu gymdogion fel cefnogaeth i ofalwyr. Pan mae'r gefnogaeth hon ar gael yn rheolaidd mae gofalwyr yn teimlo'n well, yn cael digon o ysbaid ac yn gallu rhannu'r profiad gyda rhai sy'n agos atynt. Mae hyn yn brofiad hollol groes i nifer fawr sy'n teimlo dan straen, wedi blino ac yn unig. Er hynny, yn anffodus, mae nifer o ofalwyr a'u teuluoedd yn disgwyl i'r sector statudol helpu yn hytrach na meddwl am yr help anffurfiol sydd ar gael gan deulu, ffrindiau a chymdogion .

Mae llawer o ofalwyr yng Ngwynedd sydd angen cefnogaeth; sut i ddarparu yw'r her, a gan bwy yw'r cwestiwn.

DRAFT

## Executive Summary

Funded by Derwen and Children in Need, Gwynedd Parents Carers provides a service for parents in Gwynedd who have caring responsibilities. The service was analysed using the Social Return on Investment (SROI) framework to understand the total value created for parents, children and health and social care agencies. Stakeholders were involved in this analysis providing us with an insight to what changes because of this service. The results demonstrate that significant value is created through the activities of Gwynedd Parent Carers by Carers Outreach.

**The result of £5.82:1 indicates that for each £1 of value invested, £5.82 of value is created.**

The success of this service is having the Field Officer available to support and advice on various concerns, but also the contact with other families was essential. That peer support was so valuable and was only possible because of the activities organised by Carers Outreach. Having an opportunity to see others going through similar experiences and that support network was so valuable to families.

This report is not about putting a price on everything, but allows us to demonstrate the value of having support for parents who are carers in Gwynedd, allowing us to see how we can create even more social value in the lives of people.

bywyd LIFE
GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR
CARERS OUTREACH SERVICE

SOCIAL VALUE CYMRU

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 68 | 154 | 86 | 0 | 86 | 62 |
| Gofal Dydd | (20) | (17) | 3 | 0 | 3 | 23 |
| Gofal Cymunedol | 92 | 214 | 122 | 0 | 122 | 142 |
| Eraill | 25 | (2) | (27) | 0 | (27) | (37) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **165** | **349** | **184** | **0** | **184** | **190** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 4,403 | 4,416 | 13 | 0 | 13 | 28 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,204 | 3,483 | 279 | 0 | 279 | 373 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **7,607** | **7,899** | **292** | **0** | **292** | **401** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,207** | **50,295** | **88** | **0** | **88** | **168** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - tanwariant o (£362k) yn cael ei ragweld yn bennaf gan fod y tueddiad o leihad yn y niferoedd cleientiaid mewn lleoliadau preswyl a nyrsio yn parhau, gyda gostyngiad o 68 o breswylwyr ers dechrau'r flwyddyn ariannol, sef o 409 i 341 erbyn hyn.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - rhagwelir tanwariant o (£72k), gyda (£50k) ohono ar breswyl a nyrsio, y duedd o ostyngiad yn y nifer o achosion taliadau uniongyrchol yn parhau, ond cynnydd yn y galw am becynnau gofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - y tanwariant yn bennaf ar breswyl a nyrsio ac felly yn dilyn yr un tuedd â'r darlun a adroddir ar wasanaethau pobl hŷn ac anabledd corff uchod, tanwariant ar wasanaethau dydd ond gorwariant ar gynlluniau cefnogol a thaliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - y duedd yn parhau gyda gorwariant net o £188k o ganlyniad i achosion newydd costus preswyl a nyrsio, a chynnydd o £46k yn ystod y chwarter ar wariant ar ofal alcohol a chyffuriau. Tanwariant un-tro o £40k ar swyddi gwag yn cynorthwyo i leihau lefel y gorwariant.

**Gwasanaethau Darparu** - parhad yn y tueddiad gyda gorwariant o £184k, sydd yn bennaf ar ofal cymunedol, £92k ohono o ganlyniad i orwariant ar gostau teithio gyda'r gweddill ar staffio a gorbenion. Cynnydd yn y gorwariant ar ofal preswyl o ganlyniad i gostau staffio ychwanegol.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol** - bu cynnydd sylweddol yn ystod y chwarter o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2016/17 yr Adran, a bellach rhagwelir fod y tangyflawni net yn gostwng i £273k (£508k yn chwarter 2), ond fod nifer o gynlluniau arbedion yn parhau i lithro, neu eto i'w gwireddu yn 2016/17. Mae bwriad gan yr Adran i gymryd camau pellach i geisio sicrhau fod y darlun yn gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a hynny drwy ail-becynnu eu cynlluniau arbedion.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 467 | 444 | (23) | 0 | (23) | (22) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,864 | 2,090 | 226 | 0 | 226 | 195 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,264 | 2,324 | 60 | 0 | 60 | 72 |
| Maethu Drwy Asiant | 970 | 995 | 25 | 0 | 25 | 62 |
| Maethu Mewnol | 1,640 | 1,750 | 110 | 0 | 110 | 56 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,448 | 1,547 | 99 | 0 | 99 | 80 |
| | 6,322 | 6,616 | 294 | 0 | 294 | 270 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 1,037 | 853 | (184) | 0 | (184) | (194) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,444 | 1,410 | (34) | 0 | (34) | (54) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 235 | 210 | (25) | 0 | (25) | (24) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 107 | 62 | (45) | 0 | (45) | (51) |
| Gwasanaethau Eraill | 2,465 | 2,478 | 13 | 0 | 13 | 48 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,941** | **14,163** | **222** | **0** | **222** | **168** |

## Plant a Theuluoedd

**Gwasanaethau Gweithredol** - cynnydd o £31k yn y gorwariant a ragwelir ers yr hyn a adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter, gyda gorwariant o £226k bellach yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar staffio a chostau uwch pecynnau gofal cymhleth. Mae'r maes yma yn destun bid ar gyfer 2017/18.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - rhagwelir gorwariant o £294k ar wasanaethau lleoliadau, sydd £24k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 2, gyda'r gorwariant ar faethu mewnol wedi dwblu i £110k yn dilyn derbyn achosion newydd yn ystod y chwarter. Mae rhan o'r cynnydd yn cael ei wrthbwyso â gostyngiad o £37k yn y gorwariant a ragwelir ar faethu drwy asiant a £12k ar leoliadau all-sirol, gan mai dim ond un achos newydd a welwyd yn ystod y chwarter, ac felly modd lleihau y ddarpariaeth berthnasol. Y gorwariant yn parhau ar lwfansau, a thâl ar gadw maethu mewnol sef y 'Cynllun Aros Ymlaen' yn gorwario £59k. Mae'r gwaith yn parhau i gwrdd â'r targedau arbedion cysylltiedig.

**Gwasanaethau Ôl-16** - tanwariant o (£184k) yn cael ei ragweld yn dilyn lleihad yn y galw am gynlluniau cefnogol Ôl-16.

**Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar** - ffioedd incwm ychwanegol ond cynnydd mewn costau ers yr ail chwarter.

Disgwylir i'r Adran yn cymryd camau i geisio rheoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae gwerth £58k o gronfeydd wrth gefn gan yr Adran i gyfrannu tuag at leihau y gorwariant a adroddir. Bydd hyn yn cael ystyriaeth bellach wrth gau y cyfrifon, ar ôl sefydlu y sefyllfa derfynol.

**BIDIAU REFENIW 2017/18**

| Aelod Cabinet | Cyf | Manylion y Bid | Parhaol / Un Tro | Swm y Cais (£) | Argymhelliad | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllido (£) | Gwrthod (£) | Sylwadau | |
| **ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | | | |
| M.R. | PLANT 1 | **Lleoliadau Plant Mewn Gofal**<br>Cais er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd yn y nifer o leoliadau newydd. | Cais Un Tro | 160,000 | 160,000 | | Argymell ariannu'r cais yn llawn. | |
| M.R. | PLANT 2 | **Adnoddau Tim Plant Gweithredol**<br>Cais i ariannu dau weithiwr cymdeithasol a gweinyddwyr er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau. | Cais Parhaol | 120,000 | 50,000 (Parhaol)<br>50,000 (Un Tro) | 20,000 | Argymell ariannu un o'r gweithwyr cymdeithasol o'r bid yn barhaol ac un gweithiwr cymdeithasol dros dro am 2 flynedd, gan ddisgwyl i'r Adran ymchwilio i opsiynau effeithlonrwydd o fewn 2 flynedd. | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Parhaol** | | | | **120,000** | **50,000** | **20,000** | | |
| **Cyfanswm Bidiau Refeniw Un Tro** | | | | **160,000** | **210,000** | **-** | | |
| **CYFANSWM ADRAN PLANT** | | | | **280,000** | **260,000** | **20,000** | | |

## Cyllideb Refeniw 2016/17 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Trydydd Chwarter | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17 £ '000 | Symud i/o Gronfeydd £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Ail Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,207** | **88** | **0** | **0** | **88** | *168* |
| **Plant a Theuluoedd** | **13,941** | **222** | **0** | **0** | **222** | *168* |
| **Addysg** | **89,057** | **42** | **0** | **0** | **42** | *13* |
| **Economi a Chymuned** | **11,719** | **2** | **0** | **0** | **2** | *73* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **23,076** | **58** | **0** | **0** | **58** | *118* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | **8,954** | **(215)** | **0** | **115** | **(100)** | *(23)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **1,163** | **(47)** | **0** | **0** | **(47)** | *70* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **711** | **(55)** | **0** | **0** | **(55)** | *(29)* |
| **Cyllid** | **765** | **(56)** | **0** | **0** | **(56)** | *(67)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **512** | **(80)** | **0** | **0** | **(80)** | *(88)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | * | **(1,285)** | **0** | **1,280** | **(5)** | *(190)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **200,105** | **(1,326)** | **0** | **1,395** | **69** | *213* |

## CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2017/18 FESUL GWASANAETH

| ADRANNAU | Cyllideb Sylfaenol 2016/17 £'000 | Chwyddiant £'000 | Incrementau £'000 | Ardoll, Llog ar Falansau a Chostau Cyfalaf £'000 | Demograffi a Trosglwyddiad Setliad £'000 | Cyllidebau Incwm £'000 | Amrwyiol £'000 | Pwysau, Prentisiaeth a Phensiynau £'000 | Arbedion a Thoriadau £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,052 | 18 | 3 | 0 | 0 | 0 | (50) | 0 | (21) | 2,002 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,973 | 69 | 3 | 0 | 0 | (10) | (30) | 0 | (408) | 7,597 |
| Cyllid | 6,144 | 67 | (9) | 0 | 0 | 0 | 32 | 79 | (263) | 6,050 |
| Cefnffyrdd | (87) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (87) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 20,559 | 210 | (12) | 0 | 0 | (20) | 78 | 726 | (1,866) | 19,675 |
| Rheoleiddio | 6,947 | 83 | 5 | 0 | 3 | (60) | 83 | (25) | (980) | 6,056 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 318 | 1 | (18) | 0 | 0 | 0 | (1) | 0 | (105) | 195 |
| Addysg Canolog | 13,289 | 83 | (30) | 0 | (1) | 0 | 27 | 247 | (415) | 13,200 |
| Cyllideb Ysgolion | 69,147 | 689 | 196 | 0 | 34 | 0 | (26) | 791 | (1,087) | 69,744 |
| Economi a Chymuned | 5,965 | 29 | 43 | 0 | 0 | 119 | (14) | 6 | (873) | 5,275 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 44,014 | 1,363 | 127 | 0 | 327 | 0 | (114) | 559 | (1,937) | 44,339 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 12,554 | 147 | 10 | 0 | 33 | 0 | 100 | 253 | (340) | 12,757 |
| **Cyfanswm Adrannau** | **188,875** | **2,759** | **318** | **0** | **396** | **29** | **85** | **2,636** | **(8,295)** | **186,803** |
| Materion Corfforaethol a Chyfalaf | 43,202 | 999 | 0 | 381 | 565 | 0 | 88 | 781 | 1,063 | 47,079 |
| **CYFANSWM =** | **232,077** | **3,758** | **318** | **381** | **961** | **29** | **173** | **3,417** | **(7,232)** | **233,882** |
| Llai Praesept Cynghorau Cymuned | (1,826) | | | | | | | | | (1,826) |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **230,251** | **3,758** | **318** | **381** | **961** | **29** | **173** | **3,417** | **(7,232)** | **232,056** |
| Ariannwyd Drwy: Balansau a Reserfau Penodol | (3,024) | 0 | 0 | (251) | 0 | 0 | 0 | (72) | 2,591 | (756) |
| **CYFANSWM NET =** | **227,227** | **3,758** | **318** | **130** | **961** | **29** | **173** | **3,345** | **(4,641)** | **231,300** |